

Cyrraedd y nod?

Cyllid wedi'i dargedu i wella canlyniadau addysgol

Mehefin 2018



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r ddogfen hon ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
www.cynulliad.cymru/SeneddPPIA

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygrych, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: **0300 200 6565**
E-bost: **SeneddPPIA@cynulliad.cymru**
Twitter: **@SeneddPPIA**

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2018

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cyrraedd y nod?

Cyllid wedi'i dargedu i wella
canlyniadau addysgol

Mehefin 2018



Am y Pwyllgor

Sefydlwyd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar 28 Mehefin 2016 i archwilio deddfwriaeth a dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif drwy graffu ar ei gwariant, ei gweinyddiaeth a'i pholisi, yn cwmpasu'r meysydd a ganlyn (ond heb fod yn gyfyngedig iddynt): addysg, iechyd a llesiant plant a phobl ifanc Cymru, gan gynnwys eu gofal cymdeithasol.

Cadeirydd y Pwyllgor:



Lynne Neagle AC
Llafur Cymru
Torfaen

Aelodau cyfredol y Pwyllgor:



Michelle Brown AC
UKIP Cymru
Gogledd Cymru



Hefin David AC
Llafur Cymru
Caerffili



John Griffiths AC
Llafur Cymru
Dwyrain Casnewydd



Llyr Gruffydd AC
Plaid Cymru
Gogledd Cymru



Darren Millar AC
Ceidwadwyr Cymreig
Gorllewin Clwyd



Julie Morgan AC
Llafur Cymru
Gogledd Caerdydd



Mark Reckless AC
Grŵp Ceidwadwyr Cymreig
Dwyrain De Cymru



Cynnwys

Rhagair y Cadeirydd.....	7
Argymhellion.....	9
1. Cyflwyniad	14
1.1. Pam edrych ar y pwnc hwn.....	14
1.2. Cylch Gorchwyl.....	15
1.3. Casglu ein tystiolaeth.....	16
2. Y cyd-destun polisi.....	18
2.1. Mynd i'r afael ag effaith amddifadedd ar gyrhaeddiad: y Grant Datblygu Disgyblion.....	18
2.2. Gwellu canlyniadau disgyblion mewn ysgolion sy'n tanberfformio: Her Ysgolion Cymru.....	21
3. Yr egwyddor o gyllid wedi'i dargedu a dull gwithredu Llywodraeth Cymru.....	25
3.1. Sicrhau gwerth am arian a gwellu canlyniadau disgyblion	27
3.2. Cydlynad dull Llywodraeth Cymru o dargedu cyllid.....	29
4. Targedu Grant Datblygu Disgyblion ar gyfer y rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim.....	30
4.1. Cymylu rhwng anfantais a chyrhaeddiad isel?	30
4.2. Effaith trefniadau atebolrwydd ysgolion ar y ffordd y mae'r Grant Datblygu Disgyblion yn cael ei dargedu.....	34
4.3. Ymestyn y cyfnod amser o ran cymhwysra disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim i gael y Grant Datblygu Disgyblion.....	36
5. Defnydd ymarferol o'r Grant Datblygu Disgyblion ar gyfer y rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim	43
5.1. Effeithiolrwydd y defnydd o gronfeydd y Grant Datblygu Disgyblion	43
5.2. Y defnydd o dystiolaeth ac arbenigedd.....	46
5.3. Defnyddio'r Grant Datblygu Disgyblion i olrhain cynnydd disgyblion.....	52

6. Effaith y Grant Datblygu Disgyblion ar bresenoldeb ac ymgysylltiad disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim	54
6. 1. Presenoldeb	54
6. 2. Gwaharddiadau	59
7. Effaith y Grant Datblygu Disgyblion ar gyrhaeddiad disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim	62
7. 1. Cyrhaeddiad hyd at 2016	74
7. 2. Cyrhaeddiad yn 2017	75
7. 3. Mesurau perfformiad Cyfnod Allweddol 4	76
8. Y Grant Datblygu Disgyblion i Blant sy'n Derbyn Gofal	80
8. 1. Gwerthusiad a dull strategol	80
8. 2. Ymgysylltu a chyrhaeddiad Plant sy'n Derbyn Gofal	85
8. 3. Ymestyn cymhwysra y Grant Datblygu Disgyblion i blant sydd wedi bod mewn gofal ar unrhyw adeg	89
9. Y Grant Datblygu Disgyblion ar gyfer plant mabwysiedig.....	92
9. 1. Nodi plant mabwysiedig a thargedu'r Grant Datblygu Disgyblion tuag atynt.....	94
9. 2. Cyllid y Grant Datblygu Disgyblion ar gyfer plant mabwysiedig.....	95
10. Effaith rhaglen Her Ysgolion Cymru ar gyrhaeddiad	98
11. Dirwyn Her Ysgolion Cymru i ben a dysgu gwersi o'r rhaglen	111
11. 1. Dirwyn y rhaglen i ben	111
11. 2. Dysgu gwersi o'r rhaglen a'u cymhwyso i wella ysgolion yn fwy cyffredinol.....	116
12. Rôl consortia rhanbarthol ac awdurdodau lleol o ran ysgogi gwelliannau mewn ysgolion (gan ddatblygu gwaddol Her Ysgolion Cymru)	121
12. 1. Y berthynas rhwng Her Ysgolion Cymru a chonsortia rhanbarthol	121
12. 2. Rôl consortia rhanbarthol ac awdurdodau lleol o ran ysgogi gwelliannau mewn ysgolion.....	126

13. Cyd-destun ehangach cyllidebau ysgolion a chyllid ar gyfer gwella ysgolion	130
13. 1. Digonolrwydd cyllidebau ysgolion	130
13. 2. Colli cyllideb Her Ysgolion Cymru o'r MEG Addysg	135
Atodiad A: Rhestr o dystiolaeth lafar	139
Atodiad B: Tystiolaeth ysgrifenedig	141

Rhagair y Cadeirydd

Dros y blynyddoedd diwethaf, mae Llywodraeth Cymru wedi targedu adnoddau ychwanegol ar gyfer grwpiau penodol o ddisgyblion. Dyrannwyd yr arian hwn i gydnabod y ffaith y gall rhai o'r anafteision y mae grwpiau penodol o ddisgyblion yn eu hwynebu eu rhwystro rhag cyrraedd eu llawn botensial. Mae ein hymchwiliad wedi canolbwyntio ar effaith y dull hwn o dargedu cyllid.

Mae'r cyswllt negyddol rhwng amddifadedd a chyrhaeddiad wedi'i hen sefydlu. Mae torri'r cyswllt wedi bod yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru ers blynyddoedd lawer. Wrth gwrs, mae llawer o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig yn gwneud yn dda iawn ac yn ffynnu'n academiaidd, ond gwyddom fod llawer mwy nad ydynt yn gwneud cystal. Yn aml, mae disgyblion sy'n gwneud yn dda yn gwneud hynny er gwaethaf pob disgwyl ac er gwaethaf eu hamgylchiadau, yn hytrach nag o'u herwydd. Ni all gwleidyddion a'r rheini sy'n llunio polisiau anwybyddu hyn. Os yw Cymru am gael y system addysg flaengar a chlodwiw yr ydym ni oll yn anelu ati, rhaid i ni sicrhau nad oes unrhyw ddisgyblion yn cael eu gadael ar ôl.

Mae Llywodraeth Cymru yn targedu cyllid ychwanegol ar gyfer disgyblion difreintiedig (gan fesur hynny ar sail eu cymhwysra i gael prydau ysgol am ddim), Plant sy'n Derbyn Gofal a phlant mabwysiedig drwy ei Grant Datblygu Disgyblion. Mae'r polisi wedi cael cryn gefnogaeth gan wleidyddion a rhanddeiliaid, ac mae ei gost flynyddol o £94 miliwn yn rhan sylweddol o gyllideb addysg Llywodraeth Cymru.

Er ein bod yn croesawu'r egwyddor gyffredinol o dargedu cyllid, credwn ei bod yn hanfodol i ni sicrhau bod buddsoddiad o'r maint hwn yn cynnig gwerth am arian. Dyma'r rheswm yr oeddem am daflu goleuni ar y graddau y mae'n gwella canlyniadau addysgol y disgyblion hynny a dargedir. Roeddem hefyd am ystyried a yw'r Grant Datblygu Disgyblion yn cyrraedd yr holl ddisgyblion y bwriedir iddo eu helpu, a sicrhau ei fod hefyd yn cefnogi'r disgyblion mwyaf galluog a thalentog i gyflawni eu llawn botensial.

Ar wahân i'r Grant Datblygu Disgyblion, targedodd Llywodraeth Cymru gyllid a chymorth ychwanegol wedi'u teilwra drwy raglen Her Ysgolion Cymru. Dyrannwyd yr arian hwn i ysgolion dethol a oedd yn tanberfformio ac yn wynebu'r heriau mwyaf. Parhaodd y rhaglen am dair blynedd (2014-2017). Gwnaeth rhai ysgolion gynnydd sylweddol o ganlyniad i'r buddsoddiad hwn, ond ni wnaeth rai eraill cystal. Roedd ein hymchwiliad yn ystyried rhai o'r rhesymau sydd wrth wraidd y canlyniadau cymysg hyn ac mae ein hadroddiad yn amlinellu sut yr ydym yn credu y dylid bwrw ymlaen ag etifeddiaeth Her Ysgolion Cymru.

Rydym wedi gwneud 31 o argymhellion, ac mae'r rhan fwyaf ohonynt wedi'u hanelu at wneud y gorau o fuddsoddiad y Grant Datblygu Disgyblion ac adeiladu ar Her Ysgolion Cymru. Fodd bynnag, taflodd yr ymchwiliad hwn oleuni hefyd ar ddau fater ehangach sy'n effeithio ar ein hysgolion. Yn gyntaf, y pwysau ar gyllidebau ysgolion, sy'n fater a nodwyd wrth drafod bron pob pwnc y cynhaliwyd ymchwiliad iddo yn ystod y Pumed Cynulliad. Yn ail, effaith mesurau perfformiad ysgolion a'r canlyniadau anfwriadol y gallant eu cael ar ymddygiad yr ysgol, sef rhywbeth a adlewyrchir yn nifer y disgyblion sy'n cofrestru ar gyfer cymwysterau ac yn y ffordd y mae ysgolion yn blaenoriaethu'r cymorth y maent yn ei ddarparu i ddisgyblion. Credwn fod angen ystyried y ddau bwnc a chraffu arnynt ymhellach.

Yn olaf, hoffwn ddiolch i'r randdeiliaid am y ffordd gadarnhaol y maent wedi ymgysylltu â'r Pwyllgor yn ystod yr ymchwiliad hwn. Rwy'n cymeradwyo ein hadroddiad a'n hargymhellion i Lywodraeth Cymru.

Lynne Neagle AC

Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Argymhellion

Argymhelliad 1. Dylai Llywodraeth Cymru asesu'n rheolaidd faint o fuddsoddiad sydd ei angen ar gyfer y Grant Datblygu Disgyblion o ran gwerth am arian a chost cyfle. Yn benodol, dylai Llywodraeth Cymru fonitro'n agos ac ar sail barhaus effaith y Grant Datblygu Disgyblion ar y disgyblion y mae'r grant yn eu targedu.

.....Tudalen 28

Argymhelliad 2. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod ei dull o dargedu cyllid i wella canlyniadau addysgol yn gydlynol, gan fynd i'r afael ag unrhyw anghysonderau rhwng yr egwyddor sy'n sail i'r Grant Datblygu Disgyblion a dirwyn grantiau addysg eraill wedi'u targedu i ben. Wrth wneud hyn, dylai Llywodraeth Cymru ddangos y rhesymau am unrhyw wahaniaethau yn ei dull gweithredu.

.....Tudalen 29

Argymhelliad 3. Dylai Llywodraeth Cymru gymryd pob cam i bwysleisio y dylid defnyddio'r Grant Datblygu Disgyblion i gefnogi pob dysgwr cymwys, gan gynnwys y rhai mwy abl a thalentog. Dylai hyn gynnwys diweddarau ei chanllawiau ar y Grant Datblygu Disgyblion, a gyhoeddwyd yn 2015, yn unol â hynny.

.....Tudalen 34

Argymhelliad 4. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod mesurau perfformiad Cyfnod Allweddol 4 a threfniadau atebolrwydd ysgolion yn cymell ysgolion i gefnogi disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim i gyflawni graddau mor uchel â phosibl.Tudalen 36

Argymhelliad 5. Os yw Llywodraeth Cymru am i ysgolion ddefnyddio'r Grant Datblygu Disgyblion ar gyfer disgyblion sydd wedi bod yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim ar unrhyw adeg yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, dylai ariannu dyraniadau'r Grant Datblygu Disgyblion ar y sail honno, h.y. fesul disgybl a fu'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim ar unrhyw adeg yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, yn hytrach na disgwyl i ysgolion gefnogi disgyblion ychwanegol gan ddefnyddio dyraniad grant sy'n seiliedig ar gipolwg o'r lefelau cymhwysra dros un flwyddyn.Tudalen 39

Argymhelliad 6. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried mabwysiadu cyfnod amser mwy hirdymor ar gyfer pennu cymhwysra ar gyfer y Grant Datblygu Disgyblion i'r rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim fel bod modd cefnogi disgyblion a fu'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn y gorffennol diweddar hefyd. Dylai

Llywodraeth Cymru ymchwilio i drothwyon cymhwysra gwahanol, er enghraifft dwy, tair, pedair neu bum mlynedd, yn erbyn symiau gwahanol fesul plentyn er mwyn penderfynu ar y model fforddiadwy gorau posibl gan ystyried y cyfaddawdau cysylltiedig.....Tudalen 40

Argymhelliad 7. Os bydd Llywodraeth Cymru yn penderfynu parhau i benderfynu lefel dyraniadau'r Grant Datblygu Disgyblion ar sail cyfrifiad y pen un flwyddyn, dylai ddyrannu'r Grant Datblygu Disgyblion ar gyfer 2018-19 a 2019-2020 i ysgolion ar sail eu cyfrifiad uchaf o ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn ôl CYBLD 2016 neu'r data diweddaraf sydd ar gael..... Tudalen 41

Argymhelliad 8. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod swyddogion arweiniol y Grant Datblygu Disgyblion a benodwyd yn ddiweddar yn y consortia rhanbarthol yn rhagweithiol o ran monitro, a herio lle bo angen, defnydd ysgolion o'r Grant Datblygu Disgyblion, er mwyn sicrhau'r effaith fwyaf a'r gwerth mwyaf am arian.....Tudalen 46

Argymhelliad 9. Dylai Llywodraeth Cymru annog ysgolion a rhoi dyletswydd arnynt i roi ystyriaeth lawn i'r dystiolaeth a'r arbenigedd sydd ar gael ar yr hyn sy'n ddefnydd effeithiol o'r Grant Datblygu Disgyblion, gan alluogi arweinwyr ysgolion i wneud penderfyniadau priodol ar gyfer eu disgyblion eu hunain. Wrth wneud hynny, dylai Llywodraeth Cymru weithio gydag Estyn i sicrhau ei fod yn chwarae rôl lawn wrth fonitro hyn. Tudalen 51

Argymhelliad 10. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod systemau a phrosesau effeithiol ar gael bob amser i bob ysgol olrhain cynnydd disgyblion. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod y consortia rhanbarthol yn rhoi cyngor a chymorth clir i ysgolion yn eu rhanbarth ynglŷn â'r dulliau sydd ar gael.
..... Tudalen 53

Argymhelliad 11. Mae angen mwy o bwyslais ar ddefnyddio'r Grant Datblygu Disgyblion i wella presenoldeb disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Dylai Llywodraeth Cymru fynd ati ar frys, drwy ei chanllawiau ar y Grant Datblygu Disgyblion a'i chyfarwyddyd i gonsortia, i wella sut y defnyddir y Grant Datblygu Disgyblion i wella presenoldeb disgyblion ac ymgysylltiad disgyblion â'u haddysg.....Tudalen 59

Argymhelliad 12. Dylai Llywodraeth Cymru fynd ati ar frys i wella a rhoi mwy o bwyslais ar sut y mae'r Grant Datblygu Disgyblion yn cael ei ddefnyddio i wella ymgysylltiad disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim er mwyn lleihau'r nifer sy'n cael gwaharddiadau cyfnod penodol. Tudalen 61

Argymhelliad 13. Dylai Llywodraeth Cymru ymchwilio ar fyrder i'r rheswm pam mae'r bwlch cyrraedd rhwng y rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r rhai nad ydynt yn gymwys wedi ehangu yn 2017 a dysgu gwersi o hyn cyn gynted â phosibl a'u rhoi ar waith. Dylai hyn ganolbwyntio ar oblygiadau'r newidiadau i fesurau perfformiad yn 2017 a sut mae'r Grant Datblygu Disgyblion yn cael ei ddefnyddio i wella gallu disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn wyneb newidiadau o'r fath.Tudalen 76

Argymhelliad 14. Er bod y Pwyllgor yn croesawu'r camau gan Ysgrifennydd y Cabinet i annog disgyblion mewn modd mwy priodol ar gyfer cymwysterau yng Nghyfnod Allweddol 4, dylai Llywodraeth Cymru ymchwilio i unrhyw ganlyniadau anfwriadol ac effeithiau andwyol ar ddisgyblion, gan gynnwys disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, sydd mewn perygl o fethu â gallu astudio cymwysterau galwedigaethol hyd yn oed os dyma sydd fwyaf addas ar eu cyfer. Dylai Llywodraeth Cymru adrodd yn ôl i'r Pwyllgor erbyn diwedd 2018.Tudalen 78

Argymhelliad 15. Er bod y Pwyllgor yn deall y rhesymeg dros benderfyniad Llywodraeth Cymru i adolygu mesurau perfformiad Cyfnod Allweddol 4 yn 2017 a 2018, dylai Ysgrifennydd y Cabinet fyfyrion ofalus ar y neges y mae hyn yn ei chyfleu ynglŷn â gwerth cymwysterau galwedigaethol yn hytrach na chymwysterau cyffredinol, yn enwedig o ystyried ymrwymiad Llywodraeth Cymru i barch cydradd. Dylai Llywodraeth Cymru adrodd yn ôl i'r Pwyllgor erbyn diwedd 2018.....Tudalen 78

Argymhelliad 16. Dylai Llywodraeth Cymru nodi pa gamau a gymerwyd ganddi i leihau unrhyw effaith andwyol bosibl ar garfan haf 2018, yn enwedig disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a Phlant sy'n Derbyn Gofal, yn sgil y newidiadau i fesurau perfformiad yn 2017 a 2018.Tudalen 79

Argymhelliad 17. Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi unrhyw asesiad effaith a gynhaliwyd ganddi ynghylch ei phenderfyniad i newid mesurau perfformiad Cyfnod Allweddol 4 o 2018/19. Os na chynhaliwyd unrhyw asesiad effaith, dylai Llywodraeth Cymru esbonio'r sail resymegol am hyn.....Tudalen 79

Argymhelliad 18. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau na fydd ei mesurau perfformiad interim newydd o 2019 ymlaen ar gyfer ysgolion yng Nghyfnod Allweddol 4 yn arwain at unrhyw ganlyniadau anfwriadol na goblygiadau penodol i garfanau penodol o ddisgyblion, gan gynnwys carfanau blynyddol sydd ymhlith y disgyblion cyntaf yr effeithir arnynt, Plant sy'n Derbyn Gofal a disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yng ngoleuni'r amcan i gau'r bwlch cyrraedd.Tudalen 79

Argymhelliad 19. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod dull gweithredu strategol, effeithiol ar waith o ran defnyddio'r Grant Datblygu Disgyblion ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal a phlant mabwysiedig, gan roi ystyriaeth briodol i werthusiad ICF Consulting ac yna gwneud unrhyw welliannau a nodir yn ôl yr angen.Tudalen 85

Argymhelliad 20. Ar y cyd â'r consortia rhanbarthol, dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod y Grant Datblygu Disgyblion ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal a phlant mabwysiedig yn cael ei ddefnyddio'n benodol ar gyfer y grwpiau hyn o ddisgyblion. Wrth wneud hynny, dylai Llywodraeth Cymru ystyried agweddau perthnasol ar adroddiad gwerthuso ICF Consulting.....Tudalen 85

Argymhelliad 21. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried ar frys sut y gellir defnyddio'r Grant Datblygu Disgyblion i wella ymgysylltiad Plant sy'n Derbyn Gofal â'u haddysg, gan gynnwys cyfraddau presenoldeb a chyfraddau gwahardd. Dylai hyn ystyried casgliadau gwerthusiad ICF Consulting.....Tudalen 88

Argymhelliad 22. Dylai Llywodraeth Cymru adolygu data ar gyrhaeddiad Plant sy'n Derbyn Gofal drwy gydol oes y Grant Datblygu Disgyblion a'r goblygiadau posibl yn sgil newid mesurau perfformiad. Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi ei hasesiad o hyn, ac ystyried sut y gall y Grant Datblygu Disgyblion gael mwy o effaith o ran gwella canlyniadau addysgol Plant sy'n Derbyn Gofal.Tudalen 89

Argymhelliad 23. Dylai Llywodraeth Cymru ymestyn y Grant Datblygu Disgyblion i gynnwys plant sydd wedi bod mewn gofal am unrhyw gyfnod sylweddol yn eu bywydau. Dylai Llywodraeth Cymru ariannu dyraniadau i'r consortia rhanbarthol yn unol â hynny a sicrhau bod y consortia hefyd yn targedu'r Grant Datblygu Disgyblion at y disgyblion hyn. Wrth wneud hyn, dylai Llywodraeth Cymru benderfynu beth sy'n cyfrif fel cyfnod sylweddol, gan gynnwys ystyried awgrym y Pwyllgor, sef unrhyw gyfnod o 13 wythnos neu fwy, fel y defnyddir wrth benderfynu cymhwysra plant sydd wedi bod mewn gofal ar gyfer gwasanaethau ôl-ofal.Tudalen 91

Argymhelliad 24. Dylai Llywodraeth Cymru roi dull ar waith o'r flwyddyn academaidd 2018/19 i alluogi rhieni i hysbysu ysgolion pan fydd eu plant yn blant mabwysiedig a chasglu'r wybodaeth honno a'i hychwanegu at gofnod ysgol y plentyn. Yna dylid defnyddio'r wybodaeth hon i dargedu cymorth o dan y Grant Datblygu Disgyblion tuag at ddisgyblion y gwyddys eu bod yn blant mabwysiedig ac i alluogi canlyniadau unigol disgyblion sy'n blant mabwysiedig i gael eu monitro mewn modd tebyg i Blant sy'n Derbyn Gofal.....Tudalen 95

Argymhelliad 25. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau ei bod yn ariannu dyraniadau'r Grant Datblygu Disgyblion ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal a phlant mabwysiedig i bob consortiwm rhanbarthol fesul Plentyn sy'n Derbyn Gofal a phlentyn mabwysiedig hysbys ym mhob rhanbarth. Lle nad yw union nifer y plant mabwysiedig yn hysbys, dylid defnyddio'r amcangyfrif gorau.Tudalen 96

Argymhelliad 26. Dylai Llywodraeth Cymru a'r consortia rhanbarthol fonitro canlyniadau addysgol disgyblion yn yr ysgolion a gymerodd ran yn Her Ysgolion Cymru a chymryd camau i liniaru unrhyw bosibilrwydd o golli momentwm yn yr ysgolion hynny a wnaeth gynydd.Tudalen 110

Argymhelliad 27. Dylai unrhyw raglen wella ysgolion yn y dyfodol redeg am gyfnod digonol o amser i'w alluogi i gael effaith barhaol, hirdymor, am fwy na thair blynedd fel arfer. Ni ddylai Llywodraeth Cymru ddirwyn rhaglen fel Her Ysgolion Cymru i ben, heblaw bod amgylchiadau eithriadol, cyn cael gwybod canlyniadau unrhyw werthusiad a gomisiynwyd ganddi.Tudalen 115

Argymhelliad 28. Dylai Llywodraeth Cymru, ar y cyd â'r consortia rhanbarthol, ymgysylltu â'r bobl allweddol sy'n ymwneud â chyflwyno Her Ysgolion Cymru, gan gynnwys yr Athro Mel Ainscow i drafod y gwersi y gellid eu dysgu o'r rhaglen a mentrau eraill i wella ysgolion, ac yna cymhwyso hyn yn fwy cyffredinol ar draws yr holl ysgolion y mae angen eu gwella.Tudalen 120

Argymhelliad 29. Dylai Llywodraeth Cymru fonitro a gwerthuso'n fanwl sut y mae consortia rhanbarthol yn darparu her i ysgolion y mae angen eu gwella ac yn eu cynorthwyo, yn enwedig y rhai a gymerodd ran yn Her Ysgolion Cymru. Dylai hyn gynnwys gofyn i Estyn gynnwys hyn yn ei arolygiadau o'r consortia rhanbarthol a'i waith monitro.Tudalen 129

Argymhelliad 30. Dylai Llywodraeth Cymru barhau i adolygu pa mor ddigonol yw cyllidebau ysgolion ac ystyried sut mae hyn yn effeithio ar ystyriaeth ysgolion o gyllid wedi'i dargedu, megis y Grant Datblygu Disgyblion, a'r defnydd ohono.Tudalen 135

Argymhelliad 31. Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu, ar sail unigol a chyfunol, restr o'r llinellau gwariant yn y gyllideb (BELs) o fewn y MEG Addysg sy'n cyllido codi safonau ysgolion yn bennaf, ar gyfer 2016-17, 2017-18 a 2018-19, yn ogystal ag ymrwymo i wneud hynny ar gyfer gweddill tymor y Cynulliad hwn.Tudalen 138

1. Cyflwyniad

1. Lansiodd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ei ymchwiliad i Cyllid wedi'i dargedu i wella canlyniadau addysgol ym mis Tachwedd 2017.
2. Nod yr ymchwiliad oedd archwilio dull Llywodraeth Cymru o dargedu cyllid a chymorth ychwanegol tuag at ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig ac ysgolion y mae angen eu gwella. Mae felly wedi canolbwyntio ar y Grant Datblygu Disgyblion parhaus a'r rhaglen Her Ysgolion Cymru, sydd bellach wedi dod i ben.

1.1. Pam edrych ar y pwnc hwn

3. Yn ystod haf 2017, mynegodd Aelodau'r Pwyllgor ddiddordeb mewn craffu ar gyllid a pholisïau a gynlluniwyd i wella canlyniadau addysgol ymhlith rhai grwpiau o ddisgyblion sydd mewn perygl o dangyflawni. Roedd y rhain yn cynnwys disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a Phlant sy'n Derbyn Gofal, yn ogystal â'r rhai mewn ysgolion sy'n tanberfformio.
4. Pan ymgynghorodd y Pwyllgor â rhanddeiliaid yn ystod haf 2016 ynghylch ei flaenoriaethau ar gyfer gwaith craffu, dywedodd Sefydliad Bevan fod anghydraddoldeb mewn lefelau cyrhaeddiad yn rhwystr mawr i symudedd cymdeithasol a dylai fod yn ganolbwynt allweddol i waith y Pwyllgor.¹
5. Mae hwn hefyd yn un o feysydd allweddol polisi'r llywodraeth. Un o dair blaenoriaeth addysg Llywodraeth Cymru yn y Cynulliad blaenorol oedd mynd i'r afael ag effaith amddifadedd ar ganlyniadau addysgol. Cytunodd Ysgrifennydd presennol y Cabinet dros Addysg, Kirsty Williams AC, ar ddeg blaenoriaeth addysg gyda'r Prif Weinidog, Carwyn Jones AC, ym mis Mehefin 2016, a oedd yn cynnwys ymrwymiad i'r Grant Datblygu Disgyblion drwy gydol tymor y Cynulliad hwn. Pwysleisiodd hefyd fod cau'r bwlch cyrhaeddiad rhwng disgyblion o gefndiroedd difreintiedig a'u cyfoedion yn amcan arbennig o bwysig iddi hi a'i Hadrannau. Felly, mae'r ymchwiliad hwn wedi rhoi cyfle i'r Pwyllgor graffu ar ba mor effeithiol y mae Llywodraeth Cymru yn gweithio tuag at yr amcan hwn ac yn dwyn Ysgrifennydd y Cabinet i gyfrif ar un o'r blaenoriaethau a nodwyd ganddi.
6. Mae'r ymchwiliad hefyd wedi galluogi'r Pwyllgor i adeiladu ar ymchwiliad y Pwyllgor blaenorol yn 2014, sef Canlyniadau addysgol plant o gartrefi incwm isel, a gynhaliwyd yn fuan ar ôl cyflwyno'r Grant Datblygu Disgyblion, ond nid ei ddyblygu. Edrychodd ymchwiliad 2014 yn ehangach ar y materion sy'n ymwneud

¹ CYPE 58, Sefydliad Bevan, Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Ymgynghoriad: Blaenoriaethau ar gyfer y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Gorffennaf – Medi 2016

â'r cysylltiad rhwng amddifadedd a chyrhaeddiad, ond mae'r ymchwiliad hwn wedi canolbwyntio'n benodol ar y defnydd wedi'i dargedu o gyllid a chymorth.

7. Mae'r Pwyllgor yn cymryd o ddifrif ei rôl graffu ar sut mae Llywodraeth Cymru yn dyrannu ei chyllideb, gan gynnwys gwerth am arian, blaenoriaethu a fforddiadwyedd. Y gyllideb flynyddol ar gyfer y Grant Datblygu Disgyblion yw £94 miliwn, sef 6 y cant o gyfanswm y gyllideb refeniw Addysg,² ac mae Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi tua £400 miliwn yn y Grant Datblygu Disgyblion hyd yn hyn. Yn ogystal, buddsoddwyd bron i £40 miliwn yn Her Ysgolion Cymru dros dair blynedd. Mae'r rhain yn adnoddau sylweddol ac mae'r ymchwiliad hwn wedi ategu dull cyffredinol y Pwyllgor o ymgymryd â gwaith craffu ariannol.

1. 2. Cylch Gorchwyl

8. Mae'r ymchwiliad hwn wedi canolbwyntio ar gyllid a chymorth wedi'u targedu ar gyfer grwpiau penodol o ddisgyblion neu ysgolion. Felly, mae cylch gorchwyl y Pwyllgor wedi canolbwyntio ar gymorth i ddisgyblion difreintiedig drwy'r Grant Datblygu Disgyblion a'r rhaglen Her Ysgolion Cymru, sy'n rhaglen ategol ond ar wahân, a oedd, tan iddi ddod i ben yn 2017, yn anelu at weithio gydag ysgolion sy'n wynebu'r heriau mwyaf o ran gwella. Felly, nid yw'r ymchwiliad wedi canolbwyntio ar y £100 miliwn a addawyd gan Lywodraeth Cymru yn ystod y Cynulliad hwn ar gyfer codi safonau ysgolion yn gyffredinol.

9. Nid yw'r ymchwiliad ychwaith wedi ystyried mathau eraill o gyllid a chymorth wedi'u targedu, megis y rhai ar gyfer dysgwyr sy'n Sipsiwn, Roma a Theithwyr a Lleiafrifoedd Ethnig, a oedd yn destun ymchwiliad cynharach gan y Pwyllgor, na chymorth a chyllid ar gyfer disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) y bu'r Pwyllgor yn eu hystyried drwy waith craffu deddfwriaethol yn 2017.

10. Ychydig cyn cyhoeddi'r adroddiad hwn, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ymgyngoriad ar ddiwygio'r meini prawf cymhwysra ar gyfer prydau ysgol am ddim yn dilyn cyflwyno Credyd Cynhwysol. Digwyddodd hyn ar ôl i'r Pwyllgor orffen ystyried y dystiolaeth. Nid oedd cyfle cyn cyhoeddi'r adroddiad hwn i ystyried yn llawn yr effaith yn sgil unrhyw newidiadau posibl i brydau ysgol am ddim yn dilyn ymgyngoriad Llywodraeth Cymru.

² Terfyn Gwariant Adrannol (DEL), ac eithrio Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME).

11. Mabwysiadodd y Pwyllgor y Cylch Gorchwyl a ganlyn ar gyfer yr ymchwiliad:

- Defnydd ysgolion o'r Grant Datblygu Disgyblion a'r graddau y mae o fudd i'r disgyblion a dargedir;
- Y berthynas rhwng cymorth a ariennir gan y Grant Datblygu Disgyblion ar gyfer plant sy'n gymwys am ginio am ddim a gwariant ar weithgareddau sydd wedi'u cynllunio i wella cyrhaeddiad pob disgybl;
- Defnydd consortia rhanbarthol³ o'r Grant Datblygu Disgyblion ar gyfer plant y gofali'r amdanynt a phlant a fabwysiadwyd, a'r effaith y mae hwn yn ei chael;
- Y cynnydd a wnaed ers ymchwiliad blaenorol y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg yn 2014: *Ymchwiliad i ganlyniadau addysgol plant o gartrefi incwm isel*;
- Effaith rhaglen Her Ysgolion Cymru a goblygiadau'r ffaith ei bod wedi dod i ben ar yr ysgolion "Llwybrau Llwyddiant" a oedd yn cymryd rhan ynddi;
- Sut y gellir defnyddio gwersi a ddysgwyd yn sgil Her Ysgolion Cymru, a'i gwaddol, i ategu polisiau a mentrau dilynol sydd â'r nod o wella canlyniadau addysgol;
- Gwerthuso'r data cyrhaeddiad yng ngoleuni rhaglen Grant Datblygu Disgyblion a rhaglen Her Ysgolion Cymru;
- Targedu cyllid / cefnogaeth i ddisgyblion mwy abl a thalentog;
- Gwerth am arian y rhaglen Grant Datblygu Disgyblion a rhaglen Her Ysgolion Cymru.

1.3. Casglu ein tystiolaeth

Tystiolaeth lafar

12. Cynhaliodd y Pwyllgor naw sesiwn tystiolaeth lafar, ac mae'r manylion wedi'u rhestru yn Atodiad A. Roedd y sesiynau hyn yn cynnwys y sefydliadau a

³ Mae'r consortia rhanbarthol wedi'u trefnu fel a ganlyn: ERW (De-orllewin a Chanolbarth Cymru): Powys, Ceredigion, Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin, Abertawe, Castell-nedd Port Talbot; Consortiwm Canolbarth y De (CSW): Pen-y-bont ar Ogwr, Bro Morgannwg, Rhondda Cynon Taf, Merthyr Tydfil, Caerdydd; Gwasanaeth Cyflawni Addysg (EAS) (De-ddwyrain Cymru): Caerffili, Blaenau Gwent, Torfaen, Sir Fynwy, Casnewydd; GWE (Gogledd Cymru): Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Wrecsam.

gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru i werthuso'r Grant Datblygu Disgyblion a Her Ysgolion Cymru; consortia rhanbarthol; undebau addysgu; Cynghorwyr addysg arbenigol Llywodraeth Cymru; Estyn; ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg.

Tystiolaeth ysgrifenedig

13. Derbyniwyd 21 darn o dystiolaeth ysgrifenedig yn dilyn **galwad y Pwyllgor**. Mae rhestr o'r ymatebwyr yn Atodiad B. Roedd y rhain yn amrywio o'r sefydliadau y galwyd arnynt i roi tystiolaeth lafar i'r Pwyllgor hefyd, nifer o sefydliadau'r trydydd sector a chynrychiolwyr llywodraeth leol.

Gwaith ymgysylltu

14. Cynhaliodd y Pwyllgor nifer o ymarferion ymgysylltu a hwyluswyd gan dîm Allgymorth y Cynulliad. Roedd y rhain yn cynnwys:

- Ymweliadau ag Ysgol Uwchradd y Dwyrain, Caerdydd; Ysgol Uwchradd Bedwas, Caerffili; Ysgol Clywedog, Wrecsam; ac Ysgol Gyfun y Barri, Bro Morgannwg.
- Grwpiau ffocws gyda staff ysgolion a llywodraethwyr.⁴

15. Roedd y sesiynau hyn yn gyfle i'r Pwyllgor glywed gan ymarferwyr sy'n rhan o'r broses o ddefnyddio cyllid wedi'i dargedu am eu profiadau a'u safbwyntiau ar ba mor effeithiol y mae'n gweithio'n ymarferol.

⁴ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Crynodeb o drafodaethau'r Grŵp Ffocws ar Gyllid wedi'i Dargedu i Wella Canlyniadau Addysgol, Mawrth 2018

2. Y cyd-destun polisi

2.1. Mynd i'r afael ag effaith amddifadedd ar gyrhaeddiad: y Grant Datblygu Disgyblion

16. Mae mynd i'r afael ag effaith amddifadedd ar ganlyniadau addysgol yn flaenoriaeth allweddol i Lywodraeth Cymru a dyma yw canolbwynt y strategaeth *Ailysgrifennu'r Dyfodol: Codi uchelgais a chyrhaeddiad yn ysgolion Cymru*, a lansiwyd yn 2014. Y Grant Datblygu Disgyblion yw'r prif ysgogydd ariannol a ddefnyddir gan Lywodraeth Cymru i wella cyrhaeddiad disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, sef procsi Llywodraeth Cymru ar gyfer amddifadedd.⁵

17. Roedd y deg blaenoriaeth addysg, y *cytunodd Kirsty Williams AC arnynt gyda'r Prif Weinidog pan gafodd ei phenodi i'r Cabinet* ym mis Mehefin 2016, yn cynnwys ymrwymiad i gynnal y Grant Datblygu Disgyblion drwy gydol y Pumed Cynulliad.

18. Cyflwynwyd y Grant Datblygu Disgyblion yn y flwyddyn ariannol 2012-13 ac mae'n darparu arian ychwanegol i ysgolion yn seiliedig ar nifer y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim,

- Ar hyn o bryd mae ysgolion yn derbyn £1,150 fesul disgybl sy'n cael prydau ysgol am ddim o Flynyddoedd 1 i 11 (5-15 oed ar ddechrau'r blynyddoedd). Mae hyn wedi cynyddu o'r £450 fesul disgybl sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a ddyrannwyd pan gyflwynwyd y Grant Datblygu Disgyblion yn 2012-13.
- Mae'r Grant hefyd yn darparu arian i gonsortia rhanbarthol i'w wario ar blant sy'n derbyn gofal a phlant mabwysiedig, eto ar sail £1,150 fesul plentyn cofrestredig sy'n derbyn gofal ym mhob rhanbarth.
- Yn 2015-16, estynnwyd y Grant i'r Blynyddoedd Cynnar (3-5 oed: hyd at a chan gynnwys y flwyddyn Dderbyn) ar sail £300 fesul plentyn cymwys. Cynyddodd hyn yn 2017-18 i £600 ac eto yn 2018-19 i £700.
- Yn 2017-18, estynnodd Llywodraeth Cymru y Grant Datblygu Disgyblion i gynnwys plant sy'n Derbyn addysg heblaw yn yr ysgol - y rhai rhwng 5-15

⁵ Ym mis Ebrill 2017, newidiodd Ysgrifennydd y Cabinet enw'r grant o Grant Amddifadedd Disgyblion i Grant Datblygu Disgyblion, ond cadarnhaodd y byddai'n cadw'r un pwyslais ar ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig (yn ei hateb i [WAQ73368](#) ym mis Ebrill 2017 ac yng nghyfarfod y [Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar 14 Mehefin 2017](#)).

oed (£1,150 fesul disgybl) a'r rhai yn y Blynyddoedd Cynnar (£600 yn 2017-18, a gynyddwyd i £700 yn 2018-19).

19. Mae'r gyllideb flynyddol o £94 miliwn ar gyfer y Grant Datblygu Disgyblion⁶ yn cynnwys y canlynol:

- Telir oddeutu £77 miliwn mewn perthynas â disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim ym Mlynnyddoedd 1 i 11.
- Telir oddeutu £9.5 miliwn ar gyfer Grant Datblygu Disgyblion y Blynyddoedd Cynnar mewn perthynas â phlant 3 i 5 oed (hyd at y dosbarth Derbyn) a amcangyfrifir fel plant sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim os oeddent o oedran ysgol gorfodol.
- Telir oddeutu £4.6 miliwn i'r consortia rhanbarthol i'w ddosbarthu er mwyn ei ddefnyddio ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal a phlant mabwysiedig yn eu rhanbarth, yn seiliedig ar oddeutu 3,900 o blant o oedran ysgol gorfodol sydd wedi'u cofrestru fel rhai sy'n derbyn gofal.⁷

Gwerthusiad Ipsos MORI a WISERD

20. Comisiynodd Llywodraeth Cymru ddau werthusiad o'r Grant Datblygu Disgyblion. Mae Ipsos MORI a WISERD wedi cynnal gwerthusiad o broses ac effaith y Grant Datblygu Disgyblion oedran ysgol mewn tri cham blynyddol, ac mae'r Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil i Addysg (SCYA) yn gwerthuso sut y mae'r Grant Datblygu Disgyblion y Blynyddoedd Cynnar yn cael ei ddehongli a'i roi ar waith yn ymarferol.

21. Cyhoeddwyd adroddiadau Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 o werthusiad Ipsos MORI a WISERD ym mis Hydref 2014 a mis Rhagfyr 2015 yn y drefn honno. Cyhoeddwyd yr adroddiad gwerthuso terfynol gan Ipsos MORI a WISERD gan Lywodraeth Cymru ar 13 Rhagfyr 2017. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, roedd adroddiad SCYA yn aros i gael ei gyhoeddi.

22. Roedd gwerthusiad Ipsos MORI a WISERD, a thystiolaeth WISERD i'r ymchwiliad hwn, yn cynnwys y wybodaeth a ganlyn:

⁶ Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, Kirsty Williams AC, papur Llywodraeth Cymru i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar Gyllideb Ddrafft 2018-19 - Prif Grŵp Gwariant (MEG) Addysg, Tachwedd 2017

⁷ Gwefan Llywodraeth Cymru, Y Grant Datblygu Disgyblion a'r Grant Datblygu Disgyblion Blynyddoedd Cynnar

- Gwelwyd gwelliant mewn cyrhaeddiad disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r rhai nad ydynt yn gymwys yn ystod y cyfnod y gwerthuswyd data cyrhaeddiad mewn perthynas ag effaith y Grant Datblygu Disgyblion (hyd at haf 2015).⁸
- Caeodd y bwlch cyrhaeddiad rhywfaint rhwng disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a disgyblion nad ydynt yn gymwys yn ystod y cyfnod gwerthuso ond roedd y bwlch eisoes yn cau cyn cyflwyno'r Grant Datblygu Disgyblion, felly mae'n anodd canfod faint o hyn y gellir ei briodoli'n uniongyrchol i'r Grant Datblygu Disgyblion. Roedd y dystiolaeth yn awgrymu bod angen dadansoddiad tymor hwy.
- Mae ysgolion yn ystyried bod cyllid Grant Datblygu Disgyblion yn amhrisiadwy. Caiff ei ddefnyddio'n bennaf ar gyfer staff ychwanegol - yn bennaf ar gyfer cynorthwyrwyr addysgu yn hytrach nag athrawon oherwydd diffyg sicrwydd hirdymor y cyllid.
- At ei gilydd, mae ysgolion yn defnyddio'r Grant Datblygu Disgyblion yn effeithiol, ar gyfer ymyriadau llythrennedd a rhifedd yn gyffredinol, ond hefyd ar gyfer ymgysylltu â disgyblion. Fodd bynnag, nid yw ysgolion yn gwneud defnydd digonol o arbenigedd academiaidd allanol, yn enwedig Pecyn Cymorth Ymddiriedolaeth Sutton.⁹
- Mae ysgolion yn cymylu cymhwysra i gael prydau ysgol am ddim a dehongliad ehangach o anfantais, gan dargedu'r Grant Datblygu Disgyblion at ddisgyblion y tu hwnt i'r buddiolwyr bwriadedig (disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim). Gallai hyn gyfyngu i ba raddau y gellir priodoli manteision pendant o ran canlyniadau disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim i'r Grant Datblygu Disgyblion.
- Mae ysgolion hefyd yn cymylu anfantais gyda chyrhaeddiad isel, gan awgrymu y gallent fod yn defnyddio'r Grant Datblygu Disgyblion i fynd i'r afael â chyrhaeddiad isel yn gyffredinol yn hytrach nag ymhlith disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Ceir amwysedd ac anghysondeb ynghylch p'un a ddylid defnyddio'r Grant Datblygu Disgyblion ar gyfer pob disgybl sy'n gymwys i gael prydau ysgol am

⁸ I gael dadansoddiad o flynyddoedd mwy diweddar, gweler cyhoeddiad y Gwasanaeth Ymchwil, *Data Cyflawniad Cyfnod Allweddol 4* (Chwefror 2018)

⁹ *Mae Pecyn Cymorth Addysgu a Dysgu Ymddiriedolaeth Sutton* yn grynodedb o ymchwil addysgol sy'n rhoi arweiniad i athrawon ac ysgolion ar sut i ddefnyddio eu hadnoddau i wella cyrhaeddiad disgyblion dan anfantais.

ddim (gan gynnwys disgyblion mwy abl a thalentog sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim) neu dim ond ar gyfer disgyblion sydd â chyrhaeddiad isel sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim.

23. Nid oedd defnydd y Grant Datblygu Disgyblion a'i effaith ar Blant sy'n Derbyn Gofal a phlant wedi'u mabwysiadu yn rhan o'r cylch gwaith a bennwyd ar gyfer gwerthusiad Ipsos MORI a WISERD. Ym mis Tachwedd 2017, comisiynodd Llywodraeth Cymru ICF Consulting i werthuso'r Grant Datblygu Disgyblion i Blant sy'n Derbyn Gofal. Disgwylir i hyn gael ei gyhoeddi cyn toriad haf 2018 y Cynulliad.

2. 2. Gwellu canlyniadau disgyblion mewn ysgolion sy'n tanberfformio: Her Ysgolion Cymru

24. Cyhoeddwyd Her Ysgolion Cymru am y tro cyntaf ym mis Chwefror 2014 fel rhaglen dwy flynedd (blynyddoedd ariannol 2014-15 a 2015-16) i dargedu cyllid a chymorth mewn ysgolion penodol. Dywedodd Llywodraeth Cymru fod y rhaglen wedi'i thargedu at yr ysgolion sy'n wynebu'r her fwyaf o ran amgylchiadau a chyfnod datblygu.¹⁰ Amlinellwyd y meini prawf a ddefnyddir i ddewis yr ysgolion gan Huw Lewis AC, y Gweinidog blaenorol dros Addysg a Sgiliau.¹¹ Cafodd 39 o ysgolion, sef yr ysgolion "Llwybrau Llwyddiant", gyllid ychwanegol gan y rhaglen ar gyfer datblygu a gwellu.¹²

25. Roedd pedair prif thema i Her Ysgolion Cymru: Arweinyddiaeth; Dysgu ac Addysgu; y Disgybl; a'r Ysgol a'r Gymuned. Nododd canllawiau Llywodraeth Cymru ar y pryd y byddai ysgolion Llwybrau Llwyddiant yn cael pedair hawl graidd:

- Templed "ysgol ar dudalen" a oedd yn rhoi cipolwg o ble mae eu hyssgol wedi cyrraedd ar ei thaith wella a beth oedd ei chryfderau a meysydd i wella arnynt.
- Cynghorydd ymroddgar, profiadol i gynorthwyo'r ysgol a'i herio ynghylch sut y gall wella, ac i helpu i gael gafael ar gymorth.

¹⁰ Llywodraeth Cymru, Cyllideb Ddrafft 2016-17: *Asesiad Effaith Integredig Strategol*, Rhagfyr 2015

¹¹ Y Gweinidog Addysg a Sgiliau, Huw Lewis AC, *Ateb i WAQ66974*, Mai 2014

¹² O blith y 40 o ysgolion a ddewiswyd yn wreiddiol, cafodd dwy ohonynt (Ysgol Llantarnam ac Ysgol Uwchradd Fairwater) eu huno a'i galw'n Ysgol Uwchradd Cwmbrân, gan olygu bod 39 o ysgolion yn y rhaglen mewn gwirionedd. Daeth dwy arall o'r rhain (Coleg Cymunedol Llanfihangel ac Ysgol Uwchradd Glyn Derw yng Nghaerdydd) yn ysgolion ffederal yn ystod y rhaglen ac fe'i cyfunwyd wedyn i greu Ysgol Uwchradd Gymunedol Caerdydd ym mis Medi 2017.

- Cynllun Datblygu Ysgol Sengl, yn dangos sut y tynnwyd ymdrechion gwella'r ysgol at ei gilydd, gan gynnwys hawl i dynnu ar adnodd ychwanegol, yn ôl yr angen.
- Bwrdd Gwella Carlam i gefnogi arweinwyr yr ysgol ar eu taith tuag at welliant.

26. Yn wreiddiol, deilliodd y rhaglen o swm canlyniadol Barnett o ganlyniad i benderfyniad Llywodraeth y DU yn Hydref 2013 i gyflwyno prydau bwyd am ddim i'r holl ddisgybl mewn adrannau babanod yn Lloegr. Penderfynodd Llywodraeth Cymru ddefnyddio'r £12.1 miliwn ychwanegol i "barhau i godi safonau addysg" a defnyddiodd hyn fel cyfraniad tuag at gost Her Ysgolion Cymru.¹³

27. Parhaodd Her Ysgolion Cymru am dair blwyddyn ariannol (2014-15, 2015-16 a 2016-17) a thair blwyddyn academiaidd (2014/15, 2015/16 a 2016/17). Yn ystod hydref 2016, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y byddai'r rhaglen yn dod i ben ar ôl 2016/17, gan ddweud mai'r bwriad o'r cychwyn oedd iddi yn "gyfyngedig o ran amser".¹⁴

28. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg wrth y Pwyllgor yn ystod gwaith craffu ar y gyllideb ddrafft ym mis Tachwedd 2016 fod y gyllideb flynyddol o £15 miliwn ar gyfer y rhaglen wedi'i dychwelyd i gronfeydd wrth gefn canolog Llywodraeth Cymru ac nad oedd ar gael at ddefnydd amgen yn y gyllideb addysg.¹⁵

Gwerthusiad SQW Consulting

29. Comisiynodd Llywodraeth Cymru SQW Consulting i werthuso rhaglen Her Ysgolion Cymru. Gwnaethpwyd hyn mewn dau gam. Cyhoeddwyd yr adroddiad gwerthuso cyntaf ym mis Gorffennaf 2016, a oedd yn canolbwyntio ar broses a gweithredu. Dilynwyd hyn gan adroddiad gwerthuso terfynol ym mis Gorffennaf 2017 yn edrych ar allbynnau a chanlyniadau.

¹³ Llywodraeth Cymru, Datganiadau'r Cabinet: Y Gweinidog Cyllid, Jane Hutt, *Dyraniadau sy'n deillio o Ddatganiad yr Hydref 2013*, 27 Ionawr 2014; y Gweinidog Addysg a Sgiliau, Huw Lewis, *Her Ysgolion Cymru*, 10 Chwefror 2014.

¹⁴ Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, Kirsty Williams AC, *papur Llywodraeth Cymru i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar Gyllideb Ddrafft 2018-19 - Prif Grŵp Gwariant (MEG) Addysg*, Tachwedd 2017

¹⁵ Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, *Llythyr at y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg*, 30 Tachwedd 2016

30. Daeth SQW i'r casgliad a ganlyn:

“Nid yw'r ddwy flynedd y bu'r HYC ar waith yn ddigon hir i asesu'n llawn ei heffaith ar 'ganlyniadau caled' (cyrhaeddiad a chynnydd) ar gyfer disgyblion mewn ysgolion Llwybrau Llwyddiant (...)

Yn gryno, rhoddodd y gwerthusiad fewnwelediad cyfoethog i gymhlethdod gwella ysgol, dangosodd werth diagnosis gofalus o drywydd ysgolion unigol, ac amlygodd bwysigrwydd cefnogaeth wedi'i theilwra a gynorthwyodd yn benodol i ddiwallu'r anghenion hynny. Er bod cyfweleion ysgolion yn dueddol o deimlo mai cyllido HYC oedd y prif ffactor mewn galluogi gwelliannau, defnydd deallus ac wedi'i dargedu o'r cyllid a gafodd effaith fwyaf. Roedd gan Gynghorwyr Her rolau amlwg i'w chwarae yn hyn o beth (er na chawsant eu cydnabod yn llawn bob amser).”¹⁶

31. Hefyd, cyflwynodd Dr Marian Morris o SQW y casgliadau a ganlyn mewn tystiolaeth lafar i'r Pwyllgor:

- Fod SQW wedi dod i'r casgliad bod pob un o'r ysgolion Llwybrau Llwyddiant wedi gwneud cynnydd academiaidd rhwng 2013/14 a 2015/16 yn seiliedig ar y ffaith bod eu cyrhaeddiad yn well na'u rhagolygon.¹⁷
- Rhannwyd ysgolion Llwybrau Llwyddiant yn dri grŵp cyd-destunol at ddibenion y gwerthusiad.
 - Ysgolion Grŵp A, yr oedd eu perfformiad yn dirywio cyn y rhaglen, a wnaeth fwy o gynnydd na'r disgwyl o ran trothwy cynwysedig Lefel 2.¹⁸
 - Ysgolion Grŵp B, yr oedd eu perfformiad yn is na chyfartaledd Cymru ond yn gymharol sefydlog cyn y rhaglen, a lwyddodd i wella eu cyfradd trothwy cynwysedig Lefel 2 ond i raddau llai na'r disgwyl.

¹⁶ SQW Consulting, Asesu cyfraniad Her Ysgolion Cymru i ganlyniadau a gyflawnwyd gan ysgolion Llwybrau Llwyddiant, Gorffennaf 2017, paragraffau 33 a 37

¹⁷ Fodd bynnag, mae data cyrhaeddiad yn dangos bod rhai ysgolion unigol wedi gweld dirywiad mewn perfformiad yn erbyn nifer o fesurau. Gweler dogfen y Gwasanaeth Ymchwil, Data Cyrhaeddiad Cyfnod Allweddol 4 (Chwefror 2018)

¹⁸ Mae trothwy cynwysedig Lefel 2 yn gyfwerth â 5 cymhwyster TGAU neu fwy ar radd A*-C, yn cynnwys Saesneg/Cymraeg a Mathemateg, neu gymhwyster galwedigaethol cyfatebol.

- Ysgolion Grŵp C, yr oedd eu perfformiad wedi dechrau gwella cyn y rhaglen ond a oedd yn dal i fod yn is na'r cyfartaledd, a lwyddodd i wella eu perfformiad yn erbyn trothwy cynwysedig Lefel 2, a hynny ar y gyfradd ddisgwyliedig.
- Prin oedd yr effaith ar ymgysylltiad disgyblion, a ystyriwyd yn bennaf gan y tîm gwerthuso ar sail presenoldeb. Gwnaeth ysgolion lai o gynnydd nag a ragwelwyd, yn enwedig yn 2014/15. Fodd bynnag, yn 2015/16, gwnaeth ysgolion Grŵp A a Grŵp C ychydig yn fwy o gynnydd na'r rhagolygon, tra bod gan ysgolion Grŵp B lefelau presenoldeb is na'r disgwyl.
- Gwelwyd rhywfaint o ostyngiad mewn absenoldebau anawdurdodedig ac roedd ysgolion yn defnyddio peth o'r cyllid i wella presenoldeb. Roedd llawer o ysgolion yn pryderu na fyddai hyn yn gynaliadwy ar ôl i'r rhaglen a'r cyllid cysylltiedig ddod i ben.
- Ni chanfu'r gwerthusiad dystiolaeth bod ysgolion yn defnyddio'r cymorth o dan Her Ysgolion Cymru er budd dysgwyr mwy abl a thalentog.
- Nododd yr ysgolion eu hunain mai'r cyllid ychwanegol oedd y ffactor pwysicaf o ran gwneud gwelliannau. Fodd bynnag, canfu'r gwerthusiad mai Cynghorwyr Her, Her Ysgolion Cymru a Byrddau Gwella Carlam oedd y ddwy nodwedd bwysicaf. Gwelwyd bod Cynghorwyr Her yn hollbwysig o ran ysgogi gwelliannau mewn ysgolion, er bod hyn yn aml yn dibynnu ar gryfder y berthynas â'r pennaeth. Gweithiodd y Byrddau Gwella Carlam yn dda lle'r oedd yr ysgol yn derbyn yr angen i wella ac yn croesawu gwaith craffu a chymorth ychwanegol.
- Dim ond am gyfnod cymharol fyr y parhaodd Her Ysgolion Cymru. Ni soniodd Llywodraeth Cymru am werthuso trydedd flwyddyn y rhaglen. Mae angen i raglen gwella ysgolion o'r fath barhau am oddeutu bum mlynedd er mwyn cael effaith ystyrlon.
- Mae'r ffordd y mae ysgolion yn cael eu hasesu, y mesurau perfformiad a'r system atebolrwydd yn feysydd a fyddai'n elwa o ystyriaeth bellach.

3. Yr egwyddor o gyllid wedi'i dargedu a dull gwithredu Llywodraeth Cymru

Y Cefndir

32. Fel y nodir ym mhenodau rhagarweiniol yr adroddiad hwn, mae gan Lywodraeth Cymru ddull sefydledig o dargedu cyllid a chymorth ychwanegol tuag at grwpiau o ddisgyblion y mae'n credu y bydd angen ymyriadau ychwanegol arnynt i wireddu eu potensial.

33. Yn achos disgyblion difreintiedig, fel y'u mesurir gan gymhwysra i gael prydau ysgol am ddim, neu ddisgyblion dan anfantais megis Plant sy'n Derbyn Gofal neu blant mabwysiedig, y Grant Datblygu Disgyblion yw'r prif ysgogydd ariannol y mae Llywodraeth Cymru yn ei ddefnyddio ar gyfer hyn.

34. Yn achos dysgwyr sy'n Sipsiwn, Roma a Theithwyr a Lleiafrifoedd Ethnig, mae Llywodraeth Cymru wedi darparu grantiau wedi'u neilltuo yn y gorffennol ac yn fwy diweddar (ers 2015-16) targedwyd yr arian hwn drwy'r Grant Gwella Addysg sydd wedi'i neilltuo'n rhannol. Fodd bynnag, o 2018-19, mae Llywodraeth Cymru wedi dileu'r cyllid ar gyfer dysgwyr sy'n Sipsiwn, Roma a Theithwyr a Lleiafrifoedd Ethnig o'r Grant Gwella Addysg, gyda disgwyliad y bydd hyn yn cael ei brif ffrydio a'i ariannu o ddyraniadau Grant Cynnal Refeniw awdurdodau lleol. Mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi cyhoeddi arian pontio ar gyfer awdurdodau lleol yn 2018-19 ac wedi nodi mai ei bwriad yw i'r arian hwn fod ar gael yn 2019-20 hefyd, tra bod y broses o drosglwyddo i ddull gweithredu prif ffrwd yn mynd rhagddi.¹⁹

35. Enghraifft arall o grant wedi'i dargedu sydd wedi dod i ben yw'r Grant Gwisg Ysgol, a oedd cyn 2018-19 yn darparu cyllid i deuluoedd disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim ym Mlwyddyn 7, sef y flwyddyn fynediad arferol i'r ysgol uwchradd. Daeth Llywodraeth Cymru â'r grant £700,000 i ben er mwyn sicrhau bod arian ar gael ar gyfer cyllidebau ysgolion yn y Grant Cynnal Refeniw. Fodd bynnag, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ar ôl hynny y byddai'n cyflwyno cynllun gwell o fis Medi 2018, sef "y Grant Datblygu Disgyblion – Mynediad", a fydd "yn fwy hyblyg a pherthnasol i anghenion dysgwyr difreintiedig na'r grant gwisg ysgol blaenorol".²⁰

¹⁹ Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, Llythyr at y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 25 Mai 2018

²⁰ Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, Llythyr at y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 11 Mai 2018 a Datganiad Ysgrifenedig, Grant Datblygu Disgyblion – Mynediad, 7 Mehefin 2018

Tystiolaeth rhanddeiliaid

36. Cafwyd cefnogaeth gyffredinol ymhlith rhanddeiliaid i'r egwyddor o gyllid wedi'i dargedu fel y Grant Datblygu Disgyblion. Gwelwyd bod y Grant Datblygu Disgyblion wedi ychwanegu gwerth, gan adleisio canfyddiadau Ipsos MORI a WISERD bod ysgolion yn ei ystyried yn "amhrisiadwy".

37. Roedd pob grŵp o athrawon, penaethiaid a llywodraethwyr a gasglwyd ynghyd gan dîm Allgymorth y Cynulliad i roi tystiolaeth i lywio gwaith y Pwyllgor yn cytuno'n gryf â'r egwyddor o gyllid wedi'i dargedu a'i fod yn llwyddo i gyflawni canlyniadau gwell.

38. Roedd consensws bod y Grant Datblygu Disgyblion wedi codi proffil yr agenda amddifadedd/cyrhaeddiad. Fel y dywedodd Estyn, "at ei gilydd, mae ysgolion ledled Cymru yn rhoi ffocws cryfach erbyn hyn ar leihau effaith tlodi nag ar ddechrau'r cylch arolygu",²¹ gan atgyfnerthu canfyddiadau Ipsos MORI a WISERD.

39. Dywedodd undebau'r penaethiaid y byddai'n well ganddynt weld cyllid ysgolion yn cael ei ddadneilltuo cyn belled ag y bo modd, er eu bod yn cydnabod pwysigrwydd grantiau penodol at ddiben penodol, yn enwedig ar adeg pan fydd pwysau ar gyllidebau craidd.

40. Pan ofynnwyd a ddylid darparu'r cyllid ar gyfer y Grant Datblygu Disgyblion yn lle cyllidebau craidd ysgolion, dywedodd Rob Williams, Cyfarwyddwr Polisi Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon (NAHT) Cymru:

"I think in an ideal world we'd probably say 'yes'. I think the caution around that is our fear at the moment in terms of pressure on the core budget. One of the concerns we have with additional grants, like the PDG for example, is the potential dilution of their impact, because of the pressures back in the core budget."²²

41. Tynnodd Elaine Edwards, Ysgrifennydd Cyffredinol UCAC, sylw at y cyfyng-gyngor, sef pe bai cyllid wedi'i dargedu yn cael ei ddadneilltuo, yna ni fyddai sicrwydd y byddai'n cael ei wario yn y ffordd a fwriadwyd:

"O ran cynnwys yr elfen yna o fewn cyllid yn fwy cyffredinol, y broblem sydd gyda ni yw ein bod ni'n gweld y cyllid yn gyffredinol yn lleihau ac yn lleihau, a'r gofid fyddai pe baech chi'n cynnwys hynny o fewn y grant

²¹ Tystiolaeth ysgrifenedig, [TF 11 – Estyn](#)

²² Tystiolaeth lafar, Cofnod y Trafodion [paragraff 276], [8 Mawrth 2018](#)

gwella ysgolion, ni fyddem wedyn yn gwybod faint o arian a oedd i fod yna o ran amddifadedd.”²³

42. Dadleuodd Adoption UK fod targedu cyllid addysg yn ffordd effeithiol o sicrhau bod dysgwyr sy’n agored i niwed yn cael eu cefnogi’n well yn yr ysgol.²⁴

Safbwynt Ysgrifennydd y Cabinet

43. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg wrth y Pwyllgor

“One of the most important things that PDG has done is highlight the importance of this agenda within schools, and really raise this up in the thinking of leadership and senior management teams in our schools, and has driven a focus on scrutiny and accountability in the systems that are working with our schools.”²⁵

44. Mae wedi dadlau’r achos dros dargedu cyllid tuag at ddisgyblion difreintiedig drwy’r Grant Datblygu:

“Tra byddaf i’n Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, yna bydd y grant datblygu disgyblion yn bodoli, ac fe wnaif i fy ngorau i sicrhau, lle ceir cyfleoedd i gynyddu gwerth hynny, fel y gwnaethom y llynedd, ac, fel yr ydym wedi gwneud y flwyddyn hon, y byddwn yn gwneud yr union beth hynny. Nid wyf yn ymddiheuro am fod eisiau buddsoddi’r arian hwn yn addysg ein plant tlotaf. (...)

O wrando ar ysgolion, o wrando ar y gwerthusiad ac o wrando ar Estyn, rwyf i’n creu mai hwn yw’r llwybr cywir, hwn yw’r pwyslais cywir, a thra byddaf i yn y swydd hon, bydd yn parhau i fod felly.”²⁶

Barn ac argymhellion y Pwyllgor

3. 1. Sicrhau gwerth am arian a gwella canlyniadau disgyblion

45. Mae’r Pwyllgor yn cefnogi’r egwyddor o dargedu cyllid i wella canlyniadau addysgol grwpiau penodol o ddisgyblion neu ysgolion penodol. Felly mae’r Pwyllgor yn cefnogi’r egwyddor y tu ôl i’r Grant Datblygu Disgyblion fel ffordd o

²³ Tystiolaeth lafar, Cofnod y Trafodion [paragraff 365], 8 Mawrth 2018

²⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig, TF.01 – Adoption UK

Tystiolaeth lafar, Cofnod y Trafodion [paragraff 39], 22 Mawrth 2018

²⁶ Y Cyfarfod Llawn, 17 Ebrill 2018

helpu i gyflawni'r amcan o gau'r bwlch rhwng disgyblion dan anfantais a difreintiedig a'u cyfoedion.

46. Fodd bynnag, mae'r buddsoddiad yn y Grant Datblygu Disgyblion yn sylweddol ac mae wedi cynyddu yn ystod oes y polisi o £32 miliwn yn 2012-13²⁷ i'w lefel bresennol o £94 miliwn. Felly mae angen sicrhau gwerth am arian a bod y gwariant yn gwella canlyniadau i ddisgyblion. Mae cyllideb flynyddol y Grant Datblygu Disgyblion o £94 miliwn yn 2018-19 yn ffurfio 6 y cant o gyllideb Addysg Llywodraeth Cymru ac mae cost sylweddol o ran cyfle yn gysylltiedig â'r polisi, h.y. gellid defnyddio'r adnoddau sydd eu hangen i'w ariannu at lawer o ddibenion eraill.²⁸

47. Er bod y bwlch cyrhaeddiad rhwng disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'u cyfoedion wedi lleihau cyn 2017, fel yr adroddwyd yng ngwerthusiad ar y cyd Ipsos MORI a WISERD, roedd y duedd hon eisoes wedi dechrau cyn cyflwyno'r Grant Datblygu Disgyblion ac mae'n anodd darganfod i ba raddau y gellir ei phriodoli'n uniongyrchol i'r arian grant.

48. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn nodi bod ysgolion yn gyffredinol yn ystyried bod y Grant Datblygu Disgyblion yn "amhrisiadwy" ac yn fodlon, yn sgil y dystiolaeth a gafwyd, bod y Grant Datblygu Disgyblion wedi cael effaith gadarnhaol ac wedi cyfrannu at gau'r bwlch cyrhaeddiad. Serch hynny, mae'r Pwyllgor yn credu bod angen gwneud mwy i ddangos gwerth am arian, yn enwedig o ystyried bod y polisi'n defnyddio swm sylweddol o adnoddau. Mae hyn yn arbennig o berthnasol o gofio'r ffaith bod y bwlch cyrhaeddiad wedi ehangu rhwng disgyblion sy'n gymwys a'r rheini nad ydynt yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn 2017 ar ôl blynyddoedd o gynnydd parhaus.

Argymhelliad 1. Dylai Llywodraeth Cymru asesu'n rheolaidd faint o fuddsoddiad sydd ei angen ar gyfer y Grant Datblygu Disgyblion o ran gwerth am arian a chost cyfle. Yn benodol, dylai Llywodraeth Cymru fonitro'n agos ac ar sail barhaus effaith y Grant Datblygu Disgyblion ar y disgyblion y mae'r grant yn eu targedu.

²⁷ Y Gweinidog Addysg a Sgiliau, Leighton Andrews, [papur Llywodraeth Cymru i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cynigion Cyllideb Ddrafft ar gyfer 2013-14 Atodiad 1](#), Hydref 2012

²⁸ Fel cyfran o gyllid Refeniw y Terfyn Gwariant Adranol (DEL) o fewn y Prif Grŵp Gwariant (MEG) Addysg. Sylwch fod arian craidd ar gyfer cyllidebau ysgolion yn cael ei ddyrannu drwy'r MEG Llywodraeth Leol.

3. 2. Cydlyniad dull Llywodraeth Cymru o dargedu cyllid

49. Mae'r Pwyllgor o'r farn bod anghysondebau yn null Llywodraeth Cymru o dargedu cyllid i wella canlyniadau addysgol. Mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg wedi amddiffyn yn gadarn yr angen am gyllid penodol wedi'i neilltuo a'i dargedu ar gyfer disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a phlant sy'n derbyn gofal neu blant mabwysiedig ar ffurf y Grant Datblygu Disgyblion.

50. Fodd bynnag, ar yr un pryd, mae Llywodraeth Cymru wedi dileu cyllid o'r Grant Gwella Addysg ar gyfer dysgwyr sy'n Sipsiwn, Roma a Theithwyr a dysgwyr o Leiafrifoedd Ethnig. O ganlyniad, mae Llywodraeth Cymru yn dod â chyllid sydd wedi'i neilltuo'n rhannol i ben ar gyfer y grwpiau hyn o ddysgwyr gyda'r disgwyliad y bydd cymorth o'r fath yn cael ei brif ffrydio ac yn cael ei ariannu yn lle hynny drwy Grant Cynnal Refeniw Llywodraeth leol. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod Ysgrifennydd y Cabinet wedi sicrhau bod cyllid ar gael tra bod y broses o drosglwyddo i ddull gweithredu prif ffrwd yn mynd rhagddi. Mae Llywodraeth Cymru hefyd wedi dod â'r Grant Gwisg Ysgol i ben cyn penderfynu cyflwyno Grant Datblygu Disgyblion Mynediad yn ei le.

51. Mae'r Pwyllgor yn nodi bod dull gweithredu o "ail-flaenoriaethu" cyllid Llywodraeth leol wedi'i fabwysiadu ar draws y Llywodraeth gyfan o 2018-19 ymlaen, sydd wedi arwain at ddirwyn rhai grantiau penodol i ben. Mae'r rhain naill ai wedi'u trosglwyddo i'r Grant Cynnal Refeniw neu, yn achos y grantiau addysg uchod, mae'r arian wedi'i ddileu heb unrhyw symudiad amlwg, cymesur i'r Grant Cynnal Refeniw. Mae'r Pwyllgor yn gwerthfawrogi nad oes gan Ysgrifennydd y Cabinet fwy na thebyg fawr o ddewis ond gweithredu o fewn y dull hwn. Dylai Llywodraeth Cymru yn ei chyfanrwydd, gan gynnwys Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid, ystyried cydlyniad a chysondeb ei dull o dargedu cyllid i wella canlyniadau addysgol, o ystyried ei bod wedi dod â rhai grantiau penodol i ben ond wedi cadarnhau pwysigrwydd y Grant Datblygu Disgyblion.

Argymhelliad 2. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod ei dull o dargedu cyllid i wella canlyniadau addysgol yn gydlynol, gan fynd i'r afael ag unrhyw anghysonderau rhwng yr egwyddor sy'n sail i'r Grant Datblygu Disgyblion a dirwyn grantiau addysg eraill wedi'u targedu i ben. Wrth wneud hyn, dylai Llywodraeth Cymru ddangos y rhesymau am unrhyw wahaniaethau yn ei dull gweithredu.

4. Targedu Grant Datblygu Disgyblion ar gyfer y rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim

4.1. Cymylu rhwng anfantais a chyrhaeddiad isel?

Y Cefndir

52. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau ym mis Mawrth 2015 ar sut y dylai'r dyraniadau Grant Datblygu Disgyblion gael eu targedu a'u defnyddio. Noda hwn:

“Er bod yn rhaid defnyddio'r Grant Amddifadedd Disgyblion i gefnogi dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a dysgwyr sy'n derbyn gofal, nid oes rhaid i'r grant ddilyn y dysgwyr hynny. Dim ond dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a dysgwyr sy'n derbyn gofal a all gael cymorth a ariennir gan y Grant Amddifadedd Disgyblion o raglenni unigoledig megis Dal i Fyny, ond gellir defnyddio'r grant hefyd ar gyfer strategaethau ysgol gyfan y mae dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a dysgwyr sy'n derbyn gofal yn elwa'n anghymesur ohonynt.”²⁹

53. Nid yw canllawiau 2015 Llywodraeth Cymru yn datgan yn glir y dylai'r Grant Datblygu Disgyblion gael ei dargedu at ddisgyblion mwy abl a thalentog sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn fwy nag unrhyw ddisgybl arall sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Fodd bynnag, yn ystod ymchwiliad y Pwyllgor, mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi cymryd y cyfle yn ei llythyr blynyddol i ysgolion (Mawrth 2018), sy'n cyd-fynd â chyhoeddi dyraniadau i ysgolion unigol, i bwysleisio y dylent fod yn targedu'r Grant Datblygu Disgyblion tuag at bob dysgwr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, gan gynnwys y rhai mwy abl a thalentog.

Tystiolaeth rhanddeiliaid

54. Yn ystod ymweliad y Pwyllgor ag Ysgol Uwchradd y Dwyrain yng Nghaerdydd, roedd yr ysgol yn cefnogi dull pragmataidd o dargedu'r Grant Datblygu Disgyblion. Mae wedi sicrhau bod rhai o'i gweithgareddau a ariennir gan

²⁹ Llywodraeth Cymru, Grant Amddifadedd Disgyblion Canllawiau hanfodol, Mawrth 2015, tudalen 4

y Grant Datblygu Disgyblion, er enghraifft, lles ac ymgysylltu (gan gynnwys gyda rhieni), ar gael i'r garfan gyfan o ddisgyblion gan ei bod yn dweud na fyddai'n gwneud synnwyr gwahardd disgyblion nad ydynt yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim o ymyriadau buddiol os nad yw hyn yn ychwanegu at gostau ac os yw'n effeithlon i wneud hynny. Eglurodd staff fod hyn yn arbennig o wir yn Ysgol Uwchradd y Dwyrain, sydd â chyfran uchel o ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim – 45 y cant – sy'n golygu eu bod yn rhan fawr o'r garfan. Dywedodd Ysgol Uwchradd y Dwyrain ei bod yn cyfuno dyraniadau Grant Datblygu Disgyblion gyda chyllidebau craidd er mwyn sicrhau defnydd priodol o'r Grant Datblygu Disgyblion ac yn croesawu'n fawr iawn yr hyblygrwydd o ran y modd y targedir y Grant Datblygu Disgyblion.

55. Fodd bynnag, un o'r themâu sy'n deillio o werthusiad Ipsos MORI a WISERD o'r Grant Datblygu Disgyblion, ac yn arbennig yn nhystiolaeth yr Athro Chris Taylor i'r Pwyllgor oedd nad yw'r Grant Datblygu Disgyblion wedi'i dargedu'n ddigonol tuag at ddisgyblion mwy abl a thalentog sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Roedd yna hefyd sylw cyffredinol gan randdeiliaid bod ysgolion yn targedu'r Grant Datblygu Disgyblion yn bennaf, ac mewn rhai achosion yn gyfan gwbl, tuag at ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a chanddynt gyrhaeddiad isel.

56. Cyfeiriodd yr Athro Chris Taylor o WISERD at gymylu'r ymyrraeth wedi'i thargedu at liniaru anfantais gyda'r cyllid a'r grantiau gwella ysgol a'r blaenoriaethau ehangach gan egluro:

“Schools were using their money to raise low attainment, not necessarily raising the attainment of all children who are from disadvantaged backgrounds, which is kind of a fundamental misunderstanding of the conceptual basis of the policy. (...)

The point of the policy was to mitigate the structural inequalities that some of these children experienced living in poverty. It doesn't matter what their levels of attainment are; they can be high-achieving pupils. (...) They also ought to receive the benefit, because the argument is that they should be doing better than where they are now. And I think schools have not really grasped that, partly again because there are other priorities in the school, particularly for many schools about raising levels of attainment.”³⁰

³⁰ Tystiolaeth lafar, Cofnod y Trafodion [paragraffau 125 a 136], 28 Chwefror

57. Nododd Estyn mai ychydig iawn o ysgolion sydd wedi defnyddio'r Grant Datblygu Disgyblion i gefnogi disgyblion difreintiedig mwy abl ac mai anaml iawn y mae hyn yn agwedd ganolog ar gynlluniau Grant Datblygu Disgyblion ysgolion³¹. Dywedodd Prif Arolygydd Addysg a Hyfforddiant EM yng Nghymru, Meilyr Rowlands, wrth y Pwyllgor:

“Felly, os oes yna garfan o ddisgyblion sydd yn colli mas ar hyn, y plant mwy galluog sydd yn derbyn prydau bwyd am ddim yw'r rheini. Mae yna nifer o resymau am hyn, rwy'n meddwl. Un ohonyn nhw ydy bod yna dal rhywfaint o deimlad taw plant llai galluog ddylai fod yn cael y grant yma, plant sy'n tangyflawni. Nid yw'r ysgolion ddim bob tro yn adnabod tangyflawniad y plant mwy galluog. Maen nhw'n ymddangos fel eu bod nhw'n gwneud yn o lew, ond petaen nhw'n cael mwy o gymorth, bydden nhw'n gwneud hyd yn oed yn well.”³²

Safbwynt Ysgrifennydd y Cabinet

58. Roedd Ysgrifennydd y Cabinet yn ansicr mewn tystiolaeth lafar a ddylai'r Grant Datblygu Disgyblion gael ei dargedu tuag at bob disgybl sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, gan gynnwys y rhai mwy abl a thalentog.

“I'm absolutely clear that PDG needs to be used for those children who are eligible to drive potential, whatever the potential of that child is, including more able and talented. (...)

So, yes, I'm absolutely clear that PDG shouldn't just be seen to be getting individuals to the average. For those children who are more able and talented, it should be used to support them.”³³

59. Yn ei llythyr i ysgolion ochr yn ochr â chyhoeddi eu dyraniadau Grant Datblygu Disgyblion ar gyfer 2018-19, ysgrifennodd Kirsty Williams AC:

“Mae tystiolaeth yn dweud wrthym fod rhaid i ni wneud mwy yng Nghymru i nodi, cefnogi ac ymestyn ein dysgwyr mwy galluog. Yr wyf am fod yn glir bod y GDD yn cefnogi pob dysgwr cymwys gan gynnwys ein dysgwyr mwyaf galluog.”³⁴

³¹ Tystiolaeth ysgrifenedig, TF 11 – Estyn

³² Tystiolaeth lafar, Cofnod y Trafodion [paragraff 15], 14 Mawrth 2018

³³ Tystiolaeth lafar, Cofnod y Trafodion [paragraffau 7-9], 22 Mawrth 2018

³⁴ Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, Llythyr at ysgolion ynghylch dyraniadau'r Grant Datblygu Disgyblion ar gyfer 2018-19, Mawrth 2018

60. Yn dilyn hynny, yn ei Datganiad yn y Cyfarfod Llawn ar 17 Ebrill 2018, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet:

“Cyflwynwyd tystiolaeth i'r Pwyllgor yn awgrymu nad yw'r grant datblygu disgyblion bob amser yn cael ei ddefnyddio ar gyfer pob dysgwr cymwys, gan ganolbwyntio weithiau dim ond ar y rhai hynny sy'n cael trafferth academiaidd. Gadewch imi fod yn glir iawn: mae'r grant datblygu disgyblion ar gael i gefnogi pob dysgwr sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim a dysgwyr sy'n derbyn gofal, gan gynnwys y rhai sy'n fwy galluog. Nid yw'r sefyllfa hon yn newydd, ond rwyf yn awyddus i atgyfnerthu ei bwysigrwydd ac yr wyf eisiau gweld ymarferwyr yn adeiladu ar arferion da cyfredol.”³⁵

61. Fodd bynnag, nid yw Ysgrifennydd y Cabinet wedi awgrymu ei bod yn bwriadu diweddarau canllawiau 2015 ar dargedu a defnyddio'r Grant Datblygu Disgyblion i adlewyrchu'r safbwynt hwn.

Barn ac argymhellion y Pwyllgor

62. Nododd y Pwyllgor o'r dystiolaeth a gafodd ei bod yn amlwg bod rhywfaint o gymylu rhwng cymhwysra i gael prydau ysgol am ddim a dehongliad ehangach o anfantais o ran y ffordd y mae ysgolion yn targedu'r Grant Datblygu Disgyblion. Ymddengys mai'r rheswm am hyn yn rhannol yw oherwydd bod cymhwysra i gael prydau ysgol am ddim yn cael ei ystyried yn fesur bras, amherffaith, gan nad yw'n gallu rhoi darlun llawn o amddifadedd neu anfantais.

63. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod ei bod yn synhwyrol ac yn bragmataidd bod gan ysgolion rywffaint o hyblygrwydd yn y modd y maent yn dehongli anfantais o ran sut y maent yn defnyddio'r Grant Datblygu Disgyblion. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor hefyd yn bryderus y gallai hyn arwain at duedd i wanhau targedu'r cyllid at ei fuddiolwyr bwriadedig mewn rhai achosion. Gellid ei ddefnyddio hefyd fel cyfiawnhad neu fodd o ddefnyddio'r Grant Datblygu Disgyblion yn fwy cyffredinol ar gyfer disgyblion â lefelau cyrhaeddiad isel.

64. Mae'r Pwyllgor yn nodi, er bod yn rhaid i unrhyw ymyriadau personol a ariennir gan y Grant Datblygu Disgyblion gael eu targedu tuag at ddisgyblion cymwys yn unig, mae Llywodraeth Cymru yn caniatáu defnyddio'r Grant Datblygu Disgyblion ar gyfer dulliau ysgol gyfan lle mae'r rhain o fudd anghymesur i ddysgwyr cymwys. Yn aml, gall hyn wneud synnwyr da a chynrychioli'r defnydd gorau o adnoddau, gan y byddai'n aneffeithlon ac na fyddai unrhyw fudd o

³⁵ Y Cyfarfod Llawn, 17 Ebrill 2018

eithrio'n ddiangen ddysgwyr nad ydynt yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, lle nad yw hynny'n lleihau'r manteision i ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Fodd bynnag, unwaith eto mae'r Pwyllgor yn pryderu y gellid defnyddio hyn i gyfiawnhau defnyddio'r Grant Datblygu Disgyblion mewn ffyrdd nas bwriadwyd, yn enwedig mewn amgylchedd lle mae pwysau ar gyllidebau craidd ysgolion.

65. Yr achos mwyaf sylweddol o gymylu cymhwysra a'r un sy'n creu'r pryder mwyaf yw'r cymylu rhwng anfantais a chyrhaeddiad isel. Roedd y Pwyllgor yn arbennig o bryderus i glywed nad yw'r Grant Datblygu Disgyblion yn cael ei ddefnyddio'n rheolaidd i gefnogi dysgwyr mwy abl a thalentog sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, gydag ysgolion yn canolbwyntio ar ddysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim â lefelau cyrhaeddiad isel yn unig. Mae hyn yn groes i ysbryd a phwrpas penodol y Grant Datblygu Disgyblion sef cefnogi pob disgybl difreintiedig i gyrraedd ei lawn botensial, gan gynnwys, er enghraifft, lle mae hyn yn golygu troi gradd C yn radd A neu A*.

66. Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r camau y mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi eu cymryd i gyfathrebu'n gliriach gydag ysgolion y dylid defnyddio'r Grant Datblygu Disgyblion ar gyfer disgyblion mwy abl a thalentog sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim ac yn credu y dylid cryfhau canllawiau'r Grant Datblygu Disgyblion yn hyn o beth.

Argymhelliad 3. Dylai Llywodraeth Cymru gymryd pob cam i bwysleisio y dylid defnyddio'r Grant Datblygu Disgyblion i gefnogi pob dysgwr cymwys, gan gynnwys y rhai mwy abl a thalentog. Dylai hyn gynnwys diweddarau ei chanllawiau ar y Grant Datblygu Disgyblion, a gyhoeddwyd yn 2015, yn unol â hynny.

4. 2. Effaith trefniadau atebolrwydd ysgolion ar y ffordd y mae'r Grant Datblygu Disgyblion yn cael ei dargedu

Y cefndir

67. Yn ystod y blynyddoedd diwethaf, y prif fesurau perfformiad ysgol a ddefnyddiwyd gan Lywodraeth Cymru yng Nghyfnod Allweddol 4 fu'r trothwy cynwysedig Lefel 2 (5 TGAU neu ragor ar raddau A*-C gan gynnwys Mathemateg a Saesneg/Cymraeg, neu gymwysterau galwedigaethol cyfwerth) a'r Trothwy Lefel 2 (5 TGAU neu ragor ar raddau A*-C, neu gymwysterau galwedigaethol cyfwerth).

68. Derbynnir yn gyffredinol, yn cynnwys gan Lywodraeth Cymru, fod hyn wedi arwain at roi gormod o bwyslais ar radd C TGAU a dim digon o gymhelliant, o ran mesurau perfformiad, i ysgolion gefnogi disgyblion i gyrraedd y graddau uchaf.

Tystiolaeth rhanddeiliaid

69. Cafwyd rhai awgrymiadau gan randdeiliaid bod y mesurau perfformiad presennol yn cuddio sut mae ysgolion yn defnyddio'r adnoddau sydd ar gael iddynt, gan gynnwys y Grant Datblygu Disgyblion. Gall hyn gyfyngu i ba raddau y mae ysgolion yn targedu'r Grant Datblygu Disgyblion tuag at ddisgyblion mwy abl a thalentog sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Esboniodd Neil Foden o'r Undeb Addysg Genedlaethol (NEU):

"I think until relatively recently the focus had been very, very much on C and above, and I think we would have to welcome some of the steps that the Welsh Government has taken to address the perverse incentives that have been created by the school performance system. (...) However, as long as there are nationally reported performance measures, schools are still going to tailor a lot of what they do to meet the performance measures."³⁶

Safbwynt Ysgrifennydd y Cabinet

70. Yn flaenorol, mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi mynegi ei phryder bod y mesurau perfformiad presennol yn rhoi pwyslais anghymesur ar radd C mewn TGAU ac nid ydynt yn cymell ysgolion yn ddigonol i gefnogi dysgwyr i gyflawni'r graddau uchaf.

71. Ar 17 Mai 2018, cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet fesurau perfformiad "interim" newydd a fydd yn dod i rym yn y flwyddyn academaidd 2018/19.³⁷ Mae'r rhain wedi'u cynllunio i symud oddi wrth y "ffocws cul ar ddisgyblion sydd ar y ffin rhwng C a D sydd wedi datblygu o ganlyniad i'r defnydd o fesurau a throthwyon yn y gorffennol". Bydd sgôr pwyntiau "Cap 9" wedi'i diweddaru yn disodli trothwy cynwysedig Lefel 2 fel prif fesur perfformiad ysgol, a fydd yn sgorio graddau TGAU yn wahanol (bydd gradd A yn werth mwy na gradd B ac ati). Bydd Tystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru hefyd yn fesur perfformiad ynddo'i hun.

72. Mae'r mesurau diwygiedig yn rhai "interim" ac mae Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r OECD i ddatblygu Fframwaith Asesu a Gwerthuso newydd, a fydd

³⁶ Tystiolaeth lafar, Cofnod y Trafodion [paragraff 384], 8 Mawrth 2018

³⁷ Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, Kirsty Williams Ac, Datganiad ysgrifenedig, Diweddariad ar Drefniadau Mesur Perfformiad Cyfnod Allweddol 4 o 2019 ymlaen, 17 Mai 2018

yn cael ei gyhoeddi ochr yn ochr â'r adborth ar y cwricwlwm newydd ym mis Ebrill 2019 ac yn cael ei weithredu o fis Medi 2022 ymlaen.

Barn ac argymhellion y Pwyllgor

73. Mae system atebolrwydd yr ysgolion, sydd ar hyn o bryd yn rhoi pwyslais anghymesur ar raddau C yn hytrach na'r graddau uchaf y mae disgyblion yn gallu eu cyflawni o fewn eu potensial, yn debygol o fod wedi cyfrannu at ganolbwyntio ar ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a chanddynt lefelau cyrhaeddiad isel yn hytrach na chanolbwyntio hefyd ar ddisgyblion mwy abl a thalentog sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Mae'r Pwyllgor yn croesawu bwriad Ysgrifennydd y Cabinet i fynd i'r afael â'r mater hwn ac yn nodi'r mesurau perfformiad interim a roddwyd ar waith ar gyfer 2018/19. Dylai'r sgôr pwyntiau Cap 9 gynnig mwy o gymhelliad i ysgolion wella cyfran y disgyblion, gan gynnwys y rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, sy'n ennill y graddau uchaf. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn siomedig bod hyn yn rhy hwyr i ddisgyblion sy'n cwblhau eu TGAU yn Haf 2018.

Argymhelliad 4. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod mesurau perfformiad Cyfnod Allweddol 4 a threfniadau atebolrwydd ysgolion yn cymell ysgolion i gefnogi disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim i gyflawni graddau mor uchel â phosibl.

4. 3. Ymestyn y cyfnod amser o ran cymhwysra disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim i gael y Grant Datblygu Disgyblion

Y cefndir

74. Mae Llywodraeth Cymru yn dyrannu'r Grant Datblygu Disgyblion ar sail blwyddyn ariannol unigol. Cyn 2018-19, penderfynwyd ar ddyraniadau ysgolion ar sail nifer y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a gofnodwyd yn y Cyfrifiad Ysgolion Blyneddol ar Lefel Disgyblion (CYBLD) a gymerwyd ym mis Ionawr y flwyddyn galendr flaenorol (dyraniadau 2017-2018 yn ôl CYBLD Ionawr 2016 ac ati). Ar gyfer 2018-19, mae Llywodraeth Cymru wedi penderfynu seilio dyraniadau ar ddata CYBLD mis Ionawr 2016, yn hytrach na mis Ionawr 2017, a byddai hyn i'w ddisgwyl gan mai dyma'r data diweddaraf sydd ar gael.

75. Mae'r Premiwm Disgyblion yn Lloegr yn defnyddio rheol "Ever 6" sy'n golygu bod disgyblion yn cael grant os ydynt wedi bod yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim ar unrhyw adeg yn ystod y chwe blynedd flaenorol. Mae hwn wedi'i gynllunio i gofnodi disgyblion nad ydynt yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim

ar hyn o bryd ond sy'n rheoli effeithiau anfantais sy'n deillio o'u gorffennol diweddar.

Tystiolaeth rhanddeiliaid

76. Roedd llawer o randdeiliaid o'r farn bod cymhwysra i gael prydau ysgol am ddim yn fesur anfanwl ar gyfer amddifadedd ond nid oedd yn cynnig unrhyw ddewis arall hyfyw. Crynhodd y NAHT y safbwyntiau pan ddywedodd:

“NAHT looked at this quite some years ago—and free school meals was probably the least worst measure, if that’s a decent phrase to use.”³⁸

77. Fodd bynnag, roedd awydd ymhlith rhanddeiliaid yn gyffredinol i symud i fodel lle mae'r Grant Datblygu Disgyblion yn cael ei dynnu i lawr ar gyfer disgyblion sydd wedi bod yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim ar unrhyw adeg yn ystod cyfnod penodol, yn hytrach nag ar un pwynt mewn amser, yn debyg i'r model “Ever 6” yn Lloegr.

Safbwynt Ysgrifennydd y Cabinet

78. O ran cryfder cymhwysra i gael prydau ysgol am ddim fel mesur ar gyfer amddifadedd, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrth y Pwyllgor:

“I’ll be the first person to say that maybe it’s not as absolutely focused, but in the absence of anything different to identify a proxy for need, I think it’s probably the best that we’ve got at present. And we will continue to have discussions with local government about whether there are different ways.”³⁹

79. Gofynnodd y Pwyllgor i Ysgrifennydd y Cabinet p'un a oedd hi'n ystyried model tebyg i'r un Ever 6 yn Lloegr. Dywedodd y byddai ymestyn y Grant Datblygu Disgyblion i'r holl ddisgyblion a fu'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim ar unrhyw adeg yn ystod y chwe blynedd diwethaf yn costio tua £40 miliwn yn ychwanegol. Fodd bynnag, dywedodd fod Llywodraeth Cymru yn ystyried sut y gallai ysgolion gael mwy o hyblygrwydd o ran sut i dargedu'r Grant Datblygu Disgyblion.

80. Esboniwyd yr hyblygrwydd hwn ymhellach yn llythyr Ysgrifennydd y Cabinet i ysgolion (Mawrth 2018) fel cyfarwyddyd y dylid defnyddio'r Grant Datblygu Disgyblion i gefnogi disgyblion sydd wedi bod yn gymwys i gael prydau ysgol am

³⁸ Tystiolaeth lafar, Cofnod y Trafodion [paragraff 264], 8 Mawrth 2018

³⁹ Tystiolaeth lafar, Cofnod y Trafodion [paragraff 15], 22 Mawrth 2018

ddim yn unrhyw un o'r ddwy flynedd flaenorol.⁴⁰ Fodd bynnag, nid yw'n ymddangos y bydd ysgolion yn cael cynnydd yn y dyraniadau Grant Datblygu Disgyblion i ystyried y garfan fwy o ddisgyblion y disgwylir iddynt ddefnyddio'r Grant Datblygu Disgyblion i'w cefnogi. Bydd dyraniadau'r Grant Datblygu Disgyblion yn parhau i gael eu seilio ar gyfrifiadau blwyddyn o gyfanswm y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim.

81. Mater arall a gododd yn ystod yr ymchwiliad hwn, y mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi ceisio ymateb iddo ar gyfer 2018-19 a 2019-20, yw'r diffyg sicrwydd ymysg rhai ysgolion ynghylch dyraniadau'r Grant Datblygu Disgyblion yn y dyfodol. Mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau y bydd lefelau'r Grant Datblygu Disgyblion yn parhau i fod yn £1,150 fesul disgybl cymwys ym Mlynnyddoedd 1 i 11 a £700 fesul plentyn cymwys yn y Blynnyddoedd Cynnar. Bydd dyraniadau 2018-19 a 2019-20 hefyd yn cael eu pennu yn ôl lefelau Ionawr 2016 ysgolion yn hytrach na'r cyfrifiadau blynnyddol diweddaraf, sef Ionawr 2017 ac Ionawr 2018 yn y drefn honno.

82. Esboniodd Ysgrifennydd y Cabinet y rhesymau dros ddefnyddio data CYBLD 2016 yn hytrach na 2017 fel a ganlyn:

"We have used that data because it is what allows me to get the most money into the system, because, actually, because of a whole range of factors, free school meal eligibility is dropping. So, 2016 gives me more money than using 2017 data."⁴¹

Barn ac argymhellion y Pwyllgor

83. Mae tri pheth y mae'r Pwyllgor yn credu y dylai Llywodraeth Cymru eu hystyried a'u datrys o ran y cyfnod amser y mae disgyblion yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim at ddibenion cymhwystra ar gyfer y Grant Datblygu Disgyblion:

- Bwriad Llywodraeth Cymru yw y dylai disgyblion a oedd yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros y ddwy flynedd ddiwethaf allu manteisio ar y Grant Datblygu Disgyblion, ond nid ydynt yn cael eu cynnwys wrth gyfrifo dyraniad cyffredinol blynnyddol y Grant Datblygu Disgyblion ac felly ni ddarperir cyllid ar eu cyfer;

⁴⁰ Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, Llythyr at ysgolion, Mawrth 2018

⁴¹ Y Cyfarfod Llawn, 17 Ebrill 2018

- A ddylai Llywodraeth Cymru fynd gam ymhellach a mabwysiadu cyfnod amser hwy na dwy flynedd ar gyfer disgyblion a arferai fod yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim;
- Os yw Llywodraeth Cymru yn parhau i gyfrifo sut i ddyrannu'r Grant Datblygu Disgyblion i ysgolion ar sail un flynedd, pa set ddata flynyddol y dylai ei defnyddio.

84. Cynigir Argymhellion 5 i 7 i fynd i'r afael â'r materion hyn.

85. Mae'r Pwyllgor yn nodi bod Ysgrifennydd y Cabinet yn disgwyl, o 2018-19, i ysgolion ddefnyddio eu dyraniadau o'r Grant Datblygu Disgyblion ar gyfer disgyblion sydd wedi bod yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim ar unrhyw adeg yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf. Er bod y Pwyllgor yn croesawu ymdrechion Llywodraeth Cymru i fod yn fwy hyblyg wrth dargedu'r Grant Datblygu Disgyblion, mae angen sicrhau bod digon o gyllid i wneud hyn.

Argymhelliad 5. Os yw Llywodraeth Cymru am i ysgolion ddefnyddio'r Grant Datblygu Disgyblion ar gyfer disgyblion sydd wedi bod yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim ar unrhyw adeg yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, dylai ariannu dyraniadau'r Grant Datblygu Disgyblion ar y sail honno, h.y. fesul disgybl a fu'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim ar unrhyw adeg yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, yn hytrach na disgwyl i ysgolion gefnogi disgyblion ychwanegol gan ddefnyddio dyraniad grant sy'n seiliedig ar gipolwg o'r lefelau cymhwystra dros un flwyddyn.

86. Byddai Argymhelliad 5 uchod yn creu model "Ever 2" ar gyfer y Grant Datblygu Disgyblion yng Nghymru. Ar hyn o bryd, mae gan Lywodraeth Cymru fodel Ever 2 o ran pwy y caiff ysgolion eu targedu ond nid o ran sut y caiff dyraniadau'r ysgolion eu hariannu.

87. Gan symud gam ymhellach, mae'r Pwyllgor o'r farn y byddai manteision yn sgil cael model mwy hirdymor ar gyfer y Grant Datblygu Disgyblion yng Nghymru, yn seiliedig ar egwyddorion tebyg i'r model "Ever 6" yn Lloegr. O dan fodel o'r fath, byddai ysgolion yn derbyn y Grant Datblygu Disgyblion ar gyfer disgyblion os oeddent wedi bod yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim ar unrhyw adeg yn ystod nifer benodol o flynyddoedd. Byddai hyn yn gwneud mwy i dargedu'r disgyblion hynny y mae eu hamgylchiadau'n amrywio, ond sy'n parhau'n ddifreintiedig yn y bôn.

88. Cred y Pwyllgor y gallai chwe blynedd o drothwy, sef y cyfnod o amser a ddefnyddir yn Lloegr, fod yn rhy hir o bosibl ac mae'n nodi, ar y lefel bresennol o £1,150 fesul disgybl cymwys, fod Llywodraeth Cymru yn amcangyfrif y byddai

model Ever 6 yn costio tua £40 miliwn yn ychwanegol. Fodd bynnag, ar sail y dystiolaeth a gasglwyd, mae'r Pwyllgor o'r farn bod angen gwaith pellach i bennu beth fyddai'r cyfnod amser gorau a'r lefel mwyaf priodol o gyllid fesul disgybl cymwys. Er enghraifft, dylai Llywodraeth Cymru ystyried opsiynau ar gyfer model Ever 2, Ever 3, Ever 4 neu Ever 5 ar gyfer y Grant Datblygu Disgyblion yng Nghymru.


Argymhelliad 6. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried mabwysiadu cyfnod amser mwy hirdymor ar gyfer pennu cymhwysra ar gyfer y Grant Datblygu Disgyblion i'r rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim fel bod modd cefnogi disgyblion a fu'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn y gorffennol diweddar hefyd. Dylai Llywodraeth Cymru ymchwilio i drothwyon cymhwysra gwahanol, er enghraifft dwy, tair, pedair neu bum mlynedd, yn erbyn symiau gwahanol fesul plentyn er mwyn penderfynu ar y model fforddiadwy gorau posibl gan ystyried y cyfaddawdau cysylltiedig.

89. Noda'r Pwyllgor fod Llywodraeth Cymru yn pennu ei dyraniadau Grant Datblygu Disgyblion 2018-19 i ysgolion yn seiliedig ar ddata CYBLD Ionawr 2016, yn hytrach na'r dull arferol dros y blynyddoedd diwethaf, sef defnyddio'r data diweddaraf a oedd ar gael. Yn achos 2018-19, CYBLD Ionawr 2017 fyddai hyn. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod y sail resymegol a roddwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet dros wneud hynny, sef bod ffigurau Ionawr 2016 yn uwch, gan olygu bod mwy o arian yn cael ei dynnu i lawr ar gyfer y Grant Datblygu Disgyblion. Mae'r Pwyllgor yn croesawu hyn o ran sicrhau cyfanswm uwch ar gyfer y Grant Datblygu Disgyblion ond mae ganddo bryderon ynghylch sut y caiff hyn ei ddosbarthu rhwng ysgolion dros y ddwy flynedd nesaf.

90. Drwy bennu dyraniadau 2018-19 a 2019-20 ar sail data ar y rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim o CYBLD Ionawr 2016, gallai hyn greu anfantais i ysgolion sydd â nifer fwy o ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim ym mis Ionawr 2017 neu fis Ionawr 2018 nag yr oedd ganddynt ym mis Ionawr 2016. Er y gallai rhai ysgolion fod â lefelau cymharol sefydlog o ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim rhwng blynyddoedd, efallai na fydd hyn yn wir am rai ysgolion llai. Mae'r Pwyllgor o'r farn ei bod yn hanfodol nad oes unrhyw ysgol unigol ar ei cholled yn ariannol yn sgil y penderfyniad i bennu dyraniadau Grant Datblygu Disgyblion ar sail lefelau'r disgyblion a oedd yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim ym mis Ionawr 2016. Er enghraifft, os cynyddodd nifer y disgyblion a oedd yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim mewn ysgol rhwng mis Ionawr 2016 a mis Ionawr 2017, ni fyddai'r ysgol honno'n cael y lefel angenrheidiol o Grant Datblygu Disgyblion o dan drefniadau presennol Llywodraeth Cymru. Mae hyn yn rhywbeth y dylai Llywodraeth Cymru fynd i'r afael ag ef.

91. Os bydd Llywodraeth Cymru, yn hytrach na dilyn argymhelliad 5 neu 6, yn penderfynu pennu dyraniadau'r Grant Datblygu Disgyblion yn unol â CYBLD Ionawr 2016 er mwyn manteisio i'r eithaf ar swm y buddsoddiad, dylai sicrhau na fydd unrhyw ysgol unigol ar ei cholled. Lle mae cyfanswm disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim unrhyw ysgol unigol yn uwch yn ôl data CYBLD Ionawr 2017 nag ar gyfer Ionawr 2016, dylai Llywodraeth Cymru bennu dyraniad Grant Datblygu Disgyblion 2018-19 yr ysgol yn unol â'r ffigur uwch. Yn yr un modd, lle mae cyfradd mis Ionawr 2018 unrhyw ysgol yn uwch na mesur rhagosodedig mis Ionawr 2016, dylid pennu ei dyraniad Grant Datblygu Disgyblion 2019-20 ar sail y ffigur uwch.

Argymhelliad 7. Os bydd Llywodraeth Cymru yn penderfynu parhau i benderfynu lefel dyraniadau'r Grant Datblygu Disgyblion ar sail cyfrifiad y pen un flwyddyn, dylai ddyrannu'r Grant Datblygu Disgyblion ar gyfer 2018-19 a 2019-2020 i ysgolion ar sail eu cyfrifiad uchaf o ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn ôl CYBLD 2016 neu'r data diweddaraf sydd ar gael.



“

The proportion of schools that make effective use of the PDCG has remained at around two-thirds of primary and secondary schools.

Estyn

”

5. Defnydd ymarferol o'r Grant Datblygu Disgyblion ar gyfer y rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim

5.1. Effeithiolrwydd y defnydd o gronfeydd y Grant Datblygu Disgyblion

Y cefndir

92. Canfu gwerthusiad Ipsos MORI a WISERD fod ysgolion yn gyffredinol yn defnyddio'r Grant Datblygu Disgyblion yn effeithiol. Nodwyd yr enghreifftiau canlynol o "ysgolion yn datblygu dulliau arloesol i ymgysylltu gyda disgyblion a rhieni mewn ffyrdd a argymhellir yn yr arweiniad GAD":

- Strategaethau ysgol gyfan i wella dysgu ac addysgu;
- Dulliau i gynnwys rhieni ym mywyd yr ysgol ac yn addysg eu plant;
- Defnydd arloesol o dechnoleg i ymgysylltu gyda phlant a rhieni a'u hysgogi;
- Ffocysu ar bresenoldeb ac ymddygiad, ac yn benodol ar ddulliau i ymgysylltu disgyblion gyda'r ysgol ac addysgu yn fwy effeithiol ac i ddarparu cymhelliant ar gyfer presenoldeb ac ymddygiad da; a
- Chefnogi sgiliau cymdeithasol ac emosiynol dysgwyr.⁴²

Tystiolaeth rhanddeiliaid

93. Dywedodd Estyn wrth y Pwyllgor fod tua dwy ran o dair o ysgolion cynradd ac uwchradd yn gwneud defnydd effeithiol o'r Grant Datblygu Disgyblion.⁴³ Pan holwyd Prif Arolygydd Ei Mawrhydi a yw'n foddhaol nad yw un rhan o dair o ysgolion yn gwneud hynny, dywedodd:

"I think that sort of proportion broadly corresponds to the schools that don't have particularly good leadership. I think, ultimately, all of these sorts of initiatives come down to strong leadership and effective leadership—that they know how to organise and use those grants

⁴² Ipsos MORI a WISERD, *Gwerthusiad o'r Grant Amddifadedd Disgyblion – Adroddiad terfynol – Rhagfyr 2017*, paragraff 113

⁴³ Tystiolaeth ysgrifenedig, TF.11 – Estyn

effectively. One of the shortcomings that we often identify is evaluation—that money has been spent on a particular way of using the grant, but it has not been evaluated well. So, I think quite a lot of it is to do with generic leadership skills.”⁴⁴

94. Tynnodd Estyn sylw at y mathau canlynol o weithgareddau y mae ysgolion yn defnyddio'r Grant Datblygu Disgyblion ar eu cyfer yn gyffredinol:

- Systemau i olrhain cynnydd grwpiau gwahanol o ddisgyblion, gan gynnwys disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim neu Blant sy'n Derbyn Gofal;
- Gwellu presenoldeb;
- Ymgysylltu â theuluoedd a rhieni;
- Gweithio gyda grwpiau cyn-ysgol a rhieni cyn i blant ymuno â'r ysgol gynradd;
- Rhaglenni tynnu'n ôl megis rhaglenni dal-i-fyny (e.e. llythrennedd a rhifedd);
- Mentrau lles a hunan-barch;
- Talu am ymweliadau addysgol a theithiau preswyl, gan gynnwys hyfforddiant cerddorol;
- Prosiectau llythrennedd a rhifedd; a
- Datblygu staff.⁴⁵

95. Drwy waith ymgysylltu ehangach y Pwyllgor ag ysgolion a llywodraethwyr, nodwyd yr un mathau o ddefnydd â'r rhai a restrir uchod o'r gwerthusiad a chanfyddiadau Estyn. Nododd ysgolion a llywodraethwyr mai staff oedd un o'r prif dreuliau y defnyddiwyd y Grant Datblygu Disgyblion ar eu cyfer, yn ogystal â hyfforddiant i staff a chyfarpar newydd megis cyfarpar TG.⁴⁶

⁴⁴ Tystiolaeth lafar, Cofnod y Trafodion [paragraff 32], 14 Mawrth

⁴⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, **TF.11 – Estyn**

⁴⁶ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, **Crynodeb o drafodaethau'r Grwpiau Ffocws**, tudalen 2

Safbwynt Ysgrifennydd y Cabinet

96. Pan ofynnwyd a fyddai wedi disgwyl i gyfran uwch na dwy ran o dair o ysgolion fod yn defnyddio'r Grant Datblygu Disgyblion yn effeithiol, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet:

“Well, to flip it on its head, the vast majority of schools, as identified by Estyn, are using this money to good effect. So, that’s the way I like to see it—that the vast majority of schools are doing well. (...)”

I think we’re seeing better usage of the money year on year.”⁴⁷

97. Fodd bynnag, ychwanegodd Ysgrifennydd y Cabinet mai nod penodi ymgynghorwyr arweiniol y Grant Datblygu Disgyblion o fewn pob consortiwm oedd gwella sut y mae ysgolion yn defnyddio'r Grant Datblygu Disgyblion. Dywedodd fod y Llywodraeth yn amlwg yn dymuno i'r holl arian hwn gael ei ddefnyddio cystal ag y bo modd. Mae hyn yn cynnwys y modd y mae ysgolion yn defnyddio'r dystiolaeth sydd ar gael (trafodir hyn ymhellach yn adran 5.2 o'r adroddiad hwn).⁴⁸

Barn ac argymhellion y Pwyllgor

98. Nododd y Pwyllgor y dystiolaeth gan Estyn fod tua dwy ran o dair o ysgolion yn defnyddio'r Grant Datblygu Disgyblion yn effeithiol, a nododd yr Arolygiaeth fod hyn yn adlewyrchu'r ffaith bod gan yr un gyfran o ysgolion arweinyddiaeth dda neu well. Nododd y Pwyllgor hefyd fod Ysgrifennydd y Cabinet yn ymddangos fel pe bai'n ystyried hyn yn lefel dderbyniol o ran defnydd effeithiol o'r Grant Datblygu Disgyblion am y rheswm hwn.

99. O gofio bod y Grant Datblygu Disgyblion bellach yn ei seithfed flwyddyn a bod bron i £400 miliwn wedi'i fuddsoddi ynddo, byddai'r Pwyllgor wedi disgwyl y byddai cyfran uwch na dwy ran o dair o ysgolion yn defnyddio'r arian yn effeithiol. Er y gallai hyn fod yn gysylltiedig â lefel gyffredinol yr arweinyddiaeth mewn ysgol, nid yw'r Pwyllgor o'r farn y dylai Llywodraeth Cymru nac eraill fod yn fodlon nad yw dwy ran o dair o ysgolion yn defnyddio'r Grant Datblygu Disgyblion yn effeithiol.

100. Mae'r Pwyllgor yn croesawu penodi arweinwyr y Grant Datblygu Disgyblion ym mhob un o'r pedwar consortiwm rhanbarthol. Mae ganddynt rôl bwysig o ran monitro defnydd ysgolion o'r grant a gwerthuso'i effeithiolrwydd. Nid yw ysgolion

⁴⁷ Tystiolaeth lafar, Cofnod y Trafodion [paragraff 33], 22 Mawrth 2018

⁴⁸ Tystiolaeth lafar, Cofnod y Trafodion [paragraff 35], 22 Mawrth 2018

wedi cael eu herio'n ddigonol ynghylch eu defnydd o'r Grant Datblygu Disgyblion, yn enwedig mewn un rhan o dair o'r achosion lle y mae Estyn yn dweud na chafodd ei ddefnyddio'n effeithiol Ychydig iawn o dystiolaeth a glywodd y Pwyllgor o Gynghorwyr Her consortia yn herio defnydd aneffeithiol o'r Grant Datblygu Disgyblion, sy'n atgyfnerthu casgliad Ipsos MORI a WISERD nad yw hyn yn digwydd yn ddigonol.

101. Fodd bynnag, calonogwyd y Pwyllgor gan arwyddion bod y consortia wedi dwysáu eu gweithgareddau yn y maes hwn, sy'n debygol o fod o ganlyniad i benodi swyddogion arweiniol y Grant Datblygu Disgyblion ym mhob rhanbarth.

Argymhelliad 8. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod swyddogion arweiniol y Grant Datblygu Disgyblion a benodwyd yn ddiweddar yn y consortia rhanbarthol yn rhagweithiol o ran monitro, a herio lle bo angen, defnydd ysgolion o'r Grant Datblygu Disgyblion, er mwyn sicrhau'r effaith fwyaf a'r gwerth mwyaf am arian.

5. 2. Y defnydd o dystiolaeth ac arbenigedd

Y cefndir

102. Nid yw canllawiau Grant Datblygu Disgyblion Llywodraeth Cymru yn pennu sut y dylai ysgolion ddefnyddio'r grant, ond cyfeiria at astudiaethau achos arfer gorau a gynhyrchir gan Brosiect yr Arsyllfa Bolisi. Crëwyd y Prosiect yr Arsyllfa Bolisi i roi gwybodaeth yn seiliedig ar dystiolaeth i ysgolion, consortia rhanbarthol a Llywodraeth Cymru ar y camau y gall ysgolion eu cymryd i leihau effaith tlodi ar gyflawniad addysgol. Mae Llywodraeth Cymru hefyd yn annog ysgolion i roi ystyriaeth i arbenigedd academiaidd ac allanol megis Pecyn Cymorth Ymddiriedolaeth Sutton.

103. Er bod pob consortia yn trosglwyddo'r elfen o'r Grant Datblygu Disgyblion sy'n ymwneud â chymhwysra i gael prydau ysgol am ddim y yn ei chyfanrwydd i ysgolion, mae cau'r bwlch cyrhaeddiad yn rhan bwysig o gylch gwaith gwella'r consortia rhanbarthol. Felly, disgwylir i'r consortia weithio'n agos gydag ysgolion ar sut maen nhw'n defnyddio'r Grant Datblygu Disgyblion, gan eu herio lle bo angen. Er enghraifft, dywed canllawiau Grant Datblygu Disgyblion Blynnyddoedd Cynnar Llywodraeth Cymru:

“Bydd consortia rhanbarthol yn gyfrifol am sicrhau bod arian y GADBC yn cael ei ddosbarthu'n briodol, bod yr holl adnoddau'n cael eu

defnyddio'n effeithiol, a bod yr holl ddarparwyr yn defnyddio'r arian yn unol â'r dibenion y cytunwyd arnynt.”⁴⁹

Tystiolaeth rhanddeiliaid

104. Mae rôl y consortia o ran herio defnydd aneffeithiol o'r Grant Datblygu Disgyblion yn faes nad oedd wedi'i ddatblygu rhyw lawer pan gynhaliwyd gwerthusiad Ipsos MORI a WISERD (a gwblhawyd yn haf 2016). Canfu eu gwerthusiad, er bod Cynghorwyr Her y consortia “yn helpu hysbysu arweinwyr ysgolion... ychydig o dystiolaeth a welodd y gwerthusiad o'r rôl 'herio' ar waith”.⁵⁰

105. Pan holodd y Pwyllgor ynglŷn â hyn, ni allai'r consortia gynnig llawer o enghreifftiau o ble mae eu her a'u cyngor wedi newid defnydd ysgol o'r Grant Datblygu Disgyblion. Dim ond yn ddiweddar y penodwyd swyddogion arweiniol y Grant Datblygu Disgyblion ym mhob rhanbarth a nododd y consortia fod hyn yn rhywbeth y maen nhw'n ei ddwysáu. Er enghraifft, dywedodd ERW wrth y Pwyllgor mewn tystiolaeth ysgrifenedig ddilynol:

“Our Leader of Learning for PDG is relatively new in post and a large part of his work moving forward will be to meet with Challenge Advisers and discuss the use of PDG grant in their schools in a detailed manner, and to work alongside them to plan for effective expenditure that can demonstrate impact. In their initial research, no schools have had their PDG grant money clawed back, but there are instances where expenditure has been changed – one school initially planned to pay for free bus passes for eFSM pupils but then withdrew that element of the spending plan after no clear impact could be demonstrated from this use of the funding.”⁵¹

106. Yn gyffredinol, o ran sut y maent yn gweithio gydag ysgolion i sicrhau defnydd effeithiol o'r Grant Datblygu Disgyblion, dywedodd y consortia wrth y Pwyllgor:

⁴⁹ Llywodraeth Cymru, Grant Amddifadedd Disgyblion y Blynyddoedd Cynnar: Canllawiau i gonsortia rhanbarthol, awdurdodau lleol, ysgolion, meithrinfeydd, grwpiau chwarae a gwarchodwyr plant, Gorffennaf 2015

⁵⁰ Ipsos MORI a WISERD, Gwerthusiad o'r Grant Amddifadedd Disgyblion: Adroddiad terfynol – Rhagfyr 2017, paragraff 1.5

⁵¹ ERW, Gwybodaeth bellach a gyflwynwyd yn dilyn y cyfarfod ar 8 Mawrth

- Fod Cynghorwyr Her ERW yn adolygu'r defnydd o'r Grant Datblygu Disgyblion yn ystod eu hymweliadau ag ysgolion ac yn gwerthuso effaith y grant.⁵²
- Bod CSW yn monitro'r defnydd o'r Grant Datblygu Disgyblion drwy drefniadau cynllunio gwelliannau mewn ysgolion ac adroddiadau hunanwerthuso a dywedodd fod Cynghorwyr Her yn canolbwyntio ar ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim wrth edrych ar olrhain cynnydd disgyblion a gosod targedau.⁵³
- Dywedodd EAS fod ffocws rhanbarthol llawer mwy bellach ar y defnydd o ddata ar gyfer dysgwyr sy'n cael prydau ysgol am ddim. Mae'r Cynghorwyr Her yn defnyddio manylion perfformiad disgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim ar ddiwedd pob cyfnod allweddol yn erbyn dyraniadau Grant Datblygu Disgyblion yn eu trafodaethau gydag ysgolion.⁵⁴
- Dywedodd GwE fod data, gosod targedau a thracio'n cael eu defnyddio'n gyson i herio a chefnogi ysgolion drwy eu hymgyngorwyr sy'n casglu tystiolaeth o'r defnydd o'r Grant Datblygu Disgyblion a'i effaith yn ystod pob ymweliad ag ysgol.⁵⁵

107. Dywedodd Estyn ei bod yn anodd mesur i ba raddau y mae ysgolion yn defnyddio ymchwil i nodi dulliau sy'n seiliedig ar dystiolaeth, er enghraifft y Sefydliad Gwaddol Addysg a Phecyn Cymorth Ymddiriedolaeth Sutton. Dywedodd yr Arolygiaeth ei bod hi'n anoddach fyth nodi i ba raddau y mae ysgolion yn defnyddio adnoddau o'r fath yn effeithiol, er:

“It is fair to say that schools who are successful in mitigating the impact of poverty on educational outcomes use evidence-based strategies, such as assessment for learning strategies well. However, a few schools that are highly effective in raising standards of learning and wellbeing for disadvantaged learners challenge research findings based on the evidence arising from their own context.”⁵⁶

108. Ychwanegodd Prif Arolygydd EM:

⁵² Tystiolaeth ysgrifenedig, TF.20 – ERW

⁵³ Tystiolaeth ysgrifenedig, TF.07 – CSW

⁵⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig, TF.12 – Gwasanaeth Cyflawni Addysg De Ddwyrain Cymru

⁵⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, TF.14 – GwE

⁵⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig, TF.11 – Estyn

“I think that, of all the areas of school policy, this is the one that’s most evidence-based. I think that, generally, schools can do much more about using evidence and research findings, but this particular area is probably the one that schools are strongest at using research in.”⁵⁷

109. Nododd EAS fod ei Gynghorwyr Her a'i arweinwyr ysgol wedi cael eu hyfforddi ar ddefnyddio Pecyn Cymorth Sutton Trust drwy gyfres o weithdai a bod proses gytûn y mae Cynghorwyr Her yn ei defnyddio i gytuno ar y gwariant Grant Datblygu Disgyblion, yn unol ag arferion gorau a thelerau ac amodau grantiau.⁵⁸

110. Dywedodd ERW wrth y Pwyllgor:

“Un o’n rolau ni yw rhannu’r arfer orau, fel dywedais i gynnu: adnabod yr arfer orau, ei rhannu hi, matsio ysgolion gydag ysgolion tebyg, neu’n aml iawn gydag ysgolion sydd ddim yn debyg iddyn nhw, i rannu’r arferion yna.”⁵⁹

111. Disgrifiodd CSW yr amrywiol arferion sydd ganddo i gefnogi a chynghori ysgolion ar y gwariant gorau a’r arferion gorau, gan gynnwys gweithdai cymhwyster, canolfannau arfer gorau, a grwpiau gwella ysgolion.⁶⁰

112. Er bod rhanddeiliaid yn ystyried yn gyffredinol bod Pecyn Cymorth Sutton a mathau eraill o arbenigedd ac arweiniad allanol yn ddefnyddiol i ysgolion, roedd rhybudd gan y NAHT i beidio â dibynnu ar y rhain yn ormodol. Dywedodd Damon McGarvie, Pennaeth Ysgol Gymunedol Pennar a Llywydd NAHT Cymru, wrth y Pwyllgor:

“It’s also worth noting that when we look at the Sutton Trust, it shows some areas of value for money that I don’t necessarily agree with. They’ll make a decision, perhaps, on the use of teaching assistants in the classroom, and they have said in the past that there’s very little value in the use of teaching assistants. I would disagree with that. I would say that it’s about, if you’ve got teaching assistants, what quality they are and how you use them. So, it’s to be used as a reference, but it’s to be used with caution.”⁶¹

⁵⁷ Tystiolaeth lafar, Cofnod y Trafodion [paragraff 45], 14 Mawrth

⁵⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig, TF.12 – EAS

⁵⁹ Tystiolaeth lafar, Cofnod y Trafodion [paragraff 31], 8 Mawrth 2018

⁶⁰ Ibid [paragraff 33]

⁶¹ Ibid [paragraff 303]

113. Ychwanegodd Rob Williams, Cyfarwyddwr Polisi NAHT Cymru:

“Ultimately, it has to be based upon the school decision because it should reflect your self-evaluation. I think you have to be a little bit cautious of just picking something off the shelf because it looks like it has good value for money if it actually doesn’t fit with what is the key area within your school.”⁶²

114. Ategodd Estyn mai cyfrifoldeb ysgolion eu hunain yw gwneud y penderfyniadau gorau ar sut i ddefnyddio'r Grant Datblygu Disgyblion gyda'u disgyblion. Dywedodd Prif Arolygydd Ei Mawrhydi bod llawer o dystiolaeth ymchwil hygyrch ar gael, sy'n ei gwneud yn llawer haws i ysgolion wneud penderfyniad, ond meddai:

“But I think what’s missing is that you can’t just take that evidence as it is, because you have to implement it in your own school, and that then will affect how effective that particular intervention is. Just because it is evaluated by researchers as being generally very effective doesn’t mean that you will necessarily implement it effectively. So, it is therefore important that each school does evaluate. So, there are kind of two sides to using research. There’s looking at research, but there’s also doing your own research and evaluating how effectively you have implemented something. I think that’s been a weakness.”⁶³

Safbwynt Ysgrifennydd y Cabinet

115. Tynnodd Ysgrifennydd y Cabinet sylw at yr hyn a ddywedodd Estyn, sef mai'r Grant Datblygu Disgyblion fwy na thebyg yw'r enghraifft orau o ysgolion yn gwneud penderfyniadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Ategodd hefyd y ffaith y dylai ysgolion fod yn rhydd i wneud y penderfyniad gorau am eu hamgylchiadau eu hunain ond bod yn rhaid iddynt ddangos eu bod wedi ystyried y dystiolaeth sydd ar gael o ran yr hyn sy'n gweithio ac arfer gorau. Mewn tystiolaeth lafar, dywedodd Kirsty Williams AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg:

“But we want to see schools demonstrating their evidence base, and if they're not, if a school isn't doing that, okay, so demonstrate to us why you've made those decisions and, crucially, what are you doing as the school to judge whether that decision is actually making a difference for your individual pupils. So, if you're moving away from tried and

⁶² Tystiolaeth lafar, Cofnod y Trafodion [paragraff 310], 8 Mawrth 2018]

⁶³ Tystiolaeth lafar, Cofnod y Trafodion [paragraffau 45 a 46], 14 Mawrth 2018

tested interventions, what we know works, if you're doing something different with your money, okay, you need to justify that and you need to explain how you're going to demonstrate impact.”⁶⁴

116. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrth y Pwyllgor hefyd ei bod yn edrych ar ddatblygu pecyn cymorth i Gymru yn seiliedig ar arfer da, tystiolaeth ac ymchwil.⁶⁵

Barn ac argymhellion y Pwyllgor

117. Dywedodd Estyn wrth y Pwyllgor fod y Grant Datblygu Disgyblion yn cynrychioli maes lle roedd ysgolion yn gwneud y defnydd gorau o dystiolaeth i arwain eu penderfyniadau ar sut i ddefnyddio'r Grant Datblygu Disgyblion. Mae'r Pwyllgor o'r farn ei bod yn hanfodol bod ysgolion yn parhau i wneud defnydd llawn a phriodol o'r arbenigedd sydd ar gael, gan gynnwys Pecyn Cymorth Ymddiriedolaeth Sutton ac ymyriadau eraill sy'n seiliedig ar dystiolaeth.

118. Roedd y Pwyllgor yn pryderu o glywed gan werthusiad Ipsos MORI a WISERD nad yw ysgolion yn gwneud digon o ddefnydd o Becyn Cymorth Ymddiriedolaeth Sutton, ond hefyd yn cydnabod tystiolaeth gan benaethiaid mai hwy fel arfer sydd yn y sefyllfa orau i benderfynu sut i gymhwyso'r dystiolaeth a'r arbenigedd sydd ar gael i amgylchiadau penodol eu hysgol.

119. Nododd y Pwyllgor fod Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi pecyn cymorth i Gymru. Croesawyd hyn ond pwysleisiwyd na ddylid “cadw'r brych a thaflu'r llo”. Yn hytrach na dechrau o'r dechrau, dylai unrhyw becyn cymorth newydd adeiladu ar yr hyn y gwyddys ei fod eisoes yn llwyddo, megis elfennau o Becyn Cymorth Ymddiriedolaeth Sutton.

Argymhelliad 9. Dylai Llywodraeth Cymru annog ysgolion a rhoi dyletswydd arnynt i roi ystyriaeth lawn i'r dystiolaeth a'r arbenigedd sydd ar gael ar yr hyn sy'n ddefnydd effeithiol o'r Grant Datblygu Disgyblion, gan alluogi arweinwyr ysgolion i wneud penderfyniadau priodol ar gyfer eu disgyblion eu hunain. Wrth wneud hynny, dylai Llywodraeth Cymru weithio gydag Estyn i sicrhau ei fod yn chwarae rôl lawn wrth fonitro hyn.

⁶⁴ Tystiolaeth lafar, Cofnod y Trafodion [paragraff 35], 22 Mawrth 2018

⁶⁵ Ibid [paragraff 217]

5. 3. Defnyddio'r Grant Datblygu Disgyblion i olrhain cynnydd disgyblion

Tystiolaeth rhanddeiliaid

120. Disgrifiodd Syr Alasdair Macdonald, Eiriolwr Codi Safonau Ysgolion Llywodraeth Cymru, i'r Pwyllgor sut roedd y modd y mae ysgolion yn olrhain disgyblion wedi datblygu yn ystod y blynyddoedd diwethaf:

“It’s very, very difficult to go into a school now that hasn’t really got a system in place for tracking pupils that identifies the free-school-meals pupils. Whereas in the past the school administration might have known who they were but individual teachers didn’t, we now have a system where individual teachers do. We now have a system where they’re being tracked.”⁶⁶

121. Clywodd y Pwyllgor am wahanol offer a dulliau olrhain a ddefnyddir gan ysgolion i ddilyn cynnydd disgyblion. Er enghraifft, trafododd consortiwm GwE ei “ddangosfwrdd G6”, y mae’n gobeithio y bydd yn sefydlu dull cyson a chydlynol o olrhain disgyblion ymysg ysgolion yng Ngogledd Cymru:

“Mae’r dangosfwrdd yna wedi cael derbyniad gwresog, nid yn unig gan Estyn a’r rhanddeiliaid eraill sydd wedi’i weld o, ond gan ein penaethiaid ni hefyd. Mi fydd y dangosfwrdd yma yn hybu ac yn annog y cysondeb yna roeddech chi’n cyfeirio ato fo. Wrth gwrs, mae ysgol yn gallu defnyddio eu systemau mewnol eu hunain, ond fel rhanbarth, fel rydych chi’n ei ddweud, rydym ni angen y cysondeb yna, fel bod ein gweithredu ni yn union ar draws yr ardal.”⁶⁷

Safbwynt Ysgrifennydd y Cabinet

122. Cadarnhaodd Ysgrifennydd y Cabinet bwysigrwydd ysgolion yn olrhain cynnydd disgyblion ond cadarnhaodd nad yw Llywodraeth Cymru yn rhoi arweiniad na chyfarwyddyd penodol ar ba rai o’r systemau olrhain amrywiol i’w defnyddio. Dywedodd Kirsty Williams AC:

“Firstly, can I say it’s absolutely crucial that we track performance, absolutely crucial? That’s the bedrock. We don’t dictate to individual schools the nature of the system that they should employ in their school. There are a number of different programmes that allow schools

⁶⁶ Tystiolaeth lafar, Cofnod y Trafodion [paragraff 513], 8 Mawrth 2018

⁶⁷ Ibid, [paragraff 182]

to do this, but we are absolutely clear, and best practice and evidence shows us, that individual pupil tracking is key and crucial. And, as I said in the beginning, where we weren't tracking pupils at all, initial investment in PDG was used to establish these systems within schools. Again, one of the outcomes from the schools challenge review, and one of the lessons learnt, was, again, the importance of individual tracking of pupils throughout their school career. But we don't dictate a single system."⁶⁸

Barn ac argymhellion y Pwyllgor

123. Mae'n hanfodol bod ysgolion yn olrhain cynnydd disgyblion unigol dros amser. Dylai hyn fod yn ddefnydd o'r Grant Datblygu Disgyblion sy'n arfer gorau o ran disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a Phlant sy'n Derbyn Gofal a phlant mabwysiedig. Clywodd y Pwyllgor am wahanol offer a dulliau olrhain a ddefnyddiwyd gan ysgolion ond roedd yn amlwg mai ychydig iawn o gyfarwyddyd neu arweiniad a roddwyd ar lefel genedlaethol neu ranbarthol ynghylch pa rai y dylid eu defnyddio.

124. Mae'r Pwyllgor yn derbyn na fyddai o reidrwydd yn ddymunol i Lywodraeth Cymru ffafrio un system olrhain disgyblion uwchlaw pob system arall nac i ysgolion beidio â chael hyblygrwydd i ddewis beth sy'n gweithio orau iddynt. Serch hynny, cred y Pwyllgor na ddylid gadael i ysgolion ddarganfod beth sydd ar gael a gwneud penderfyniadau ar eu pen eu hunain heb wybodaeth a chanllawiau digonol.

Argymhelliad 10. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod systemau a phrosesau effeithiol ar gael bob amser i bob ysgol olrhain cynnydd disgyblion. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod y consortia rhanbarthol yn rhoi cyngor a chymorth clir i ysgolion yn eu rhanbarth ynglŷn â'r dulliau sydd ar gael.

⁶⁸ Tystiolaeth lafar, Cofnod y Trafodion [paragraff 213], 22 Mawrth 2018

6. Effaith y Grant Datblygu Disgyblion ar bresenoldeb ac ymgysylltiad disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim

6. 1. Presenoldeb

Y Cefndir

125. Mae canllawiau Llywodraeth Cymru ar y Grant Datblygu Disgyblion (Mawrth 2015) yn cynnwys y cwestiynau a ganlyn wrth drafod y meini prawf ar gyfer ffyrdd cymwys o ddefnyddio'r grant: "A fydd hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ymddygiad neu bresenoldeb?" ac "A fydd hyn yn cael effaith gadarnhaol ar les?"⁶⁹

126. Mae presenoldeb disgyblion wedi gwella yng Nghymru yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Rhoddwyd blaenoriaeth uwch a phroffil i'r mater hwn a rhoddwyd ffocws amlwg iddo yn arolygiadau Estyn.

127. Dengys ystadegau Llywodraeth Cymru fod cyfran y sesiynau hanner diwrnod a gollwyd gan ddisgyblion wedi:

- Lleihau ymysg disgyblion ysgolion cynradd o 6.7 y cant yn 2010/11 i 5.0 y cant yn 2016/17;
- Lleihau ymysg disgyblion ysgolion uwchradd o 8.6 y cant yn 2010/11 i 5.9 y cant yn 2016/17.

128. Ymhlith disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, mae cyfran y sesiynau hanner diwrnod a gollwyd gan ddisgyblion wedi:


- Lleihau ymysg disgyblion ysgolion cynradd o 9.3 y cant yn 2010/11 i 7.3 y cant yn 2016/17;
- Lleihau ymysg disgyblion ysgolion uwchradd o 13.5 y cant yn 2010/11 i 9.9 y cant yn 2016/17.

129. Ymhlith disgyblion nad ydynt yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, mae cyfran y sesiynau hanner diwrnod a gollwyd gan ddisgyblion wedi:


⁶⁹ Llywodraeth Cymru, Grant Amddifadedd Disgyblion Canllawiau hanfodol, Mawrth 2015, Atodiad A

CYSYLLTIAD RHWNG DYSGWYR SY’N GYMWYS AM BRYDAU YSGOL AM DDIM A CHYFRADDAU PRESENOLDEB

Cyfran yn bresennol yng Nghyfnod Allweddol 4 am dros 95% o’r amser.




Disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim




Disgyblion nad ydynt yn gymwys am brydau ysgol am ddim

Cyfran yn bresennol yng Nghyfnod Allweddol 4 am 90% o’r amser neu lai.




Disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim




Disgyblion nad ydynt yn gymwys am brydau ysgol am ddim

CYSYLLTIAD RHWNG CYFRADDAU PRESENOLDEB A CHYRHAEDDIAD


Cyfran sy'n cyrraedd y trothwy lefel 2 cynhwysol




Disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim gyda phresenoldeb o dros 90%



Disgyblion nad ydynt yn gymwys am brydau ysgol am ddim gyda phresenoldeb o 90% neu lai



Disgyblion nad ydynt yn gymwys am brydau ysgol am ddim gyda phresenoldeb o dros 90%



Disgyblion nad ydynt yn gymwys am brydau ysgol am ddim gyda phresenoldeb o 90% neu lai

- Lleihau ymysg disgyblion ysgolion cynradd o 6.0 y cant yn 2010/11 i 4.6 y cant yn 2016/17;
- Lleihau ymysg disgyblion ysgolion uwchradd o 7.5 y cant yn 2010/11 i 5.1 y cant yn 2016/17.⁷⁰

Tystiolaeth rhanddeiliaid

130. Dangosodd tystiolaeth Estyn y cysylltiad cryf rhwng presenoldeb gwael a chyrhaeddiad isel. Lle mae disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn mynychu am 90 y cant neu fwy o'r amser, mae 45 y cant yn cyrraedd trothwy cynwysedig Lefel 2⁷¹. Fodd bynnag, lle mae eu presenoldeb yn llai na 90 y cant, mae'r gyfradd gyflawni yn 23 y cant.⁷²

131. Dywedodd Estyn wrth y Pwyllgor fod presenoldeb disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim wedi gwella i raddau mwy na phresenoldeb disgyblion nad ydynt yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim mewn ysgolion cynradd ac uwchradd. Fodd bynnag, dywed yr arolygiaeth fod y bwlch yn dal yn rhy fawr, gan amlygu'r data canlynol yn ei phapur.

132. Yng Nghyfnod Allweddol 2, dros y cyfnod rhwng 2014 a 2016:

- Roedd oddeutu 25 y cant o ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yng Nghyfnod Allweddol 2 yn mynychu am lai na 90 y cant o'r amser, o'i gymharu â 9 y cant o ddisgyblion nad ydynt yn gymwys.
- Dim ond 45 y cant o ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim sy'n mynychu am 95 y cant neu fwy o'r amser, o'i gymharu â 65 y cant o ddisgyblion nad ydynt yn gymwys.

133. Erbyn Cyfnod Allweddol 4, dros y cyfnod rhwng 2014 a 2016:

- Mae gan oddeutu 40 y cant o ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim bresenoldeb o lai na 90 y cant, o'i gymharu ag 16 y cant o ddisgyblion nad ydynt yn gymwys.

⁷⁰ Llywodraeth Cymru, Absenoldeb o ysgolion yn ôl nodweddion disgyblion, Mawrth 2018

⁷¹ Mae trothwy cynwysedig Lefel 2 yn gyfwerth â 5 cymhwyster TGAU neu fwy ar radd A*-C, yn cynnwys Saesneg/Cymraeg a Mathemateg, neu gymhwyster galwedigaethol cyfatebol.

⁷² Tystiolaeth ysgrifenedig, TF.11 – Estyn

- Dim ond 35 y cant o ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim sy'n mynychu am 95 y cant neu fwy o'r amser, o'i gymharu â 60 y cant o ddisgyblion nad ydynt yn gymwys.⁷³

134. Yng ngoleuni'r cysylltiad clir rhwng presenoldeb a chyrhaeddiad ar gyfer disgyblion difreintiedig, mynegodd Estyn bryder:

“The gap in attendance between eFSM pupils and others increases at every key stage and is a particular cause for concern in Key Stage 4. Evidence suggests a strong correlation between poor attendance and low attainment especially for disadvantaged pupils. This is particularly notable by the end of Key Stage 4. The overall national picture does not suggest that schools have used grant funding well enough to address the poor attendance issue. (...)

Schools will not succeed in reducing the performance gap until this situation improves.”⁷⁴

135. Yn eu gwerthusiad a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru, adroddodd Ipsos MORI a WISERD:

“Mae presenoldeb wedi gwella pob blwyddyn (cyn ac wedi cyflwyno'r GAD) ac wedi gwella ar gyfer disgyblion eFSM ac nad ydynt yn FSM ar yr un gyfradd. Er ei bod yn bosibl fod y GAD yn cael rhywfaint o effaith ar bresenoldeb cyffredinol (e.e. o ran atal y bwlch rhag ehangu ymhellach), yn anffodus nid yw'n bosibl ynysu effaith y GAD o bolisiâu eraill i wella presenoldeb.

Fe ymddengys y gallai'r GAD fod yn cael effaith bwysig ar absenoldeb heb awdurdod. Mae hyn wedi gwella'n arwyddocaol ar gyfer disgyblion eFSM rhwng 2011 a 2015/6. Mae hyn yn cyferbynnu â'r gyfradd ar gyfer disgyblion nad ydynt yn FSM ble mae'r gyfradd wedi parhau i fod yn gyson.

Er y bu gwelliannau sylweddol yn y lefelau o absenoldeb cyson yng Nghymru ar gyfer pob disgybl, yn cynnwys disgyblion eFSM, awgryma'r

⁷³ Tystiolaeth ysgrifenedig, TF.11 – Estyn

⁷⁴ Ibid

canlyniadau y gall polisïau eraill i wella presenoldeb fod yn cael mwy o effaith na'r GAD yn unig.”⁷⁵

Safbwynt Ysgrifennydd y Cabinet

136. Cyfeiriodd Ysgrifennydd y Cabinet at enghreifftiau o arfer gorau wrth ddefnyddio'r Grant Datblygu Disgyblion i wella presenoldeb, gan gynnwys “bws cerdded” yn ysgol Doc Penfro. Defnyddiodd yr ysgol hon y Grant Datblygu Disgyblion i anfon cynorthwywyr addysgu i gasglu disgyblion ar y ffordd i'r ysgol yn y bore. Fodd bynnag, cydnabu Kirsty Williams AC:

“We’re looking again at what more we can do to support this particular agenda in terms of improving attendance, because although, again, there are examples of good practice, there is still a gap between the attendance of free-school-meal pupils and non-free-school-meal pupils. And, of course, we can have the best curriculum in the world with really high-quality teaching, but unless the children are in the classes then we’re not going to make the difference for them. Whilst that differential exists, then it’s going to be hard to close the attainment gap for those children.”⁷⁶

Barn ac argymhellion y Pwyllgor

137. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod y gwelwyd gwelliannau mewn cyfraddau presenoldeb disgyblion yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Rydym hefyd yn nodi o ystadegau diweddaraf Llywodraeth Cymru bod cyfran y sesiynau hanner diwrnod a gollwyd gan ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim wedi gostwng ychydig yn fwy nag ymhlith disgyblion nad ydynt yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim.

138. Fodd bynnag, roedd y Pwyllgor yn bryderus iawn o glywed bod presenoldeb disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn dal i lusgo'n sylweddol iawn ar ôl disgyblion eraill, yn enwedig yng Nghyfnod Allweddol 4. Roedd gwrthgyferbyniad amlwg yng Nghyfnod Allweddol 4, lle mai dim ond 35 y cant o ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim sy'n mynychu'r ysgol am fwy na 95 y cant o'r amser, o'i gymharu â 60 y cant o'r disgyblion eraill. Roedd y Pwyllgor hefyd yn pryderu bod 76 y cant o ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau

⁷⁵ Ipsos MORI a WISERD, Gwerthusiad o'r Grant Amddifadedd Disgyblion: Adroddiad terfynol – Rhagfyr 2017, paragraff 113

⁷⁶ Tystiolaeth lafar, cofnod y Trafodion [paragraff 46], 22 Mawrth 2018

ysgol am ddim yn mynychu am 85 y cant neu fwy o'r amser, o'i gymharu â 93 y cant o ddisgyblion nad ydynt yn gymwys.⁷⁷

139. Mae'r Pwyllgor o'r farn bod presenoldeb ac ymgysylltiad is ymysg disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn ffactor sy'n cyfrannu cymaint ag unrhyw un arall at eu cyflawniad is. Un o'r prif bethau y dylid defnyddio'r Grant Datblygu Disgyblion ar ei gyfer yw gwella ymgysylltiad disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim â'u haddysg oherwydd os nad ydynt yn yr ysgol, ni fyddant yn dysgu. Fodd bynnag, dywedodd Estyn wrth y Pwyllgor nad yw ysgolion, ar draws Cymru gyfan, wedi defnyddio'r Grant Datblygu Disgyblion yn ddigon da i fynd i'r afael â'r bwlch presenoldeb.

Argymhelliad 11. Mae angen mwy o bwyslais ar ddefnyddio'r Grant Datblygu Disgyblion i wella presenoldeb disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Dylai Llywodraeth Cymru fynd ati ar frys, drwy ei chanllawiau ar y Grant Datblygu Disgyblion a'i chyfarwyddyd i gonsortia, i wella sut y defnyddir y Grant Datblygu Disgyblion i wella presenoldeb disgyblion ac ymgysylltiad disgyblion â'u haddysg.

6. 2. Gwaharddiadau

Y cefndir

140. Mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi data ar niferoedd a chyfraddau gwaharddiadau parhaol a thymor penodol ar gyfer pob disgybl ac ar sail cymhwystra i gael prydau ysgol am ddim. Mae gwaharddiadau am gyfnod penodol, yn arbennig, yn uwch ymhlith disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Ers cyflwyno'r Grant Datblygu Disgyblion, mae'r gwahaniaeth wedi lleihau ar gyfer gwaharddiadau cyfnod penodol hwy ond nid ar gyfer gwaharddiadau tymor byr.

141. Mae cyfradd y gwaharddiadau parhaol wedi aros yn gymharol sefydlog, gyda'r gyfradd ar gyfer yr holl ddisgyblion yn codi ychydig o 0.1 fesul 1,000 o ddisgyblion yn 2011/12 i 0.2 yn 2015/16. Nid yw'r gyfradd wedi newid ymhlith y garfan sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (gan aros ar 0.5 fesul 1,000 o ddisgyblion) a'r garfan nad yw'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (gan aros ar 0.1 fesul 1,000 o ddisgyblion).

142. Mae gwaharddiadau cyfnod penodol o bum niwrnod neu lai wedi codi tra bod gwaharddiadau cyfnod penodol o fwy na phum niwrnod wedi lleihau.

⁷⁷ Tystiolaeth ysgrienedig, TF.11 - Estyn

143. Mae cyfradd y gwaharddiadau cyfnod penodol o bum niwrnod neu lai:

- Wedi cynyddu o 78.7 fesul 1,000 o ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn 2011/12 i 81.9 yn 2015/16;
- Wedi cynyddu o 19.0 fesul 1,000 o ddisgyblion nad ydynt yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn 2011/12 i 19.9 yn 2015/16.

144. Mae cyfradd y gwaharddiadau cyfnod penodol o fwy na phum niwrnod:

- Wedi gostwng o 6.1 fesul 1,000 o ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn 2011/12 i 3.9 yn 2015/16.
- Wedi gostwng o 19.0 fesul 1,000 o ddisgyblion nad ydynt yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn 2011/12 i 19.9 yn 2015/16.⁷⁸

Tystiolaeth rhanddeiliaid

145. Dywedodd Adroddodd Estyn wrth y Pwyllgor:

“One of the main messages arising from the exclusions data is that, overtime, there is no overall trend of reduction in the rate of exclusions for eFSM pupils. Pupils from this group are still much more likely to receive fixed term inclusions than others.”⁷⁹

146. Hefyd, darparodd Estyn ystadegau i'r Pwyllgor ar gyfraddau gwaharddiadau, a oedd yn adlewyrchu'n fras y rhai a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru. Dangosodd y rhain fod cyfradd y gwaharddiadau cyfnod penodol ar gyfer disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r holl ddisgyblion wedi gostwng yn ystod 2013 a 2014 ond wedi codi eto yn ôl i lefelau 2012 erbyn 2016.⁸⁰

Safbwynt Ysgrifennydd y Cabinet

147. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrth y Pwyllgor:

“If we looked at permanent exclusions, there isn't a differential, but if we look at temporary exclusions, there we see there is a disproportionate number of children on free school meals that are subject to those exclusions. Again, I think what schools employing best practice understand is that you need a multi-agency approach to supporting

⁷⁸ Llywodraeth Cymru, Gwaharddiadau parhaol a chyfnod penodol o ysgolion, Medi 2017

⁷⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig, TF.11 – Estyn

⁸⁰ Ibid

that particular child. Some of those exclusions can be as a result of the need to address other issues going on in a child's life. (...)

We made some changes last year regarding PDG for EOTAS [pupils Educated Otherwise Than At School]. So, for those children who do find themselves in education other than at school, we are providing additional support that previously was not available.”⁸¹

Barn ac argymhellion y Pwyllgor

148. Roedd y Pwyllgor yn bryderus o glywed bod cyfraddau gwaharddiadau tymor penodol yn sylweddol uwch ar gyfer disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim o gymharu â'u cyfoedion. Roedd 86 o waharddiadau cyfnod penodol fesul 1,000 o ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn 2015/16, o gymharu ag 21 fesul 1,000 o ddisgyblion nad ydynt yn gymwys. Er i'r Pwyllgor nodi i'r cyfraddau ostwng yn 2013 a 2014 yn y ddwy garfan cyn codi eto yn 2015 a 2016, roedd yn bryderus bod y bwlch gwaharddiad wedi ehangu ers cyflwyno'r Grant Datblygu Disgyblion ym mis Ebrill 2012.

149. Fel gyda phresenoldeb, mae'r dystiolaeth a gafwyd yn sgil yr ymchwiliad hwn yn awgrymu bod gwaharddiadau yn ffactor arwyddocaol sy'n cyfrannu at y ffaith nad yw disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn cyflawni cystal â'u cyfoedion. Os nad yw'r disgyblion yn yr ysgol, am ba reswm bynnag, maent yn llai tebygol o ddysgu.

Argymhelliad 12. Dylai Llywodraeth Cymru fynd ati ar frys i wella a rhoi mwy o bwyslais ar sut y mae'r Grant Datblygu Disgyblion yn cael ei ddefnyddio i wella ymgysylltiad disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim er mwyn lleihau'r nifer sy'n cael gwaharddiadau cyfnod penodol.

⁸¹ Tystiolaeth lafar, Cofnod y Trafodion [paragraff 51], 22 Mawrth

7. Effaith y Grant Datblygu Disgyblion ar gyrhaeddiad disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim

Y Cefndir

150. Effeithiodd newidiadau Llywodraeth Cymru i fesurau perfformiad Cyfnod Allweddol 4 yn 2017⁸² ar ystyriaeth y Pwyllgor o'r effaith y mae buddsoddiad yn y Grant Datblygu Disgyblion wedi'i chael ar gyrhaeddiad disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Mae'r newidiadau hyn, yn bennaf rhoi llai o bwys ar gymwysterau galwedigaethol cyfatebol yng Nghyfnod Allweddol 4, wedi ystumio rhywfaint ar ganlyniadau 2017, a dywed Llywodraeth Cymru nad oes modd, felly, eu cymharu â blynyddoedd blaenorol felly.

151. Mae dwy wedd i ystyriaeth y Pwyllgor o effaith y Grant Datblygu Disgyblion ar gyrhaeddiad; ystyriaeth o'r effaith hyd at 2016 ac ystyriaeth benodol o'r effaith yn 2017. Arweiniodd hyn at ystyried mesurau perfformiad Cyfnod Allweddol 4 yn ehangach a'u dylanwad ar ymddygiad ysgolion, o ran y nifer a gyflwynir ar gyfer cymwysterau a'r gefnogaeth a roddant i ddisgyblion.

152. Y prif fesurau perfformiad ysgolion a ddefnyddiwyd yng Nghyfnod Allweddol 4 gan Lywodraeth Cymru yn ystod y blynyddoedd diwethaf oedd trothwy Lefel 2 a throthwy cynwysedig Lefel 2. Mae trothwy Lefel 2 yn gyfystyr â chymwysterau sy'n cyfateb i bump neu ragor o gymwysterau TGAU graddau A*-C, neu gymwysterau galwedigaethol cyfwerth. Mae'r trothwy cynwysedig Lefel 2 yn debyg ond mae'n rhaid i'r pum cymhwyster TGAU neu fwy hyn gynnwys Saesneg neu Gymraeg a Mathemateg.

153. Fel y trafodwyd eisoes yn adran 4.2 yr adroddiad hwn, mae Llywodraeth Cymru yn symud i ffwrdd o fesurau trothwy Lefel 2 oherwydd pryderon eu bod yn rhoi pwyslais anghymesur ar radd C ac nad ydynt yn rhoi digon o gymhellant i ysgolion gefnogi disgyblion i ennill graddau uwch. Ar 17 Mai 2018, cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet y bydd mesurau perfformiad "interim" newydd yn cael eu disodli gan y mesurau Lefel 2, gan gynnwys sgôr pwyntiau Capio 9 a fydd yn rhoi sgôr wedi'i phwysoli i raddau TGAU disgyblion, gan roi mwy o gydnabyddiaeth i

⁸² Trafodir data cyrraedd Cyfnod Allweddol 4 dros y blynyddoedd diwethaf ac effaith newidiadau i fesurau perfformiad yn 2017 yn erthygl y Gwasanaeth Ymchwil: [Data cyrraedd Cyfnod Allweddol 4](#) (Mawrth 2018)

radd A na gradd B ac yn y blaen.⁸³ Bydd sicrhau Tystysgrif Her Sgiliau Bagloriaeth Cymru hefyd yn fesur perfformiad ynddo'i hun. Bydd y mesurau interim ar waith o'r flwyddyn academaidd 2018/19 a byddant yn fesurau pontio, cyn i Lywodraeth Cymru gyflwyno Fframwaith Asesu a Gwerthuso newydd, sy'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd.

154. Y cyfwerthedd galwedigaethol yw'r agwedd ar y mesurau sydd wedi newid yn fwyaf sylweddol yn 2017. O 2017 ymlaen, efallai na fydd cymwysterau galwedigaethol yn ffurfio dim mwy na 40 y cant o'r 5 TGAU neu fwy yn y trothwy Lefel 2, h.y. rhaid i ddisgybl ennill o leiaf dri TGAU graddau A*-C er mwyn ei gyrraedd. Mae hyn yn adeiladu ar y newid a gyflwynwyd yn 2016 lle na all cymhwyster galwedigaethol fod yn werth mwy na'r hyn sy'n cyfateb i ddau TGAU mewn mesurau perfformiad.

155. Newid arall yn 2017 oedd diystyru Llenyddiaeth Saesneg neu Gymraeg o'r trothwy cynwysedig Lefel 2. Yn 2017 a 2018, dim ond Cymraeg neu Saesneg iaith sy'n cyfrif tuag at y trothwy cynwysedig Lefel 2.

156. Mae Tablau 1 a 2 isod yn dangos cyfraddau cyflawniad ar gyfer mesurau trothwy Lefel 2 a throthwy cynwysedig Lefel 2 yn ôl cymhwysra i gael prydau ysgol am ddim, dros gyfnod o amser. Cyflwynwyd y PDG yn y flwyddyn ariannol 2012-13. Blynnyddoedd academaidd yw'r rhai a nodir yn y tablau. Mae'r colofnau ar y chwith yn cymharu cyrhaeddiad disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a disgyblion nad ydynt yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, ac mae'r colofnau ar y dde yn cymharu'r cyflawniad â chyflawniad yr holl ddisgyblion.

Tabl 1: Cyfraddau cyflawni trothwy Lefel 2 yn ôl cymhwysra i gael prydau ysgol am ddim – Cymru Gyfan

	<i>Canran y disgyblion sy'n cyrraedd trothwy Lefel 2</i>					
	eFSM	dim eFSM	bwllch pwynt %	eFSM	Pob disgybl	bwllch pwynt %
2009/10	32.5	66.4	33.9	32.5	60.7	28.2
2010/11	35.3	69.6	34.3	35.3	63.8	28.5
2011/12	40.9	73.5	32.6	40.9	67.3	26.4
2012/13	50.9	78.0	27.1	50.9	72.6	21.7
2013/14	57.8	83.0	25.2	57.8	77.8	20.0
2014/15	65.3	87.4	22.1	65.3	82.3	17.0
2015/16	69.4	88.9	19.5	69.4	84.1	14.7
2016/17	71.6	89.0	17.4	71.6	84.0	12.4
2017/18	41.3	73.6	32.3	41.3	67.0	25.7

⁸³ Datganiad ysgrifenedig Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, Kirsty Williams AC: Diweddariad ar Drefniadau Mesur Perfformiad Cyfnod Allweddol 4 o 2019 ymlaen, 17 Mai 2018

Tabl 2: Cyfraddau cyflawni trothwy cynwysedig Lefel 2 yn ôl cymhwysra i gael prydau ysgol am ddim – Cymru Cyfan

	<i>Canran y disgyblion sy'n cyrraedd trothwy Lefel 2 cynhwysol</i>					
	eFSM	dim eFSM	bwlch pwynt %	eFSM	Pob disgybl	bwlch pwynt %
2009/10	20.1	52.1	32.0	20.1	47.2	27.1
2010/11	20.7	54.6	33.9	20.7	49.4	28.7
2011/12	22.0	55.7	33.7	22.0	50.1	28.1
2012/13	23.4	56.6	33.2	23.4	51.1	27.7
2013/14	25.8	58.5	32.7	25.8	52.7	26.9
2014/15	27.8	61.6	33.8	27.8	55.4	27.6
2015/16	31.6	64.1	32.5	31.6	57.9	26.3
2016/17	35.6	66.8	31.2	35.6	60.3	24.7
2017/18	28.6	61.0	32.4	28.6	54.6	26.0

Ffynonellau a Nodiadau ar gyfer Tabl 1 a Thabl 2

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, Datganiad Ystadegol Cyntaf: **Canlyniadau arholiadau yng Nghymru 2016/17**, Tablau 1 a 5, 6 Rhagfyr 2017. Cyfrifiadau gan Wasanaeth Ymchwil Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Nodiadau:

- i) Trothwy Lefel 2 = 5 TGAU neu fwy, graddau A*-C neu gymhwyster galwedigaethol cyfatebol. Trothwy cynwysedig Lefel 2 = 5 TGAU neu fwy, graddau A*-C, gan gynnwys Mathemateg ac Iaith Gymraeg/Saesneg, neu gymhwyster galwedigaethol cyfatebol. Yn 2017, newidiodd Llywodraeth Cymru sut y mae mesurau trothwy Lefel 2 yn cael eu cofnodi, gan roi cap ar nifer y cymwysterau galwedigaethol y gellir eu cyfrif. O 2017 ymlaen, cafodd hyn ei gyfyngu i 40 y cant, h.y. dim ond ar gyfer hyd at 2 o'r 5 TGAU y gall cymwysterau galwedigaethol gyfrif. Mae Llywodraeth Cymru yn dweud nad yw cymariaethau rhwng 2017 a blynyddoedd blaenorol yn ystadegol ddilys.
- ii) Gweler tudalen 1 ac adran Nodiadau **datganiad ystadegol Rhagfyr 2017, blog y Prif Ystadegydd** a'r **datganiad i'r wasg** ar 6 Rhagfyr 2017, oll gan Lywodraeth Cymru, am drafodaeth bellach ar wneud cymariaethau rhwng blynyddoedd. Mae newidiadau eraill yn 2017 yn cynnwys yr arholiadau cyntaf yn dilyn manylebau newydd ar gyfer TGAU Cymraeg, Saesneg a Mathemateg (gan gynnwys Rhifedd Mathemateg am y tro cyntaf) a diystyru Llenyddiaeth Gymraeg a Saesneg at ddibenion trothwy cynwysedig Lefel 2.
- iii) Mae data 2016 a 2017 yn seiliedig ar y garfan o ddisgyblion ym Mlwyddyn 11. Mae data blynyddoedd blaenorol yn seiliedig ar ddisgyblion 15 oed ar ddechrau'r flwyddyn academaidd.

157. O'r data hwn, gellir gweld bod y bwlch cyrhaeddiad rhwng y rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r rhai nad ydynt yn gymwys wedi dechrau cau cyn i'r Grant Datblygu Disgyblion gael ei gyflwyno ac yn parhau i gulhau ar ôl hynny, tan 2017 pan ddiwygiwyd mesurau perfformiad Cyfnod Allweddol 4.

158. Roedd yr ehangu yn y bwlch yn 2017 yn fwy ar gyfer trothwy Lefel 2 na'r trothwy cynwysedig Lefel 2. Lleihaodd y bwlch rhwng cyfran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r disgyblion nad ydynt yn gymwys o 34.3 pwynt canran yn 2010 i 17.4 yn 2016, ond dyblodd bron i 32.2 pwynt canran yn 2017.

159. Mae Llywodraeth Cymru wedi pwysleisio na fyddai cymariaethau rhwng 2017 a blynyddoedd blaenorol yn ystadegol gadarn oherwydd y newidiadau yn y modd

y cofnodir y mesurau perfformiad.⁸⁴ Fodd bynnag, nid yw hyn ynddo'i hun yn esbonio pam mae'r newidiadau wedi effeithio i raddau mwy ar ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi cydnabod bod disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim wedi bod yn llai abl i wrthsefyll y newidiadau a bod Llywodraeth Cymru yn ymchwilio i'r rhesymau dros hyn.⁸⁵

160. At hynny, ehangodd y bwlch cyrhaeddiad mewn TGAU Saesneg a Mathemateg rhwng disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r rhai nad ydynt yn gymwys yn 2017 ar ôl cynnydd o flwyddyn i flwyddyn tuag at gau'r bwlch. Ni ellir esbonio hyn gan y pwysoliad is ar gyfer cymwysterau galwedigaethol yn y mesurau trothwy Lefel 2 ynddo'i hun, er ei bod yn bosibl bod y manylebau newydd ar gyfer y ddau bwnc yn 2017 wedi cyfrannu at hyn. Fodd bynnag, roedd cyrhaeddiad mewn TGAU Cymraeg (laith Gyntaf) yn mynd yn groes i'r duedd hon a gwelwyd y bwlch cyrhaeddiad rhwng y rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r rhai nad ydynt yn gymwys yn lleihau yn 2017.

161. Mae TGAU Gwyddoniaeth yn enghraifft benodol gan i'r bwlch mewn cyrhaeddiad ar gyfer graddau A*-C, neu gymwysterau galwedigaethol cyfwerth, rhwng y rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r rhai nad ydynt yn gymwys ehangu o 15.0 pwynt canran yn 2016 i 24.0 yn 2017.⁸⁶ Mae Llywodraeth Cymru wedi cymryd camau i fynd i'r afael â lefelau uchel y rhai sy'n sefyll BTEC Gwyddoniaeth yn hytrach na TGAU drwy ddiystyru cymwysterau Gwyddoniaeth galwedigaethol o'r mesur perfformiad Pwyntiau wedi'u Capio o 2018 ymlaen. Mae'r ffaith bod ysgolion yn rhagweld y newid hwn, ynghyd â'r diwygiadau yn 2017 i fesurau trothwy Lefel 2, yn debygol o fod wedi effeithio ar batrymau arholiadau disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn arbennig a'u cyflawniad mewn Gwyddoniaeth yn sgil hynny.

Barn rhanddeiliaid

Effaith y Grant Datblygu Disgyblion ar gyrhaeddiad hyd at 2016

162. Roedd gwerthusiad Ipsos MORI a WISERD ond yn canolbwyntio ar effaith y Grant Datblygu Disgyblion ar gyrhaeddiad hyd at haf 2015, oherwydd y cyfnod y cynhaliwyd y gwerthusiad. Daeth i'r casgliad a ganlyn:

⁸⁴ Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, [Llythyr at y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 9 Mawrth 2018](#)

⁸⁵ Tystiolaeth lafar, Cofnod y Trafodion [paragraffau 56 a 62] [22 Mawrth 2018](#)

⁸⁶ Y Gwasanaeth Ymchwil, [Data Cyflawniad Cyfnod Allweddol 4](#) (Chwefror 2018)

“Er bod y bwlch cyrhaeddiad rhwng disgyblion eFSM ac nad ydynt yn FSM yn parhau i fod yn ystyfnig o fawr ar ddiwedd CA2, mae yna dystiolaeth fod hyn yn dechrau gwella a bod llawer o'r gwelliant yma yn ymddangos i fod wedi digwydd yn dilyn cyflwyno'r GAD. (...)”

Er gwaethaf y canlyniadau cymysg ar draws gwahanol fesurau, mae yna bellach batrwm yn dod i'r amlwg o lwyddiant yn lleihau “effaith” bod yn gymwys am brydau ysgol am ddim ar fesurau cynnydd addysgol rhwng CA2 a CA4 mewn Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth.”⁸⁷

163. Hefyd, tynnodd Ipsos MORI a WISERD sylw at y ffaith bod y bwlch cyrhaeddiad yn y graddau uchaf (A*-A) rhwng disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r rhai nad ydynt yn gymwys yn fwy na'r bwlch cyrhaeddiad ar gyfer graddau A*-C:

“Mae hyn yn dangos fod y gwahaniaeth rhwng disgyblion eFSM ac nad ydynt yn FSM [yn cyflawni graddau A*-A mewn pynciau TGAU craidd] yn sylweddol fwy nac y mae ar gyfer cyflawni graddau C neu uwch. Er enghraifft, yn 2015 cyflawnodd 20.7 y cant o ddisgyblion nad ydynt yn FSM radd A/A* mewn TGAU Cymraeg/Saesneg o gymharu â 5.8 y cant o ddisgyblion eFSM – mae disgyblion nad ydynt yn FSM bron i bedair gwaith yn fwy tebygol i gyflawni'r graddau uchaf na disgyblion eFSM. Fel y dengys Ffigwr 7.3 mae hyn yn amlwg wedi newid ers 2011. Mae'r darlun yn debyg ar gyfer TGAU Mathemateg.”⁸⁸

164. Cyfeiriodd Eiriolwr Codi Safonau Ysgolion, Syr Alasdair Macdonald, yn ei dystiolaeth lafar at anhawster pennu amcan cymharol megis cau'r bwlch rhwng disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r rhai nad ydynt yn gymwys, yn hytrach nag amcan absoliwt o wella perfformiad disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim ynddo'i hun:

“If you take up to 2016, there was a narrowing of the gap. It wasn't massive, but what there was a massive improvement in the percentage of pupils from an eFSM background who were achieving that. So, if you put it diagrammatically, very simply, what we want is everyone going up but the eFSM kids going up faster, and that's happening to some extent, but what is happening is that the eFSM kids are doing much,

⁸⁷ Ipsos Mori a WISERD, Gwerthusiad o'r Grant Amddifadedd Disgyblion: Adroddiad terfynol – Rhagfyr 2017, paragraffau 7.22 a 122

⁸⁸ Ipsos Mori a WISERD, Gwerthusiad o'r Grant Amddifadedd Disgyblion: Adroddiad terfynol – Rhagfyr 2017, paragraffau 7.25

much better. I think if you compare 2009 with 2016—I think, in 2009, only 20 per cent of our FSM kids were getting level 2 inclusive. By 2016, that was 35 per cent. Now, I think that's a significant improvement. Unfortunately, fortunately, the rest of the kids were also improving, so the narrowing bit becomes incredibly difficult.”⁸⁹

165. Amlygodd Syr Alasdair Macdonald hefyd fod cyrhaeddiad disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim wedi gwella hyd at 2016. Daleuodd er nad yw'r bwlch wedi cau'n ddigon cyflym, roedd y ffaith bod cyrhaeddiad disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim wedi gwella yn bwysig. Nododd hefyd yr hyn a alwodd yn lefel uchel iawn o ddiben moesol ymhlith athrawon sydd, meddai, oll yn gefnogol i'r Grant Datblygu Disgyblion oherwydd ei fod yn cyd-fynd â'u hymrwymiad galwedigaethol drwy ddweud eu bod am i bob plentyn gael cyfle cyfartal.⁹⁰

166. Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, nododd Estyn:

“Performance of disadvantaged pupils, at all key stages, has improved since the introduction of the PDG. However, the performance gap between eFSM pupils and other pupils has not closed significantly at any stage of learning. (...)

Whilst the performance gap between disadvantaged pupils and others has reduced slightly at most phases of learning, the gap is only slightly smaller now in Key Stage 4 than it was in 2011. There continues to be a strong link between achievement and the level of entitlement to free school meals in secondary schools.”⁹¹

167. Dywedodd Prif Arolygydd EM wrth y Pwyllgor na fu newid sylweddol o ran cau'r bwlch, a daeth i'r casgliad mai'r rheswm am hyn oedd y ffaith bod y rhain yn heriau ac yn rhwystrau cymdeithasol mawr a wynebier gan y bobl ifanc hyn. Dywedodd:

“Schools can do a certain amount, and of course they must do a certain amount, but to have a step change you do need to engage with the learners, with the parents and with the community and that's why the more successful schools do actually succeed—it's because they do that.

⁸⁹ Tystiolaeth lafar, Cofnod y Trafodion [paragraff 512], **8 Mawrth**

⁹⁰ Tystiolaeth lafar, Cofnod y Trafodion [paragraff 514], **8 Mawrth**

⁹¹ Tystiolaeth ysgrifenedig, **TF.11 – Estyn**

So, I think more of a push on that area at a national level would be welcome.”⁹²

168. Gofynnodd y Pwyllgor i Brif Arolygydd EM beth fyddai Estyn yn ei ystyried yn lleihad sylweddol yn y bwlch cyrhaeddiad rhwng y rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r rhai nad ydynt yn gymwys. Dywedodd yr arolygiaeth, o ystyried y gwahaniaethau sylweddol yng nghyd-destunau ysgolion unigol ledled Cymru, ei bod yn anodd mesur cynnydd sylweddol tuag at gau'r bwlch.⁹³ Cyfeiriodd Estyn at Ysgol Uwchradd Fitzalan yng Nghaerdydd ac Ysgol Gymunedol Cefn Hengoed yn Abertawe fel dwy ysgol uwchradd a oedd wedi llwyddo i gau'r bwlch cyrhaeddiad.⁹⁴

169. Cydnabu EAS fod cyflymder y gwelliant ar gyfer dysgwyr sy'n agored i niwed, yn enwedig yng Nghyfnod Allweddol 4, yn dal yn rhy araf ac yn rhy amrywiol. Dywedodd Ed Pryce, Arweinydd Strategol a Pholisi Gwasanaeth EAS wrth y Pwyllgor:

“If I look first of all at the foundation stage, key stage 2 and key stage 3, the gap has closed. There are marginal improvements in those areas. Key stage 4 is the area where we still have further work to do to close that gap. It did close last year, but there's further work there. (...)

We're not satisfied in that, currently—and this reflects across Wales and the EAS—the proportion is half of eFSM learners who achieve relative to their non FSM peers. Our targets for the next three years are to [narrow] that in every year. So, no, we're not satisfied with the progress yet at key stage 4.”⁹⁵

Yr effaith yn sgil newidiadau i fesurau perfformiad a chyrhaeddiad yn 2017

170. Dywedodd consortiwm Canolbarth y De (CSW) fod y newidiadau mewn mesurau perfformiad yn ymddangos fel pe baent wedi cael effaith anghymesur ar ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim.⁹⁶ Dywedodd Prif Arweinydd CSW ar gyfer Profiadau Addysgu a Dysgu, Debbie Lewis, wrth y Pwyllgor:

“I think for 2012 to 2016, we were making very good progress with our children who were eligible for free school meals and their

⁹² Tystiolaeth lafar, Cofnod y Trafodion [para 81], 14 Mawrth 2018.

⁹³ Estyn, Gwybodaeth ychwanegol yn dilyn y cyfarfod ar 14 Mawrth 2018.

⁹⁴ Gellir dod o hyd i ddata cyrhaeddiad ar lefel ysgol ar y wefan Fy Ysgol Leol.

⁹⁵ Tystiolaeth lafar, Cofnod y Trafodion [paragraffau 216 a 236], 8 Mawrth 2018.

⁹⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig, TF 07 – CSW

performance—our dip was in 2017. You've particularly mentioned level 2 plus key stage 4, and part of that was that our most vulnerable children find changing and adapting quite difficult, with low self-esteem, and perhaps, with some of the changes that the schools were well prepared for, with the measures et cetera and qualifications, I think our most vulnerable children found those changes, from our analysis of data, quite challenging.”⁹⁷

171. Cyfeiriodd Ms Lewis hefyd at heriau penodol a wynebwr gan ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim o ran y modd y cyflwynwyd papurau arholiad yn 2017, a allai fod wedi deillio o'r manylebau newydd ar gyfer cymwysterau TGAU:

“If [pupils'] functional literacy was low, they found it very difficult to access some of the papers last year.”⁹⁸

172. Ymhelaethodd ERW ar hyn, gan gyfeirio at gwestiwn ynghylch Masnach Deg yn y papur TGAU Saesneg Iaith, a oedd yn eithaf anodd i ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim fynd i'r afael ag ef.⁹⁹

173. Dywedodd EAS wrth y Pwyllgor fod y gostyngiad amlwg yn lefelau perfformiad disgyblion mewn TGAU Gwyddoniaeth, er enghraifft, i'w briodoli i raddau helaeth i symud i lai o bwyslais ar gymwysterau galwedigaethol. Dywedodd Ed Pryce, Arweinydd Strategol a Pholisi Gwasanaeth EAS wrth y Pwyllgor:

“The science change is because a number of schools have made a decision to move to GCSEs a year earlier than they actually need to for recording purposes, to prepare for those, rather than continue with BTECs and other vocational qualifications for an additional year. We've seen quite a variation when we've analysed across our schools. Those who've kept those vocational qualifications for another year have sustained those results. Those who've moved to GCSE haven't.”¹⁰⁰

174. Cadarnhaodd EAS hyn drwy ddarparu data yn dilyn eu tystiolaeth lafar ar berfformiad pob ysgol mewn Gwyddoniaeth, wedi'u dadansoddi yn ôl canlyniadau TGAU a BTEC. Dangosodd hyn fod ysgolion yn Ne-ddwyrain Cymru, a

⁹⁷ Tystiolaeth lafar, Cofnod y Trafodion [paragraff 84], 8 Mawrth

⁹⁸ Tystiolaeth lafar, Cofnod y Trafodion [paragraff 86], 8 Mawrth

⁹⁹ Ibid, paragraff 87 ac ERW, Gwybodaeth ychwanegol yn dilyn y cyfarfod ar 8 Mawrth 2018

¹⁰⁰ Tystiolaeth lafar, Cofnod y Trafodion [paragraff], 8 Mawrth 2018

newidiodd i gymhwyster TGAU yn unig yn 2017, wedi gweld gostyngiad o 26.3 pwynt canran mewn graddau A*-C. Ar y llaw arall, pan ystyrir pob ysgol (gan gynnwys y rhai sydd wedi parhau â chymwysterau galwedigaethol) roedd cynnydd cyfartalog cyffredinol o 8.9 pwynt canran yn rhanbarth EAS mewn cyfradd adrodd ysgolion ar Wyddoniaeth.¹⁰¹

175. Tynnodd Estyn sylw at effeithiau camddefnyddio mesurau perfformiad posibl a'r angen i lunio fframwaith atebolrwydd mwy cynaliadwy nad yw'n tynnu sylw ysgolion na'n arwain at ganlyniadau anfwriadol. Dywedodd Prif Arolygydd EM wrth y Pwyllgor:

"I think there's a growing realisation that secondary schools, key stage 4, is driven overly by performance indicators, and, whatever performance indicator you come up with, there will be unintended consequences. (...)

So, I think the previous performance indicators encouraged schools to enter, for example, whole cohorts to do BTEC science, and that's not a good idea because the GCSE sciences are better preparation to go on to A-level science, for example. So, you're cutting out the possibility of progression for those pupils. On the other hand, by discouraging—the new performance indicators discourage BTEC and now people are saying, 'We're not offering BTEC at all', and it is suitable for a certain cohort of pupils. (...)

What needs to be done is to have a different approach to accountability that doesn't put so much attention on these performance indicators, because what you're doing is you're just moving the problem around by changing the performance indicators."¹⁰²

176. Dywedodd Eiriolwr Codi Safonau Ysgolion Llywodraeth Cymru, Syr Alasdair Macdonald, wrth y Pwyllgor y dylid rhoi canlyniadau 2017 i'r naill ochr wrth ddadansoddi tueddiadau o ran cau'r bwlch cyrhaeddiad. Dywedodd fod ganddo farn gref ynghylch yr hyn a ddigwyddodd yr haf diwethaf, gan ddweud bod newidiadau yn 2017 wedi cael effaith wahaniaethol ar ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Cyfeiriodd Syr Alasdair at y nifer a safodd arholiad Gwyddoniaeth yng Nghyfnod Allweddol 4, adborth anecdotaidd gan benaethiaid bod geiriad papurau arholiad yn fwy heriol, hyd yn oed o fewn papurau Mathemateg, a:

¹⁰¹ EAS, Gwybodaeth ychwanegol yn dilyn y cyfarfod ar 8 Mawrth 2018.

¹⁰² Tystiolaeth lafar, Cofnod y Trafodion [paragraffau 92-93], 14 Mawrth 2018.

“Whenever you change something like that—and there were some quite significant changes—then I think, probably, you could have predicted that that would be more likely to have a greater impact on the young people who, again, depend more heavily on the school or the teacher without that additional support from home.”¹⁰³

177. Dywedodd Syr Alasdair Macdonald hefyd:

“At another level, I have a major concern about last summer, which is that, overall, everything went down by about 5 or 6 per cent. I don’t believe that last year’s 16-year-olds, 5 or 6 per cent of them, were of lower ability than the year before. So, I would have some questions to ask of the exam boards, in a sense, as to how they can explain the fact that this cohort of 35,000 young people—or something like 35,000—how they explain the fact that, this year, they appear to be less able than the year before. (...)”

The children are working really hard. The staff are working really hard. I think I was quite shattered, because I felt I’d seen so much really fantastic stuff going on, and then the results went down, and they went down particularly for the disadvantaged kids, and I wanted to say, ‘Why? Why were there 6 per cent fewer kids who’d passed?’¹⁰⁴

Safbwynt Ysgrifennydd y Cabinet

178. Pwysleisiodd Ysgrifennydd y Cabinet y cynnydd a wnaethpwyd o ran gwella cyrhaeddiad disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a chau’r bwlch rhyngddynt a’u cyfoedion, gan nodi ei barn am rôl y Grant Datblygu Disgyblion yn hyn o beth.

“If we look at the period that we have been employing PDG, over that period, we have seen a narrowing of the gap. (...) If we look at where we started from: in 2009, one in five children on free school meals got level 2 plus—one in five—by 2016, we had got that down to one in three. Obviously, there’s still a way to go, but, Sir Alasdair, who knows about these things, says that that is a significant improvement.”¹⁰⁵

179. Fel y nodwyd ar ddechrau’r bennod hon, safbwynt Llywodraeth Cymru yw nad oes modd cymharu data 2017 ar fesurau perfformiad trothwy Lefel 2 a

¹⁰³ Tystiolaeth lafar, Cofnod y Trafodion [paragraff 525], 8 Mawrth 2018

¹⁰⁴ Tystiolaeth lafar, Cofnod y Trafodion [paragraff 526], 8 Mawrth 2018

¹⁰⁵ Tystiolaeth lafar, Cofnod y Trafodion [paragraff 56], 22 Mawrth 2018

throthwy cynwysedig Lefel 2 â blynyddoedd blaenorol, oherwydd y newidiadau yn y ffordd y maent wedi'u cofnodi nawr. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg yn ei thystiolaeth ysgrifenedig i'r Pwyllgor:

“[Y] dystiolaeth flaenllaw, a chyingor y Prif Ystadegydd, yw na fyddai unrhyw gymhariaeth o wybodaeth bennawd â data blynyddoedd blaenorol yn gadarn yn ystadegol. Y newidiadau sylweddol i fesurau perfformiad yn 2017 a'u heffaith yw'r rheswm pam nad yw cymharu'n bosibl a pham na fydd dadansoddiad 'tuedd' yn ystyrlon tan y bydd gennym ddata mwy cymaradwy.”¹⁰⁶

180. Fodd bynnag, cydnabu Ysgrifennydd y Cabinet, er nad oes modd cymharu data rhwng blynyddoedd, nid yw hyn ynddo'i hun yn esbonio pam y mae'r bwlch rhwng disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r rhai nad ydynt yn gymwys wedi ehangu:

“If you look at it—with the usual caveats about whether you can make direct comparisons on level 2 plus between the exams the year before and the exams that we had last summer—on the face of it, the gap has increased. (...)

Last year, we got some challenges. We need to understand why that happened... (...)

We continue to have discussions with Qualifications Wales to get a better understanding of this. At my next ministerial policy board, in May [2018], we'll be doing a deep dive into this particular subject.”

181. Yn ystod y gwaith craffu ar y gyllideb ym mis Tachwedd 2017, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrth y Pwyllgor ei bod hi wedi gofyn i'w swyddogion gynnal adolygiad manwl o pam mae'r newidiadau i fesurau perfformiad yn 2017 wedi effeithio'n anghymesur ar ddysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Rhoddodd ganlyniadau hyn i'r Pwyllgor fel rhan o'i thystiolaeth ysgrifenedig i'r ymchwiliad hwn.¹⁰⁷ Mae ystadegau Ysgrifennydd y Cabinet a'r sylwadau sy'n cydfynd â hwy yn awgrymu tri phrif bwynt:

- Mae'r ffaith bod y bwlch cyrhaeddiad rhwng y rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r rhai nad ydynt yn gymwys wedi ehangu ar drothwy Lefel 2 i'w briodoli'n rhannol i'r cap ar gymwysterau

¹⁰⁶ Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, Llythyr at y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, **9 Mawrth 2017**

¹⁰⁷ Tystiolaeth lafar, Cofnod y Trafodion [paragraffau 56 a 60], **22 Mawrth 2018**

galwedigaethol wrth gofnodi'r mesur (oherwydd cyn 2017, roedd disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn fwy tebygol o gymryd cymwysterau galwedigaethol na disgyblion nad ydynt yn gymwys.)

- Mae'r cynnydd llai yn y bwlch ar drothwy cynwysedig lefel 2 i'w briodoli i ddileu llenyddiaeth Saesneg/Cymraeg o'r dull o gofnodi'r trothwy, yn hytrach na'r cap ar gymwysterau galwedigaethol.
- Mae'r gostyngiad ym mherfformiad disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim mewn Gwyddoniaeth yn 2017 a'r ffaith bod y bwlch wedi ehangu'n sylweddol rhyngddynt a disgyblion nad ydynt yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim i'w briodoli i newid o gymhwyster Gwyddoniaeth galwedigaethol i TGAU wrth i ysgolion ragweld y mesurau perfformiad newydd. Dangosodd ystadegau Llywodraeth Cymru y bu cynnydd o 23.4 pwynt canran yn y gyfran o ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim sy'n sefyll o leiaf un TGAU mewn Gwyddoniaeth rhwng 2016 a 2017 (o 53.5 y cant i 76.8 y cant. Ar yr un pryd, cafwyd cynnydd o 12.1 pwynt canran ymhlith disgyblion nad ydynt yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim (o 77 y cant i 89.8 y cant).

182. Pan ofynnodd y Pwyllgor pam, yng ngeiriau Ysgrifennydd y Cabinet ei hun, bod disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim wedi bod yn llai gwydn yn 2017, atebodd:

"There is no one answer to this. (...)

What I think is important is that there is no one, single reason why there seems to be less resilience in this cohort of children."¹⁰⁸

183. Mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi dweud y bydd Llywodraeth Cymru yn mabwysiadu mesurau perfformiad newydd, cyfres o fesurau mwy deallus sy'n adlewyrchu'n well sut mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu sicrhau dwyn ysgolion i gyfrif am berfformiad yng Nghyfnod Allweddol 4. Bydd hyn yn golygu na fydd Llywodraeth Cymru yn cadw at y targed a bennwyd yn strategaeth Ailysgrifennu'r Dyfodol, a gyhoeddwyd yn 2014, i 37 y cant o ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim gyflawni trothwy cynwysedig Lefel 2 gan ei bod yn symud i ffwrdd o hyn fel mesur perfformiad. Pan ofynnwyd sut y byddai Llywodraeth Cymru yn mesur cynnydd, dywedodd Kirsty Williams wrth y Pwyllgor:

¹⁰⁸ Tystiolaeth lafar, Cofnod y Trafodion [paragraff 58], 22 Mawrth 2018

“When we announce our new accountability measures, I will be in a position to address how we’ll measure the Government’s performance, and national performance, going forward. But, given the fact that we’re moving away from level 2 plus, then we will need a different set of performance indicators.”¹⁰⁹

184. Ar 17 Mai 2018, pan gyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet fesurau perfformiad “interim” newydd a fydd yn dod i rym yn y flwyddyn academaidd 2018/19, dywedodd eu bod wedi’u cynllunio i symud oddi wrth y “ffocws cul ar ddisgyblion sydd ar y ffin rhwng C a D sydd wedi datblygu o ganlyniad i’r defnydd o fesurau a throthwyon yn y gorffennol” tuag at nodi cyflawniad disgyblion ar bob gradd.¹¹⁰ Fel y nodir ym mharagraff 153, bydd sgôr pwyntiau “Cap 9” wedi’i diweddarau yn disodli trothwy cynwysedig Lefel 2 fel prif fesur perfformiad ysgol, a fydd yn sgorio graddau TGAU yn wahanol (bydd gradd A yn werth mwy na gradd B ac ati) fel rhan o gyfres o ddangosyddion.

Barn ac argymhellion y Pwyllgor

185. Mae safbwyntiau’r Pwyllgor ar effaith y Grant Datblygu Disgyblion ar gyrhaeddiad yn cael eu mynegi mewn dau gyd-destun, yn gyntaf o ran tueddiadau hyd at a chan gynnwys 2016 ac yn ail yng ngoleuni canlyniadau 2017 a oedd yn seiliedig ar fesurau perfformiad diwygiedig. Mae’r adroddiad hwn hefyd yn cynnig barn ac argymhellion ar y mater ehangach o fesurau perfformiad ac atebolrwydd ysgolion, y mae’r ymchwiliad hwn wedi tynnu sylw’r Pwyllgor ato.

7. 1. Cyrhaeddiad hyd at 2016

186. Mae’r Pwyllgor yn croesawu’r cynnydd a wnaed tuag at gau’r bwlch rhwng cyrhaeddiad disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a disgyblion nad ydynt yn gymwys. Cynyddodd cyfran y disgyblion sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim sy’n cyrraedd y trothwy cynwysedig lefel 2 o 23.4 y cant yn 2012, y flwyddyn y cyflwynwyd y Grant Datblygu Disgyblion, i 35.6 y cant yn 2016. Ar yr un pryd, cododd y gyfran y disgyblion nad ydynt yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim sy’n cyrraedd y trothwy cynwysedig Lefel 2 o 56.6 y cant i 66.8 y cant, sy’n golygu bod y bwlch cyrhaeddiad rhwng y rhai sy’n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a’r rhai nad ydynt yn gymwys wedi lleihau o 33.2 i 31.2 pwynt canran.

187. O ystyried maint y buddsoddiad a wnaed yn y Grant Datblygu Disgyblion, efallai y gellid bod wedi disgwyl i’r bwlch leihau ymhellach, ond yn amlwg, nid ar

¹⁰⁹ Tystiolaeth lafar, Cofnod y Trafodion [paragraff 78], 22 Mawrth 2018

¹¹⁰ Datganiad Kirsty Williams 17 Mai 2018

draul gwelliannau ymhlith disgyblion nad ydynt yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Er enghraifft, dywedodd Estynna fu newid sylweddol. Fodd bynnag, fel gydag unrhyw darged cymharol, yn hytrach na tharged absoliwt, mae i ba raddau y mae'r bwlch cyrhaeddiad rhwng y rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r rhai nad ydynt yn gymwys yn lleihau yn dibynnu ar berfformiad y grŵp arall o ddisgyblion. Y peth pwysig yw bod cyfraddau cyflawniad wedi cynyddu ar gyfer y ddau grŵp o ddisgyblion ac ar gyfradd gyflymach ar gyfer disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim.

188. Mae'r Pwyllgor yn nodi'r ffaith y bu mwy o gynnydd tuag at gau'r bwlch cyrhaeddiad ar gyfer trothwy Lefel 2. Cododd cyfran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim sy'n ennill 5 TGAU graddau A*-C, neu gymwysterau galwedigaethol cyfwerth, o 50.9 y cant yn 2012 i 71.6 y cant yn 2016. Cododd cyfran y disgyblion nad ydynt yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim sy'n cyrraedd y trothwy cynwysedig Lefel 2 o 83.0 y cant i 89.0 y cant, sy'n golygu bod y bwlch cyrhaeddiad wedi lleihau o 27.1 i 17.4 pwynt canran.

189. Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r cynnydd a wnaed hyd at 2016 ac mae'n credu ei bod yn debygol bod y Grant Datblygu Disgyblion wedi cyfrannu at hynny. Fodd bynnag, mae canlyniadau 2017 yn rhoi rhywfaint o'r cynnydd hwn mewn cyddestun gwahanol ac yn awgrymu bod cymwysterau galwedigaethol uwch y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn elfen sylweddol o gynnydd ysgolion wrth gau'r bwlch o ran cyrhaeddiad trothwy Lefel 2 cyn 2017. Mae'n debyg y cafwyd rhai canlyniadau anfwriadol yn sgil y mesurau perfformiad, er enghraifft, dewisodd nifer fawr o ddisgyblion ddilyn cymwysterau galwedigaethol er y byddai llwybrau academiaidd wedi bod yn fwy addas mewn sawl achos.

190. O ran asesu effaith y Grant Datblygu Disgyblion hyd at 2016, fel yr amlygwyd gan werthusiad Ipsos MORI a WISERD, roedd y broses o gau'r bwlch eisoes wedi dechrau cyn cyflwyno'r Grant Datblygu Disgyblion, felly mae'n anodd darganfod faint o'r duedd barhaus hon y gellir ei phriodoli i'r Grant Datblygu Disgyblion ei hun. Mae'r Pwyllgor o'r farn y dylai Llywodraeth Cymru ymdrechu i sicrhau bod y Grant Datblygu Disgyblion yn darparu gwerth am arian a dyma yw nod **Argymhelliad 1** (Pennod 3).

7. 2. Cyrhaeddiad yn 2017

191. Mae canlyniadau Cyfnod Allweddol 4 yn 2017 yn peri pryder mawr i'r Pwyllgor. Fel y mae Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg wedi cydnabod, roedd disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn llai abl i wrthsefyll effaith y newidiadau i fesurau perfformiad a chymwysterau TGAU newydd. Er nad yw data

blwyddyn yn ddigon i nodi tueddiadau ystyrlon, mae canlyniadau 2017 yn creu darlun llwm o'r bwlch rhwng y rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r rhai nad ydynt yn gymwys.

192. Gostyngodd y gyfran sy'n cyrraedd trothwy cynwysedig Lefel 2 o 35.6 y cant i 28.6 y cant ymhlith disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim ac o 66.8 y cant i 61.0 y cant ymhlith disgyblion nad ydynt yn gymwys. Golygai hyn, ar ôl blynyddoedd o gynnydd parhaus tuag at gau'r bwlch, ei fod wedi ehangu rhwng 2016 a 2017 o 28.4 i 30.8 pwynt canran.

193. Mae'r sefyllfa hyd yn oed yn fwy pryderus mewn perthynas â throthwy Lefel 2. Gostyngodd cyfran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim o 71.6 y cant yn 2016 i 41.3 y cant yn 2017, ac ar gyfer disgyblion nad ydynt yn gymwys gostyngodd o 89.0 y cant i 73.6 y cant. Mae'r bwlch felly wedi ehangu o 17.4 i 32.3 pwynt canran, y mwyaf ers 2011.

194. Mae'r Pwyllgor yn croesawu bwriad Ysgrifennydd y Cabinet a'i swyddogion i gynnal ymarfer i fynd at wraidd canlyniadau 2017 yng nghyfarfod ei Bwrdd Polisi ym mis Mai 2018 ond mae'n gresynu y bydd hynny'n rhy hwyr i wersi gael eu dysgu a'u rhoi ar waith ar gyfer carfan 2018.

Argymhelliad 13. Dylai Llywodraeth Cymru ymchwilio ar fyrder i'r rheswm pam mae'r bwlch cyrhaeddiad rhwng y rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r rhai nad ydynt yn gymwys wedi ehangu yn 2017 a dysgu gwersi o hyn cyn gynted â phosibl a'u rhoi ar waith. Dylai hyn ganolbwyntio ar oblygiadau'r newidiadau i fesurau perfformiad yn 2017 a sut mae'r Grant Datblygu Disgyblion yn cael ei ddefnyddio i wella gallu disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn wyneb newidiadau o'r fath.

7. 3. Mesurau perfformiad Cyfnod Allweddol 4

195. Mae ystyriaeth y Pwyllgor o effaith y Grant Datblygu Disgyblion ar gyrhaeddiad disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn 2017 wedi peri i ni edrych yn fanylach ar fesurau perfformiad Cyfnod Allweddol 4 a goblygiadau newidiadau Llywodraeth Cymru yn 2017. Heb edrych yn fanylach ar y rhain, gellid cael yr argraff na chafodd y Grant Datblygu Disgyblion fawr ddim effaith yn 2016/17 oherwydd bod y bwlch cyrhaeddiad, yn ôl y mesurau trothwy Lefel 2, wedi ehangu.

196. Yn ddiau, mae'r gydnabyddiaeth is a roddwyd i gymwysterau galwedigaethol o fewn mesurau perfformiad trothwy Lefel 2 a throthwy cynwysedig Lefel 2 wedi bod yn ffactor sydd wedi cyfrannu at ehangu'r bwlch cyrhaeddiad rhwng y rhai

sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r rhai nad ydynt yn gymwys yn 2017. Dangosir hyn yn arbennig gan gyfradd cyrhaeddiad Graddau A*-C ar gyfer TGAU Gwyddoniaeth, a ostyngodd o 71.8 y cant i 57.1 y cant rhwng 2016 a 2017 ymhlith disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim ac o 86.8 y cant i 81.1 y cant ar gyfer disgyblion nad ydynt yn gymwys.

197. Felly, mae'r bwlch cyrhaeddiad mewn TGAU Gwyddoniaeth rhwng y rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r rhai nad ydynt yn gymwys wedi ehangu o 15.0 y cant yn 2016 i 24.0 y cant yn 2017. Er bod BTEC Gwyddoniaeth yn dal i gael ei gydnabod yn y mesurau perfformiad yn 2017 (am y tro diwethaf cyn y newidiadau yn 2018), newidiodd y nifer a oedd yn sefyll arholiadau o BTEC i TGAU gan fod ysgolion yn rhagweld y newid ynghyd â'r newidiadau i fesurau trothwy Lefel 2. Effeithiodd hyn ar ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim i raddau mwy na disgyblion eraill.

198. Dangosodd y wybodaeth a ddarparwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet fod cyfran y disgyblion a oedd yn sefyll o leiaf un arholiad TGAU mewn Gwyddoniaeth wedi codi rhwng 2016 a 2017 o 53.5 y cant i 76.8 y cant ymhlith disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim ac o 77.7 y cant i 89.8 y cant ar gyfer disgyblion nad ydynt yn gymwys. Roedd hyn yn dilyn gostyngiad ymysg disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim o 58.5 y cant yn 2013 i 53.5 y cant yn 2016.¹¹¹

199. Mae'n amlwg i'r Pwyllgor felly bod y nifer fwy o ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim sy'n sefyll arholiadau ar gyfer cymwysterau galwedigaethol megis Gwyddoniaeth wedi cyfrannu at gau'r bwlch cyrhaeddiad hyd at 2016. Yn dilyn hynny, wrth i fesurau perfformiad Llywodraeth Cymru roi'r gorau i gydnabod cymwysterau galwedigaethol yng Nghyfnod Allweddol 4 i'r un graddau, mae hyn wedi arwain at ehangu'r bwlch unwaith eto yn 2017. Bydd y Pwyllgor yn monitro'r hyn sy'n digwydd yn 2018 yn fanwl.

200. Cred y Pwyllgor mai cymwysterau galwedigaethol yn hytrach na TGAU, a Gwyddoniaeth yn fwyaf nodedig, yw'r opsiwn mwyaf addas i rai disgyblion. Fodd bynnag, dim ond pan fydd hynny er budd gorau'r disgybl y dylai ysgolion wneud penderfyniadau o'r fath, nid oherwydd bod hynny'n helpu ysgol i wella ei pherfformiad yn erbyn mesurau atebolrwydd.

201. Os yw'n gwella'r opsiynau cywir i ddysgwyr, mae penderfyniad Llywodraeth Cymru i atal ysgolion rhag cyflwyno gormod o ddisgyblion ar gyfer cymwysterau

¹¹¹ Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, Llythyr at y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 9 Mawrth 2018

galwedigaethol yng Nghyfnod Allweddol 4 i'w ganmol. Fodd bynnag, efallai y bydd canlyniadau anfwriadol oherwydd efallai y bydd ysgolion yn llai tueddol o gyflwyno disgybl ar gyfer cymhwyster galwedigaethol hyd yn oed mewn achosion lle mae hynny er eu budd gorau.

Argymhelliad 14. Er bod y Pwyllgor yn croesawu'r camau gan Ysgrifennydd y Cabinet i annog disgyblion mewn modd mwy priodol ar gyfer cymwysterau yng Nghyfnod Allweddol 4, dylai Llywodraeth Cymru ymchwilio i unrhyw ganlyniadau anfwriadol ac effeithiau andwyol ar ddisgyblion, gan gynnwys disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, sydd mewn perygl o fethu â gallu astudio cymwysterau galwedigaethol hyd yn oed os dyma sydd fwyaf addas ar eu cyfer. Dylai Llywodraeth Cymru adrodd yn ôl i'r Pwyllgor erbyn diwedd 2018.

Argymhelliad 15. Er bod y Pwyllgor yn deall y rhesymeg dros benderfyniad Llywodraeth Cymru i adolygu mesurau perfformiad Cyfnod Allweddol 4 yn 2017 a 2018, dylai Ysgrifennydd y Cabinet fyfyrion ofalus ar y neges y mae hyn yn ei chyfleu ynglŷn â gwerth cymwysterau galwedigaethol yn hytrach na chymwysterau cyffredinol, yn enwedig o ystyried ymrwymiad Llywodraeth Cymru i barch cydradd. Dylai Llywodraeth Cymru adrodd yn ôl i'r Pwyllgor erbyn diwedd 2018.

202. Mae'r Pwyllgor yn pryderu bod y newidiadau i fesurau perfformiad Cyfnod Allweddol 4 wedi cael effaith annheg ac anffafriol ar garfan 2017, yn enwedig ar ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. O gofio na fydd y mesurau interim newydd ar waith tan 2018/19, mae'r Pwyllgor yn pryderu bod perygl i garfanau haf 2018 ddioddef hefyd. Disgwylwn fod Llywodraeth Cymru wedi rhoi sylw dyledus i hyn a chymryd camau i leihau'r fath berygl. Mae'n ymddangos bod y newidiadau wedi cael effaith debyg ar Blant sy'n Derbyn Gofal. Trafodir hyn yn adran 8.2 o'r adroddiad hwn.

203. Mae'r Pwyllgor yn nodi cyhoeddiad Ysgrifennydd y Cabinet ar 17 Mai 2018 ynglŷn â mesurau perfformiad interim newydd ar gyfer Cyfnod Allweddol 4 o 2018/19 ymlaen. O gofio'r ystumio a achoswyd gan y diwygiadau i fesurau perfformiad yn 2017 a'r newidiadau yn eu sgil i batrymau ysgolion o ran cyflwyno disgyblion ar gyfer cymwysterau, mae angen i Lywodraeth Cymru ystyried yn ofalus oblygiadau'r mesurau perfformiad a bennir ganddi yng Nghyfnod Allweddol 4 ac unrhyw ganlyniadau anfwriadol posibl.

204. Mae'r Pwyllgor hefyd yn galw ar Ysgrifennydd y Cabinet i sicrhau bod mesurau perfformiad a threfniadau atebolrwydd ysgolion yn y dyfodol yn rhoi ystyriaeth lawn i amcan Llywodraeth Cymru o gau'r bwlch cyrhaeddiad rhwng

disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a disgyblion nad ydynt yn gymwys.

Argymhelliad 16. Dylai Llywodraeth Cymru nodi pa gamau a gymerwyd ganddi i leihau unrhyw effaith andwyol bosibl ar garfan haf 2018, yn enwedig disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a Phlant sy'n Derbyn Gofal, yn sgil y newidiadau i fesurau perfformiad yn 2017 a 2018.

Argymhelliad 17. Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi unrhyw asesiad effaith a gynhaliwyd ganddi ynghylch ei phenderfyniad i newid mesurau perfformiad Cyfnod Allweddol 4 o 2018/19. Os na chynhaliwyd unrhyw asesiad effaith, dylai Llywodraeth Cymru esbonio'r sail resymegol am hyn.

Argymhelliad 18. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau na fydd ei mesurau perfformiad interim newydd o 2019 ymlaen ar gyfer ysgolion yng Nghyfnod Allweddol 4 yn arwain at unrhyw ganlyniadau anfwriadol na goblygiadau penodol i garfanau penodol o ddisgyblion, gan gynnwys carfanau blynyddol sydd ymhlith y disgyblion cyntaf yr effeithir arnynt, Plant sy'n Derbyn Gofal a disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yng ngoleuni'r amcan i gau'r bwlch cyrhaeddiad.

8. Y Grant Datblygu Disgyblion i Blant sy'n Derbynn Gofal

8.1. Gwerthusiad a dull strategol

Y Cefndir

205. Flwyddyn ar ôl ei gyflwyno i ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, estynnwyd y Grant Datblygu Disgyblion i Blant sy'n Derbynn Gofal yn 2013-14. O 2015-16, mae wedi cael ei ddyrannu i gonsortia rhanbarthol yn hytrach nag ar lefel ysgol. Bryd hynny, cafodd cymhwysra ei ymestyn er mwyn ei ddefnyddio i gefnogi plant mabwysiedig hefyd. Mae Llywodraeth Cymru yn dyrannu i'r pedwar consortia £1,150 fesul plentyn y cofrestrwyd ei fod yn derbyn gofal.

206. Bu pryderon hirsefydlog ynglŷn â chyrhaeddiad addysgol disgyblion sy'n Blant sy'n Derbynn Gofal. Yn adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru yn 2012, Cyrhaeddiad addysgol plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal, dywedodd yr Archwilydd Cyffredinol fod "cyrhaeddiad addysgol plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal dipyn yn is na chyrhaeddiad plant eraill". Roedd adroddiad 2012 yn cynnwys pedwar argymhelliad manwl i wneud cynnydd. Mae adran 8.2 o'r adroddiad yn ystyried cyrhaeddiad Plant sy'n Derbynn Gofal.

207. Wrth drafod yr elfen o'r Grant Datblygu Disgyblion sy'n ymwneud â Phlant sy'n Derbynn Gofal, mae'r bennod hon hefyd yn sôn am faterion sy'n berthnasol i'r modd y caiff y Grant Datblygu Disgyblion ei ddefnyddio gyda phlant mabwysiedig yn ogystal â Phlant sy'n Derbynn Gofal. Felly, mae'r bennod a ganlyn yn ymdrin â materion sy'n benodol i blant mabwysiedig.

208. Ni chafodd elfen y Grant Datblygu Disgyblion sy'n ymwneud â Phlant sy'n Derbynn Gofal a phlant mabwysiedig ei chynnwys yng nghylch gwaith y gwerthusiad a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru ac a gyflawnwyd gan Ipsos MORI a WISERD. Daeth yn amlwg o Lythyr Ysgrifennydd y Cabinet i'r Pwyllgor dyddiedig 9 Mawrth 2018 a phapur i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus (cyfarfod 30 Ebrill 2018) fod Llywodraeth Cymru wedi comisiynu ICF Consulting wedyn i werthuso'r Grant Datblygu Disgyblion i Blant sy'n Derbynn Gofal. Cadarnhaodd Ysgrifennydd y Cabinet i'r Pwyllgor y comisiynwyd hyn ym mis Tachwedd 2017 a bod disgwyl i adroddiad gael ei gyhoeddi dros doriad yr haf 2018.¹¹²

¹¹² Tystiolaeth lafar, Cofnod y Trafodion [94-97], 22 Mawrth 2018

209. Mae gwerthusiad ICF Consulting yn edrych ar sut y cafodd y Grant Datblygu Disgyblion ei weithredu a'i reoli gan y consortia yn 2015-16 a 2016-17, gan archwilio pa drefniadau gwahanol sydd ar waith a sut mae'r arian wedi'i wario.

210. Hysbysodd Ysgrifennydd y Cabinet y Pwyllgor fod consortia'n defnyddio'r Grant Datblygu Disgyblion ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal mewn tair ffordd yn fras:

- i ddarparu hyfforddiant penodol megis pecynnau hyfforddiant emosiynol, ymddygiadol ac ymlyniad ar gyfer holl staff ysgolion yn ogystal â gofalmwyr maeth, rhieni/gofalmwyr mabwysiadol a llywodraethwyr ysgol;
- i gefnogi gwaith ysgol-i-ysgol er mwyn meithrin gallu a rhannu arferion da; ac
- i weithredu cynllun bwrsariaeth i ddiwallu anghenion penodol ysgolion, grwpiau neu unigolion yn ôl yr angen.¹¹³

Tystiolaeth rhanddeiliaid

211. Nododd yr Undeb Addysg Genedlaethol fod gan consortia rhanbarthol ddull "hap a damwain" o reoli'r Grant Datblygu Disgyblion ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal:

"Often it is largely down to how proactive a school is in their applications to access the monies rather than any specific considerations on behalf of the regional consortia. Additionally, members have stated that they have been informed on occasion by regional consortia staff that there isn't enough money to share it out fairly for every Looked After Child so the individual school bids will guide the decision process. (...)

Other school leaders within the union have stated that they simply do not know how regional consortia make use of the PDG, which in itself is a damning appraisal of the consortia's approach to both communication about and use of this funding."¹¹⁴

¹¹³ Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, Llythyr at y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 9 Mawrth 2018

¹¹⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig, TF.02 – NEU

212. Mae rhai o sylwadau'r Undeb Addysg Genedlaethol yn cyd-fynd ag adroddiad Estyn ym mis Gorffennaf 2016, *Codi cyrhaeddiad, cyflawniad a dyheadau plant sy'n derbyn gofal - adroddiad arfer orau*, a oedd yn feirniadol o allu'r consortia rhanbarthol i reoli'r Grant Datblygu Disgyblion ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal yn effeithiol.¹¹⁵ Yn ei adroddiad ym mis Gorffennaf 2016 dywedodd Estyn "nid oedd y consortia rhanbarthol mewn sefyllfa dda i benderfynu sut i ddefnyddio'r Grant Datblygu Disgyblion ar gyfer plant sy'n derbyn gofal" ac "nid oedd ganddynt arbenigedd yn y maes hwn, ni wnaethant ymgynghori'n ddigon eang...ac ni wnaethant ddefnyddio'r holl ddata sydd ar gael i lywio eu cynlluniau". O ganlyniad, yn ôl Estyn, "nid [oedd] llawer o ysgolion yn ymwybodol o strategaeth y rhanbarth" a bod hyn yn "wedi creu ansicrwydd".

213. Fodd bynnag, yn fwy diweddar, yn ystod yr ymchwiliad hwn, dywedodd Estyn wrth y Pwyllgor:

"Recent developments arising from work between the Welsh Government and the regional consortia give cause for optimism that there is now a mechanism for the effective and sustainable use of the funding. However, it is too early to evaluate the impact of this new strategic approach on outcomes for pupils and it is not yet clear how well schools across Wales understand these new arrangements. Estyn will be looking into this aspect of the regional consortia's work during future visits."¹¹⁶

214. Cyflwynodd y consortia y wybodaeth a ganlyn i'r Pwyllgor:

- Mae GwE wedi datblygu a gweithredu canllawiau grant rhanbarthol a gweithdrefn ddyrannu ar gyfer elfen Plant sy'n Derbyn Gofal y Grant Datblygu Disgyblion. Gall ysgolion unigol a chlystyrau o ysgolion, mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol, wneud cais am gyllid grant o dan nifer o benawdau.¹¹⁷
- Rhestrodd CSW sawl agwedd ar ei gymorth i Blant sy'n Derbyn Gofal drwy'r Grant Datblygu Disgyblion. Mae'r rhain yn cynnwys cymorth a ddarperir yn strategol drwy hyfforddiant i ysgolion ac awdurdodau lleol, yn enwedig ar les, gwaith ysgol-i-ysgol, cynllun bwrsariaeth, a chymorth

¹¹⁵ Estyn, *Codi cyrhaeddiad, cyflawniad a dyheadau plant sy'n derbyn gofal: adroddiad arfer orau*, Gorffennaf 2016, paragraffau 99 a 101

¹¹⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig, TF.11 – Estyn

¹¹⁷ Tystiolaeth ysgrifenedig, TF.14 – GwE

pwrpasol mewn ysgolion.¹¹⁸ Defnyddir traean o'r dyraniad grant ar gyfer cymorth strategol a ddarperir gan y consortiwm ei hun, rhoddir tua 10% i awdurdodau lleol ar gyfer defnydd wedi'i dargedu a rhoddir ychydig o dan hanner i ysgolion ar sail ceisiadau.¹¹⁹

- Dywedodd ERW fod ei strategaeth ar gyfer defnyddio'r Grant Datblygu Disgyblion ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a phlant mabwysiedig wedi canolbwyntio ar gynyddu gwybodaeth a dealltwriaeth y rhai sy'n gweithio gyda hwy ynghylch effaith trawma a straen. Mae wedi trefnu bod hyfforddiant yn cael ei ddarparu i bob ysgol gynradd, ysgol uwchradd ac ysgol arbennig ar Ymarfer yn Seiliedig ar Ymlyniad a Thrawma.¹²⁰ Hyd yma mae ERW wedi darparu'r arian i awdurdodau lleol ond mae bellach yn edrych ar sut i roi'r arian yn uniongyrchol i ysgolion.¹²¹
- Mae EAS yn dyrannu'r Grant Datblygu Disgyblion ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal i glystyrau. Mae cyfran o'r arian yn cael ei ddyrannu i bob clwstwr yn seiliedig ar niferoedd y disgyblion. Gwahoddir y clystyrau i gyflwyno un cais yn dangos sut y byddant yn gweithio gyda'i gilydd ar sail ysgol-i-ysgol i ddiwallu anghenion disgyblion cymwys yn eu hysgolion.¹²²

215. Dywedodd Ravi Pawar, pennaeth Ysgol Gyfun y Coed Duon, wrth y Pwyllgor am y dull y mae consortia EAS wedi ei fabwysiadu yn Ne-ddwyrain Cymru.¹²³ Mae'n cyfuno cronfeydd Grant Datblygu Disgyblion ysgol uwchradd a'r ysgolion cynradd sy'n ei bwydo (clwstwr) i ariannu rhaglen bontio rhwng yr ysgol gynradd a'r ysgol uwchradd. Mae hyn yn cael ei dargedu at garfan ehangach o ddisgyblion sy'n agored i niwed, gan gynnwys Plant sy'n Derbyn Gofal neu blant mabwysiedig, ond plant eraill hefyd. Dywedodd Cyfarwyddwr Cyfarwyddiaeth Addysg Llywodraeth Cymru wrth y Pwyllgor nad dim ond EAS a oedd yn fabwysiadu'r dull hwn a bod consortia eraill yn fabwysiadu dulliau tebyg.¹²⁴

¹¹⁸ Tystiolaeth ysgrifenedig, TF – 07 CSW

¹¹⁹ Tystiolaeth lafar, cofnod y Trafodion [paragraffau 105-106], 8 Mawrth 2018

¹²⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig, TF – 20 ERW

¹²¹ Tystiolaeth lafar, Cofnod y Trafodion [paragraff 103], 8 Mawrth 2018

¹²² Tystiolaeth ysgrifenedig, TF – 12 EAS

¹²³ Tystiolaeth lafar, Cofnod y Trafodion [paragraffau 314-322], 8 Mawrth 2018

¹²⁴ Tystiolaeth lafar, Cofnod y Trafodion [paragraff 108], 22 Mawrth 2018

Safbwynt Ysgrifennydd y Cabinet

216. Roedd Ysgrifennydd y Cabinet yn cydnabod bod llai o ymwybyddiaeth o argaeledd y Grant Datblygu Disgyblion ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal nag ar gyfer disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Esboniodd mai un o'r rhesymau dros gomisiynu'r gwerthusiad gan ICF Consulting oedd craffu'n fanylach ar sut mae adnoddau Grant Datblygu Disgyblion ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal a phlant mabwysiedig yn cael eu defnyddio:

“[The Welsh Government’s Director of the Education Directorate], on my behalf, wrote to the system, setting out our expectations, but also advising them of the fact we will be asking very detailed questions of accountability for that money.”¹²⁵

217. Cyfeiriodd Llywodraeth Cymru at arwyddocaol y gofyniad i'r consortia benodi cydlynwyr Plant sy'n Derbyn Gofal y disgwylir iddynt weithio ar y cyd i ddatblygu ymyriadau effeithiol sy'n cefnogi'r gwaith o wella canlyniadau addysgol y grŵp hwn o ddysgwyr er mwyn sicrhau eu bod yn cyflawni eu llawn botensial.¹²⁶

218. Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet fod canllawiau Llywodraeth Cymru yn nodi na ddylai consortia ddirprwyo arian i awdurdodau lleol ac ysgolion oni bai bod cynlluniau busnes cadarn yn cael eu cytuno sy'n gyson â'r dull gweithredu rhanbarthol.¹²⁷

Barn ac argymhellion y Pwyllgor

219. Mae'r Pwyllgor yn croesawu'r ffaith bod Llywodraeth Cymru wedi comisiynu gwerthusiad o'r agwedd Plant sy'n Derbyn Gofal ar y Grant Datblygu Disgyblion. Dylid bod wedi gwneud hyn ers tro, o ystyried nad oedd yn rhan o'r ddau werthusiad a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru gan Ipsos MORI a WISERD, neu NFER.

220. Mae gan y Pwyllgor rai pryderon mai cymharol ychydig o bwyslais a roddwyd ar elfennau Plant sy'n Derbyn Gofal a phlant mabwysiedig y Grant Datblygu Disgyblion hyd yma. Ymddengys fod y dull gweithredu wedi bod yn gymharol anstrategol tan yn gymharol ddiweddar pan benododd y consortia rhanbarthol swyddogion arweiniol. Roedd y Pwyllgor yn pryderu o glywed yr Undeb Addysg Genedlaethol yn dweud bod elfen gref o hap a damwain o ran y ffordd y mae'r

¹²⁵ Tystiolaeth lafar, Cofnod y Trafodion [paragraff 88], **22 Mawrth 2018**

¹²⁶ Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, Llythyr at y Pwyllgor Plant, Pbl Ifanc ac Addysg, **9 Mawrth 2018**

¹²⁷ Ibid

consortia rhanbarthol yn dyrannu ac yn gwario'r Grant Datblygu Disgyblion ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal a phlant mabwysiedig.

Argymhelliad 19. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod dull gweithredu strategol, effeithiol ar waith o ran defnyddio'r Grant Datblygu Disgyblion ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal a phlant mabwysiedig, gan roi ystyriaeth briodol i werthusiad ICF Consulting ac yna gwneud unrhyw welliannau a nodir yn ôl yr angen.

221. Mae gan y Pwyllgor rai amheuan am y ffordd y mae rhai consortia yn defnyddio'r Grant Datblygu Disgyblion i Blant sy'n Derbyn Gofal ar gyfer ymyriadau ehangach sydd wedi'u targedu at garfan ehangach o ddisgyblion a allai fod yn agored i niwed, er enghraifft ar bwyntiau trosglwyddo allweddol. Er y dylai'r dull hwn greu budd i Blant sy'n Derbyn Gofal, mae perygl iddo leihau'r cyllid y bwriedir ei ddefnyddio ar eu cyfer hwy'n unig. Bydd y Pwyllgor yn rhoi sylw i gasgliadau gwerthusiad ICF Consulting yn hyn o beth.

Argymhelliad 20. Ar y cyd â'r consortia rhanbarthol, dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod y Grant Datblygu Disgyblion ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal a phlant mabwysiedig yn cael ei ddefnyddio'n benodol ar gyfer y grwpiau hyn o ddisgyblion. Wrth wneud hynny, dylai Llywodraeth Cymru ystyried agweddau perthnasol ar adroddiad gwerthuso ICF Consulting.

8. 2. Ymgysylltu a chyrhaeddiad Plant sy'n Derbyn Gofal

222. Mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi data ar gyrhaeddiad Plant sy'n Derbyn Gofal mewn data cyfrifiad blynyddol ar blant sy'n derbyn gofal a chymorth. Mae Tabl 3 a Thabl 4 isod yn dangos nifer y Plant sy'n Derbyn Gofal a gyflawnodd mesurau trothwy Lefel 2 a throthwy cynwysedig Lefel 2 dros gyfnod o amser. Cafodd y Grant Datblygu Disgyblion ei ymestyn i Blant sy'n Derbyn Gofal yn 2013-14. Blynyddoedd academiaidd yw'r blynyddoedd y cyfeirir atynt yn y tablau. Mae'r colofnau ar y chwith yn cymharu cyrhaeddiad Plant sy'n Derbyn Gofal â phob disgybl, tra bod y colofnau ar y dde yn cymharu eu cyrhaeddiad â disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Nodwch fod y garfan Plant sy'n Derbyn Gofal yn fach ac yn cyfateb â thua 300 yn y data ar gyfer pob blwyddyn, felly dylid bod yn ofalus wrth geisio dangos tueddiadau dros gyfnod o flynyddoedd. Nodwch hefyd y gwnaed newidiadau i fesurau perfformiad yn 2017 y mae'n debyg iddynt effeithio'n anghymesur ar ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, ac mae'n bosibl y cafwyd effaith debyg ar Blant sy'n Derbyn Gofal.

Tabl 3: Cyfraddau cyrhaeddiad Plant sy'n Derbyn Gofal o ran trothwy Lefel 2 – Cymru Gyfan

<i>Canran y disgyblion sy'n cyrraedd trothwy Lefel 2</i>							
	Plant sy'n derbyn godal	Pob disgybl	bwlch pwynt %	Plant sy'n derbyn godal	eFSM	bwlch pwynt %	
2011/12	29	73	44	29	51	22	
2012/13	40	78	38	40	58	18	
2013/14	48	82	34	48	65	17	
2014/15	47	84	37	47	69	22	
2015/16	56	84	28	56	72	16	
2016/17	21	67	46	21	41	20	

Tabl 4: Cyfraddau cyrhaeddiad Plant sy'n Derbyn Gofal o ran trothwy cynwysedig Lefel 2 – Cymru Gyfan

<i>Canran y disgyblion sy'n cyrraedd trothwy Lefel 2 cynhwysol</i>							
	Plant sy'n derbyn godal	Pob disgybl	bwlch pwynt %	Plant sy'n derbyn godal	eFSM	bwlch pwynt %	
2011/12	13	51	38	13	23	10	
2012/13	12	53	41	12	26	14	
2013/14	17	55	38	17	28	11	
2014/15	18	58	40	18	32	14	
2015/16	23	60	37	23	36	13	
2016/17	12	55	43	12	29	17	

Ffynonellau a Nodiadau ar gyfer Tabl 3 a Thabl 4

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, [Cyfrifiad Plant sy'n Derbyn Gofal a Chymorth Cymru](#), 27 Chwefror 2018. Cyfrifiadau gan Wasanaeth Ymchwil Cynulliad Cenedlaethol Cymru; [Cyfrifiad Plant mewn Angen Cymru](#) (datganiadau nifer o flynyddoedd); Llywodraeth Cymru, [Canlyniadau arholiadau yng Nghymru 2016/17](#), 6 Rhagfyr 2017. Cyfrifiadau gan Wasanaeth Ymchwil Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Nodiadau:

- Trothwy Lefel 2 = 5 TGAU neu fwy, graddau A*-C neu gymhwyster galwedigaethol cyfatebol. Trothwy cynwysedig Lefel 2 = 5 TGAU neu fwy, graddau A*-C, gan gynnwys Mathemateg ac Iaith Gymraeg/Saesneg, neu gymhwyster galwedigaethol cyfatebol. Yn 2017, newidiodd Llywodraeth Cymru sut y mae mesurau trothwy Lefel 2 yn cael eu cofnodi, gan roi cap ar nifer y cymwysterau galwedigaethol y gellir eu cyfrif. O 2017 ymlaen, cafodd hyn ei gyfyngu i 40 y cant, h.y. dim ond ar gyfer hyd at 2 o'r 5 TGAU y gall cymwysterau galwedigaethol gyfrif. Mae Llywodraeth Cymru yn dweud nad yw cymariaethau rhwng 2017 a blynyddoedd blaenorol yn ystadegol ddilys.
- Gweler tudalen 1 ac adran Nodiadau [datganiad ystadegol Rhagfyr 2017](#), [blog y Prif Ystadegydd](#) a'r [datganiad i'r wasg](#) ar 6 Rhagfyr 2017, oll gan Lywodraeth Cymru, am drafodaeth bellach ar wneud cymariaethau rhwng blynyddoedd. Mae newidiadau eraill yn 2017 yn cynnwys yr arholiadau cyntaf yn dilyn manylbau newydd ar gyfer TGAU Cymraeg, Saesneg a Mathemateg (gan gynnwys Rhifedd Mathemateg am y tro cyntaf) a diystyru Llenyddiaeth Gymraeg a Saesneg at ddibenion trothwy cynwysedig Lefel 2.
- Mae data 2016 a 2017 yn seiliedig ar y garfan o ddisgyblion ym Mlwyddyn 11. Mae data blynyddoedd blaenorol yn seiliedig ar ddisgyblion 15 oed ar ddechrau'r flwyddyn academaidd.

223. Mae'r data'n awgrymu i'r bwlch rhwng cyrhaeddiad Plant sy'n Derbyn Gofal a'u cyfoedion gulhau cyn 2017 ar gyfer trothwy Lefel 2 ond ddim rhyw lawer ar gyfer trothwy cynwysedig Lefel 2. Yn debyg i'r bwlch cyrhaeddiad rhwng disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'u cyfoedion (a drafodir ym mhennod 7), mae'n debyg y cafodd newidiadau Llywodraeth Cymru i fesurau perfformiad yn 2017 effaith anghymesur ar Blant sy'n Derbyn Gofal.

Tystiolaeth rhanddeiliaid

224. Cyfeiriodd Estyn at ei adroddiad arfer orau a gyhoeddwyd yn 2016, *Codi cyrhaeddiad, cyflawniad a dyheadau plant sy'n derbyn gofal*. Fodd bynnag, pwysleisiodd yr arolygiaeth mai adroddiad arfer orau oedd hwn ac nid gwerthusiad llawn o ansawdd y ddarpariaeth. Mewn tystiolaeth ysgrifenedig ddilynol yn dilyn trafodaethau gyda'r Pwyllgor, tynnodd Estyn sylw at enghreifftiau o arferion da gan ysgolion o ran ymgysylltu â Phlant sy'n Derbyn Gofal.¹²⁸

225. Rhoddodd Estyn ystadegau ar gyfraddau gwaharddiadau a oedd yn dangos bod Plant sy'n Derbyn Gofal dros chwe gwaith yn fwy tebygol o gael gwaharddiad cyfnod penodol na disgyblion eraill:

- Roedd 201.2 o waharddiadau fesul 1,000 o Blant sy'n Derbyn Gofal yn 2016. Mae hyn yn cymharu ag 85.8 fesul 1,000 o ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a 32.3 fesul 1,000 ar gyfer yr holl ddisgyblion.
- Mae cyfradd y gwaharddiadau cyfnod penodol ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal yn is nag yn 2012 pan oedd yn 218.9 fesul 1,000, ac nid yw'r cyfraddau ar gyfer y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r holl ddisgyblion wedi newid rhyw lawer ers y cyfnod hwnnw.¹²⁹

226. Ni chyhoeddir data rheolaidd ar bresenoldeb na chyrhaeddiad plant mabwysiedig.

Safbwynt Ysgrifennydd y Cabinet

227. O ran cyrhaeddiad, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet ei hun fod y data cyrhaeddiad diweddaraf ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal yn hynod o siomedig a'i bod wedi gofyn i'w swyddogion weithio gyda'r consortia ac awdurdodau lleol i ddeall yn well y rhesymau dros hyn a sut i ddysgu gwersi.

228. Dywedodd Kirsty Williams AC wrth y Pwyllgor mewn tystiolaeth lafar:

“Well, there's no getting away from it: the way in which we currently measure outcomes for looked-after children, the results are not good enough. It's a source of huge concern to me that we need to do better for those children. That's why officials are engaging with the [Ministerial

¹²⁸ Estyn, *Gwybodaeth ychwanegol yn dilyn y cyfarfod ar 14 Mawrth 2018*

¹²⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig, TF.11 – Estyn

Advisory] group that David Melding is chairing, to make sure that education is integral to that group and it's not lost sight of.”¹³⁰

229. Ar y pwynt hwnnw, cyfeiriodd Ysgrifennydd y Cabinet at yr angen am ddull gweithredu cydgysylltiedig gan y llywodraeth, yn cynnwys addysg, gwasanaethau cymdeithasol ac iechyd:

“So, a greater involvement in education and better-linked up working in local authorities will help with this. It can't just be the job of the PDG. If we think we can crack this with just PDG, then we're being delusional. It has to be a cross-government approach at a national level, and at a local government level as well, to get this right.”¹³¹

Barn ac argymhellion y Pwyllgor

230. Yn debyg i'n barn ynghylch disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, mae'r Pwyllgor yn pryderu am y cyfraddau gwaharddiadau cyfnod penodol sylweddol uwch ymysg Plant sy'n Derbyn Gofal a'u bod dros chwe gwaith yn fwy tebygol o gael gwaharddiad cyfnod penodol na disgyblion eraill. Nid yw'n eglur o gwbl i'r Pwyllgor sut mae'r Grant Datblygu Disgyblion yn cael ei ddefnyddio i fynd i'r afael â'r materion hyn ac i ennyn diddordeb Plant sy'n Derbyn Gofal yn eu haddysg. Mae hyn hyd yn oed yn llai amlwg ar gyfer plant mabwysiedig o ystyried diffyg prosesau rhagweithiol ar gyfer eu hadnabod a'u targedu (gweler pennod 9).

Argymhelliad 21. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried ar frys sut y gellir defnyddio'r Grant Datblygu Disgyblion i wella ymgysylltiad Plant sy'n Derbyn Gofal â'u haddysg, gan gynnwys cyfraddau presenoldeb a chyfraddau gwahardd. Dylai hyn ystyried casgliadau gwerthusiad ICF Consulting.

231. Mae'r data'n dangos y bu rhywfaint o gynnydd wrth gau'r bwlch o ran cyflawni trothwy Lefel 2 rhwng Plant sy'n Derbyn Gofal a disgyblion eraill, a oedd yn cyd-fynd a chyflwyno'r Grant Datblygu Disgyblion. Fodd bynnag, nid oedd llawer o gynnydd wrth gau'r bwlch o ran cyflawni trothwy cynwysedig Lefel 2. Yn debyg i ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, mae'r ffaith y rhoddwyd llai o bwys ar gymwysterau galwedigaethol gan y mesurau perfformiad yn 2017 wedi effeithio'n anghymesur ar nifer y Plant sy'n Derbyn Gofal sy'n cyflawni'r mesurau newydd.

232. Serch hynny, yn yr un modd ag Ysgrifennydd y Cabinet, mae'r Pwyllgor yn siomedig iawn gyda'r data diweddaraf ar gyfraddau cyrhaeddiad Plant sy'n

¹³⁰ Tystiolaeth lafar, Cofnod y Trafodion [paragraff 121], 22 Mawrth 2018

¹³¹ Tystiolaeth lafar, Cofnod y Trafodion [paragraff 114], 22 Mawrth 2018

Derbyn Gofal. Mae'r ffaith mai dim ond un o bob pump o blant sy'n Derbyn Gofal sy'n cyrraedd trothwy Lefel 2, ac mai ychydig dros un o bob deg o blant sy'n derbyn Gofal sy'n cyrraedd trothwy cynwysedig Lefel 2, yn gwastraffu potensial.

233. Mae'r Pwyllgor yn sylweddoli bod Plant sy'n Derbyn Gofal yn wynebu heriau penodol ac nid yw am fychanu cyflawniadau rhai pobl ifanc sy'n ennill pedwar cymhwyster TGAU neu lai, pan fydd hyn yn gyflawniad gwirioneddol mewn rhai achosion. Fodd bynnag, rhaid i Blant sy'n Derbyn Gofal hefyd gael eu hannog i gael uchelgeisiau mawr a'u cefnogi i gyflawni eu llawn botensial.

234. Ym mhennod 7, mae'r Pwyllgor wedi gwneud llawer o argymhellion ynghylch deall goblygiadau newidiadau i fesurau perfformiad ar gyfer disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Mae'r materion hyn yn berthnasol i Blant sy'n Derbyn Gofal hefyd ac rydym yn credu y dylai Llywodraeth Cymru ystyried yn ofalus beth yw goblygiadau mesurau perfformiad ysgolion i gefnogi'r grŵp hwn o ddysgwyr.

Argymhelliad 22. Dylai Llywodraeth Cymru adolygu data ar gyrhaeddiad Plant sy'n Derbyn Gofal drwy gydol oes y Grant Datblygu Disgyblion a'r goblygiadau posibl yn sgil newid mesurau perfformiad. Dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi ei hasesiad o hyn, ac ystyried sut y gall y Grant Datblygu Disgyblion gael mwy o effaith o ran gwella canlyniadau addysgol Plant sy'n Derbyn Gofal.

235. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod mai un rhan o fywyd Plentyn sy'n Derbyn Gofal yw addysg, ond rhan eithriadol o bwysig serch hynny. Felly, mae'r Pwyllgor yn cydnabod yr hyn a ddywedodd Ysgrifennydd y Cabinet ynghylch yr angen am ddull gweithredu cydgysylltiedig gyda'r gwasanaethau cymdeithasol ac iechyd a'i datganiad na ellir disgwyl i'r Grant Datblygu Disgyblion fod yn fwled arian a fydd yn datrys yr hyn sy'n broblemau cymhleth ac amlweddol. Bydd y Pwyllgor yn dilyn gyda diddordeb waith y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar ei ymchwiliad i *Blant a phobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal*.

8. 3. Ymestyn cymhwysterau y Grant Datblygu Disgyblion i blant sydd wedi bod mewn gofal ar unrhyw adeg

Y cefndir

236. Mae Llywodraeth Cymru yn dyrannu Grant Datblygu Disgyblion ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal (y mae'n disgwyl ei ddefnyddio hefyd gyda phlant mabwysiedig) bob blwyddyn i'r pedwar consortiwm rhanbarthol. Caiff y swm, sef £1,150 fesul plentyn, ei bennu gan nifer y plant ym mhob rhanbarth sydd wedi'u cofrestru fel

rhai sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth o'r flwyddyn galendr cyn y flwyddyn ariannol dan sylw.

237. Yn yr un modd â'r Grant Datblygu Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, nid yw Llywodraeth Cymru yn dyrannu unrhyw arian ychwanegol i'w ddefnyddio i gefnogi plant sydd wedi bod mewn gofal yn y gorffennol ond nad ydynt yn derbyn gofal ar yr amser penodol hwnnw. Ar hyn o bryd, nid oes unrhyw gyfarwyddyd i gonsortia dargedu'r Grant Datblygu Disgyblion tuag at blant sy'n derbyn gofal ar unrhyw adeg yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, yn wahanol i'r sefyllfa bresennol o ran y Grant Datblygu Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim.

Safbwynt Ysgrifennydd y Cabinet

238. Ni holodd y Pwyllgor Ysgrifennydd y Cabinet ynglŷn ag ymestyn cymhwysra ar gyfer y Grant Datblygu Disgyblion dros gyfnod hwy, yn benodol mewn perthynas â'r Grant Datblygu Disgyblion i Blant sy'n Derbyn Gofal.

239. Yn achos Grant Datblygu Disgyblion ar gyfer y rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, dywedodd Kirsty Williams AC y byddai model Ever 6, fel y defnyddir yn Lloegr, yn anfforddiadwy. Fodd bynnag, mae wedi rhoi cyfarwyddyd i ysgolion dargedu'r Grant Datblygu Disgyblion at ddisgyblion sydd wedi bod yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim ar unrhyw adeg yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf, er na chafodd ysgolion arian ychwanegol i wneud hyn.

Barn ac argymhellion y Pwyllgor

240. Yn aml, mae plant yn mynd i mewn ac allan o'r system ofal. Ar hyn o bryd, nid yw'r Grant Datblygu Disgyblion yn targedu plant difreintiedig nad ydynt mewn gofal ar ddyddiad penodol ond sydd dal yn ymdopi â'r effeithiau ar ôl bod mewn gofal yn y gorffennol.

241. Cred y Pwyllgor bod defnyddio'r Grant Datblygu Disgyblion yn hyblyg gyda phlant sydd wedi bod mewn gofal hyd yn oed yn bwysicach nag ydyw yn achos disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys argymhelliad (Argymhelliad 6) y dylai Llywodraeth Cymru ystyried a fu disgybl yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim ar unrhyw adeg dros gyfnod penodol o amser er mwyn i'r disgybl hwnnw gael y Grant Datblygu Disgyblion. Fodd bynnag, yn achos Plant sy'n Derbyn Gofal, cred y Pwyllgor y dylai plentyn fod yn gymwys i gael y Grant Datblygu Disgyblion hyd at ddiwedd ei addysg statudol os bydd y plentyn hwn wedi bod mewn gofal am gyfnod sylweddol o'i fywyd.

Byddai ymestyn y Grant Datblygu Disgyblion i'r plant hyn yn gyson â phwyslais Llywodraeth Cymru ei hun ar gefnogi plant ar gyrion gofal.

242. Byddai angen i Lywodraeth Cymru ystyried beth sy'n cyfrif fel bod mewn gofal am gyfnod sylweddol. Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn defnyddio trothwy o isafswm o 13 wythnos o fod mewn gofal, i bobl ifanc rhwng 14 ac 16 oed, wrth benderfynu a oes gan berson ifanc sy'n gadael gofal hawl i wasanaethau ôl-ofal.¹³² Mae'r Pwyllgor yn awgrymu y gellid defnyddio'r un egwyddor o ran yr hyn sy'n cyfrif fel cyfnod sylweddol o fod mewn gofal yn hyn o beth ni waeth beth oedd oedran y plentyn ar adeg yr isafswm o 13 wythnos.

Argymhelliad 23. Dylai Llywodraeth Cymru ymestyn y Grant Datblygu Disgyblion i gynnwys plant sydd wedi bod mewn gofal am unrhyw gyfnod sylweddol yn eu bywydau. Dylai Llywodraeth Cymru ariannu dyraniadau i'r consortia rhanbarthol yn unol â hynny a sicrhau bod y consortia hefyd yn targedu'r Grant Datblygu Disgyblion at y disgyblion hyn. Wrth wneud hyn, dylai Llywodraeth Cymru benderfynu beth sy'n cyfrif fel cyfnod sylweddol, gan gynnwys ystyried awgrym y Pwyllgor, sef unrhyw gyfnod o 13 wythnos neu fwy, fel y defnyddir wrth benderfynu cymhwysra plant sydd wedi bod mewn gofal ar gyfer gwasanaethau ôl-ofal.

243. Mae'r Pwyllgor yn nodi, yn wahanol i elfen cymwys i gael prydau ysgol am ddim y Grant Datblygu Disgyblion, bod Llywodraeth Cymru wedi defnyddio data'r flwyddyn ddiweddaraf (31 Mawrth 2017) i bennu ei dyraniadau Grant Datblygu Disgyblion ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal i'r consortia. Y rheswm a roddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros ddefnyddio data 2016 ar gyfer y rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim oedd bod y niferoedd yn uwch a bod hyn yn galluogi i fwy o arian gael ei dynnu i lawr ar gyfer y Grant Datblygu Disgyblion. Deallwn fod nifer y Plant sy'n Derbyn Gofal ym Mawrth 2017 yn uwch nag ym mis Mawrth 2016 felly nid oedd unrhyw sail resymegol o'r fath yn bodoli dros wneud yr un peth gyda'r Grant Datblygu Disgyblion ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal. Felly, nid yw'r Pwyllgor wedi ffurfio unrhyw safbwyntiau penodol ar hyn.

¹³² Llywodraeth Cymru, gwefan Cyfraith Cymru, [Gadael gofal a gwasanaethau ar gyfer y rhai sy'n gadael gofal](#)

9. Y Grant Datblygu Disgyblion ar gyfer plant mabwysiedig

Y Cefndir

244. Yn 2015-16, estynnwyd meini prawf cymhwysra y Grant Datblygu Disgyblion er mwyn gallu defnyddio'r elfen a ddyrannwyd i gefnogi Plant sy'n Derbyn Gofal a hefyd i gefnogi plant mabwysiedig.

245. Fodd bynnag, ni ddarparwyd unrhyw gyllid ychwanegol ar gyfer hyn. Mae dyraniadau Grant Datblygu Disgyblion Llywodraeth Cymru i gonsortia rhanbarthol yn dal i gael eu pennu ar sail nifer y Plant sy'n Derbyn Gofal cofrestredig ac nid ydynt yn ystyried y niferoedd ychwanegol o fuddiolwyr arfaethedig. Dadl Llywodraeth Cymru yw nad yw'n hysbys yn aml faint o ddisgyblion sy'n blant mabwysiedig ac felly mae'n anodd mesur faint o ddysgwyr y mae'r Grant Datblygu Disgyblion ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal a phlant mabwysiedig yn eu targedu.

246. Ym mis Mawrth 2016, cyhoeddodd rhagflaenydd y Pwyllgor hwn adroddiad dilynol ar ei ymchwiliad i Wasanaethau Mabwysiadu yn 2012, a alwodd ar Lywodraeth Cymru i "ystyried y manteision posibl" o gyflwyno dull i alluogi rhieni i hysbysu ysgolion os yw eu plentyn yn blentyn mabwysiedig. Byddai hyn yn gwneud y sefyllfa yng Nghymru yn debycach i'r sefyllfa yn Lloegr, lle mae dull o'r fath ar waith i ofyn i rieni ddatgan statws mabwysiedig eu plentyn. Yn Lloegr, mae dyraniadau Premiwm Disgyblion a Mwy yn cael eu sbarduno oherwydd gofynnir i'r rhieni hysbysu'r ysgol ynghylch mabwysiadu ar gyfer y cyfrifiad ysgolion blynyddol.

247. Yng Nghymru, dyrennir £4.6 miliwn yn 2018-19 i'r pedwar consortiwm rhanbarthol ar sail bod 4,037 o blant sy'n derbyn gofal ar 31 Mawrth 2017 (£1,150 fesul plentyn). Fel y nodir uchod, nid yw nifer y plant mabwysiedig ym mhob rhanbarth yn cael ei gynnwys wrth gyfrifo dyraniadau Llywodraeth Cymru i'r consortia. Yn Lloegr, mae £2,300 yn cael ei ddyrannu i'r Premiwm Disgyblion ar gyfer pob Plentyn sy'n Derbyn Gofal a phob plentyn mabwysiedig.¹³³

248. Dengys ystadegau Llywodraeth Cymru fod oddeutu 3,625 o blant mabwysiedig yng Nghymru ers 2005. Mae'r niferoedd blynyddol yn gymharol sefydlog, gyda nifer y plant mabwysiedig ym mhob un o'r pum mlynedd diwethaf yn amrywio o 310 i 385. Yn yr wyth mlynedd flaenorol (2005 i 2012), roedd y

¹³³ Gov.uk, Pupil premium 2018 to 2019: conditions of grant

niferoedd blynyddol yn amrywio o 210 i 260.¹³⁴ Felly, ar unrhyw un adeg, mae'n rhesymol amcangyfrif bod 3,000 i 3,500 o blant mabwysiedig, rhwng 3 a 16 oed, a ddylai fod yn gymwys i gael y Grant Datblygu Disgyblion.

Tystiolaeth rhanddeiliaid

249. Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, amcangyfrifodd Adoption UK fod o leiaf 3,500 o blant mabwysiedig yn mynd i'r ysgol yng Nghymru ar hyn o bryd. Tynnodd sylw at yr anawsterau y mae plant mabwysiedig yn aml yn eu hwynebu gyda'u haddysg:

“In common with other children who have experienced broken attachments with their main carers and early abuse, neglect and trauma, many [adopted] children struggle to cope with their experience of school. We know from a very recent Adoption UK survey that adopted children from across the UK in the survey were 20 times more likely to be permanently excluded from school than non adopted children and that nearly one third of the children had had to change schools because their needs were not being adequately met.”¹³⁵

250. Dywedodd y consortia rhanbarthol wrth y Pwyllgor fod ei ddefnydd o'r Grant Datblygu Disgyblion ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal i hyfforddi ysgolion ac athrawon ar faterion megis ymlyniad a thrawma o fudd i blant mabwysiedig yn ogystal â'r rhai sy'n derbyn gofal. Fodd bynnag, mae defnydd ysgolion o ymwybyddiaeth a hyfforddiant o'r fath yn dibynnu ar wybod bod disgybl wedi'i fabwysiadu ac felly'n gymwys i gael cymorth.

Safbwynt Ysgrifennydd y Cabinet

251. Pan ofynnwyd beth arall y gellid ei wneud i nodi'n rhagweithiol ddisgyblion sydd wedi cael eu mabwysiadu er mwyn targedu cymorth tuag atynt, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet:

“We're actively looking at whether we should try and find a way of collecting this data, with the caveats [around confidentiality and sensitivity] that I just gave earlier. We can't force parents to divulge information that is a matter for them, nor would I want to. But there is an active discussion going on at the moment about whether we could

¹³⁴ Llywodraeth Cymru, StatsCymru, Mabwysiadau plant sy'n derbyn gofal yn ystod y flwyddyn yn diweddu 31 Mawrth yn ôl oedran a rhyw

¹³⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, TF01 – Adoption UK

create a dataset where people divulge this information and we can then track the children through.(...)

We need to make sure that those parents feel that they can discuss this with school leaders and classroom teachers and explore how best those individual children can be supported, and how best we can support parents.”¹³⁶

Barn ac argymhellion y Pwyllgor

9. 1. Nodi plant mabwysiedig a thargedu'r Grant Datblygu Disgyblion tuag atynt

252. Mae'r Pwyllgor yn pryderu, er bod plant mabwysiedig yn gymwys i gael cymorth o dan y Grant Datblygu Disgyblion, nad yw hyn yn digwydd i raddau digonol. Mae'r Pwyllgor yn gwerthfawrogi ei bod yn anoddach nodi plant mabwysiedig ac felly dargedu cymorth tuag atynt, nag y mae ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal. Efallai na fydd rhieni bob amser yn dymuno datgelu bod plentyn wedi'i fabwysiadu ac ar hyn o bryd nid oes unrhyw ddull arferol yng Nghymru i ganfod y wybodaeth hon.

253. Nododd y Pwyllgor o'i thystiolaeth lafar barodrwydd Ysgrifennydd y Cabinet i ystyried beth arall y gellid ei wneud i wahodd rhieni i ddatgan bod eu plentyn yn blentyn mabwysiedig at ddibenion tynnu'r cyllid ychwanegol i lawr a thargedu cymorth at eu darpariaeth addysgol.

254. Cyhoeddodd y Pwyllgor blaenorol adroddiad ar Wasanaethau Mabwysiadu yn 2012. Nodwyd mai'r prif faterion sy'n creu trafferthion i blant sy'n cael eu mabwysiadu yw addysg a'r gwasanaethau cysylltiedig a ddarperir. Roedd llawer o bryderon nad oedd ysgolion ac athrawon yn rhoi digon o gymorth i blant mabwysiedig ac nad oeddent yn deall eu hanghenion. Yr ysgol oedd y thema amlycaf a nodwyd gan y bobl ifanc a gyflwynodd dystiolaeth hefyd.

255. Yn ei adroddiad dilynol ar Wasanaethau Mabwysiadu yn 2016, croesawodd y Pwyllgor y ffaith i'r Grant Datblygu Disgyblion gael ei ymestyn i gynnwys cymorth i blant mabwysiedig ond nododd ei fod wedi digwydd heb gynydd cyfatebol i'r cyllid. Arweiniodd hyn at bryderon a fyddai taenu'r cyllid yn deneuach yn cael effaith ar Blant sy'n Derbyn gofal a phlant mabwysiedig. Gwnaed dau argymhelliad penodol yn yr adroddiad dilynol am yr angen i ganolbwyntio ar ba mor dda y mae'r Grant Datblygu Disgyblion yn cefnogi disgyblion mabwysiedig.

¹³⁶ Tystiolaeth lafar, Cofnod y Trafodion [paragraffau 112 a 119], **22 Mawrth 2018**

Argymhelliad 24. Dylai Llywodraeth Cymru roi dull ar waith o'r flwyddyn academaidd 2018/19 i alluogi rhieni i hysbysu ysgolion pan fydd eu plant yn blant mabwysiedig a chasglu'r wybodaeth honno a'i hychwanegu at gofnod ysgol y plentyn. Yna dylid defnyddio'r wybodaeth hon i dargedu cymorth o dan y Grant Datblygu Disgyblion tuag at ddisgyblion y gwyddys eu bod yn blant mabwysiedig ac i alluogi canlyniadau unigol disgyblion sy'n blant mabwysiedig i gael eu monitro mewn modd tebyg i Blant sy'n Derbyn Gofal.

9. 2. Cyllid y Grant Datblygu Disgyblion ar gyfer plant mabwysiedig

256. Os gwneir gwelliannau o ran nodi plant mabwysiedig a thargedu cymorth Grant Datblygu Disgyblion tuag atynt, mae i hyn oblygiadau o ran y ffordd y caiff y Grant Datblygu Disgyblion ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal a phlant mabwysiedig ei ariannu. Mae'r Pwyllgor a'i ragflaenydd wedi bod yn pryderu ers peth amser, er bod Llywodraeth Cymru yn disgwyl i gonsortia rhanbarthol ddefnyddio'r Grant Datblygu Disgyblion gyda phlant mabwysiedig yn ogystal â Phlant sy'n Derbyn Gofal, bod cwantwm yr arian yn seiliedig ar nifer y Plant sy'n Derbyn Gofal sy'n 3-16 oed.

257. Ni ddarperir cyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru i adlewyrchu nifer y plant mabwysiedig, na hyd yn oed nifer y plant y gwyddys eu bod wedi'u mabwysiadu. Mae hyn yn anghysondeb sylweddol gan nad yw niferoedd y plant mabwysiedig yn ansylweddol o bell ffordd o gymharu â Phlant sy'n Derbyn Gofal. Mae 4,037 o blant sy'n derbyn Gofal cofrestredig rhwng 3 a 16 oed ac amcangyfrifir bod 3,000 i 3,500 o blant oedran ysgol sy'n blant mabwysiedig.

258. Mae hyn yn golygu dau beth. Yn gyntaf, efallai bod dros 3,000 o ddisgyblion a ddylai fod â hawl i gael cymorth ar gyfer eu haddysg o'r Grant Datblygu Disgyblion nad ydynt yn cael y cymorth hwn gan nad ydynt wedi'u nodi a'u targedu. Yn ail, os gwneir y gwelliannau a nodir yn Argymhelliad 24 a bod plant mabwysiedig yn cael eu nodi a'u cefnogi'n llwyddiannus, nid yw cwantwm y Grant Datblygu Disgyblion ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal a phlant mabwysiedig ymhell o fod yn hanner y swm a fwriedir ar gyfer pob plentyn cymwys.

259. Mae'r Pwyllgor yn pryderu ynghylch gwanhau'r cymorth Grant Datblygu Disgyblion a fwriedir ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal a phlant mabwysiedig, naill ai oherwydd nad yw plant mabwysiedig yn cael eu targedu'n llwyddiannus neu, lle y cânt eu targedu, bod yr arian yn cael ei wasgaru'n deneuach sy'n golygu bod pob plentyn cymwys yn derbyn llai na'r £1,150 o gymorth a fwriadwyd. Mae hyn yn bryder mwy dybryd fyth o gofio bod Llywodraeth y DU, yn ogystal â'i dull

rhagweithiol o nodi plant mabwysiedig, yn ariannu'r Premiwm Disgyblion yn Lloegr ar sail £2,300 fesul Plentyn sy'n Derbyn Gofal neu blentyn mabwysiedig.

Argymhelliad 25. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau ei bod yn ariannu dyraniadau'r Grant Datblygu Disgyblion ar gyfer Plant sy'n Derbyn Gofal a phlant mabwysiedig i bob consortiwm rhanbarthol fesul Plentyn sy'n Derbyn Gofal a phlentyn mabwysiedig hysbys ym mhob rhanbarth. Lle nad yw union nifer y plant mabwysiedig yn hysbys, dylid defnyddio'r amcangyfrif gorau.

DYRANIAD Y GRANT AMDDIFAEDEDD DISGYBLION O RAN PLANT SY’N DERBYN GOFAL A PHLANT MABWYSIEDIG



£4.5 MILIWN

4,037 O BLANT SY’N DERBYN GOFAL



£1,150

£1,150

£1,150

£1,150

3,000 – 3,500 O BLANT MABWYSIEDIG?



?

?

?

?

10. Effaith rhaglen Her Ysgolion Cymru ar gyrhaeddiad

Y cefndir

260. Roedd Her Ysgolion Cymru yn rhaglen gwella ysgolion benodol, wedi'i thargedu gyda 39 o ysgolion a nodwyd fel rhai a oedd yn tanberfformio ac angen her a chymorth ychwanegol arnynt.¹³⁷ Ysgolion “Llwybrau Llwyddiant” oedd yr enw ar yr ysgolion hyn. Roedd gan Her Ysgolion Cymru werth tair blwyddyn ariannol o gyllid ac yn ymarferol, parhaodd o fis Medi 2014 tan fis Gorffennaf 2017. Mae Adran 2.2 yr adroddiad hwn yn rhoi rhagor o gefndir polisi y rhaglen.

261. Roedd cynnydd yr ysgolion Llwybrau Llwyddiant a gymerodd ran yn Her Ysgolion Cymru yn amrywiol. Gwnaeth mwyafrif yr ysgolion yn dda iawn, rhai ohonynt yn arbennig o dda, o ran gwella perfformiad eu disgyblion ac ymddengys eu bod wedi elwa'n sylweddol ar fod yn rhan o'r rhaglen. Roedd y rhain yn tueddu i fod yn rhanbarth Canolbarth y De (CSW), lle y llwyddodd pob un o'r 16 ysgol i wella ei chyfraddau cyrhaeddiad trothwy cynwysedig Lefel 2 rhwng 2014 a 2016 a llwyddodd saith i sicrhau gwelliant o dros ugain pwynt canran.

262. Lle y gwnaeth ysgolion wneud cynnydd, roedd hyn yn arbennig o wir yn ystod dwy flynedd gyntaf yn y rhaglen, sef 2014/15 a 2015/16. Mae hyn yn debygol o adlewyrchu'r patrwm ar draws data cyrhaeddiad 2016/17 y tu hwnt i ysgolion Llwybrau Llwyddiant, a oedd yn dangos dirywiad mewn perfformiad ar sail y mesurau perfformiad diwygiedig. Fodd bynnag, efallai fod y ffaith bod y rhaglen wedi cael ei dadflaenoriaethu yn 2016/17, gan ei bod yn cyrraedd diwedd ei chyfnod tair blynedd, a chyhoeddiad gan Lywodraeth Cymru na fyddai'n parhau, hefyd wedi bod yn ffactor arwyddocaol.

263. Fodd bynnag, prin fu'r cynnydd mewn rhai ysgolion neu gwelwyd y perfformiad yn dirywio hyd yn oed er gwaethaf y cymorth ychwanegol a gawsant drwy'r rhaglen. Roedd yr ysgolion hyn yn dueddol o fod yn rhanbarthau Gogledd Cymru neu Dde-ddwyrain Cymru. Yn Ne-orllewin a Chanolbarth Cymru, dywedodd ERW wrth y Pwyllgor fod y pedair ysgol yn ei ranbarth, a oedd yn rhan

¹³⁷ O blith y 40 o ysgolion a ddewiswyd yn wreiddiol, cafodd dwy ohonynt (Ysgol Llantarnam ac Ysgol Uwchradd Fairwater) eu huno a'i galw'n Ysgol Uwchradd Cwmbrân, gan olygu bod 39 o ysgolion yn y rhaglen mewn gwirionedd. Daeth dwy arall o'r rhain (Coleg Cymunedol Llanfihangel ac Ysgol Uwchradd Glyn Derw yng Nghaerdydd) yn ysgolion ffederal yn ystod y rhaglen ac fe'i cyfunwyd wedyn i greu Ysgol Uwchradd Gymunedol Caerdydd ym mis Medi 2017.

o Her Ysgolion Cymru, wedi gwneud llai o gynnydd na phedair arall sy'n cael cymorth drwy ymyrraeth dan arweiniad y consortiwm.

264. Mae tablau 3 a 4 dros y ddalen yn dangos cyfraddau cyrhaeddiad trothwy cynwysedig Lefel 2 yn y 39 ysgol a gafodd arian a chymorth o dan Her Ysgolion Cymru. Maent hefyd yn dangos y newid yng Nghategori Cymorth Ysgolion.¹³⁸ Gellir trin 2013/14 fel y llinell sylfaen gan fod y rhaglen wedi cychwyn ym mis Medi 2014. Dim ond hyd at 2015/16 y dylid llunio cymariaethau a thueddiadau oherwydd y newidiadau yn y dull o gofnodi trothwy cynwysedig Lefel 2 yn 2016/17. Blynnyddoedd academiaidd yw'r rhai a nodir yn y tablau.

¹³⁸ Mae rhagor o ddata a thrafodaeth ar gyrhaeddiad disgyblion mewn ysgolion Llwybrau Llwyddiant, gan gynnwys pynciau craidd TGAU, drwy gydol y rhaglen Her Ysgolion Cymru i'w gweld yng nghyhoeddiad mis Chwefror 2018 y Gwasanaeth Ymchwil, [Data Cyrhaeddiad Cyfnod Allweddol 4](#).

Tabl 5: Cyfraddau cyflawni trothwy cynwysedig Lefel 2 mewn ysgolion Llwybrau Llwyddiant - Pob Disgybl

Ysgol	Consortia	% o'r holl ddisgyblion sy'n cyrraedd trothwy Lefel 2 cynhwysol (i)					Categori Cymorth Ysgol		
		2013/14	2014/15	2015/16 (ii)	Newid pwynt % 2013/14 - 2015/16	2016/17 (i) (ii)	2013/14 (Ion 2015)	2016/17 (Chwef 2018)	
Ysgol Aberdaugleddau	ERW	38.0	43.3	51.7	13.7	48.9	Oren	Coch	↓
Ysgol Gyfun Treforys	ERW	49.7	46.3	62.6	12.9	46.9	Coch	Melyn	↑
Ysgol Pentrehafod	ERW	44.3	52.7	53.3	9.0	43.7	Melyn	Melyn	→
Ysgol Bro Dinefwr	ERW	70.7	63.3	72.7	2.0	64.1	Melyn	Gwyrdd	↑
Ysgol Uwchradd Bedwas	EAS	44.1	35.0	51.0	6.9	54.7	Oren	Coch	↓
Ysgol Gyfun Tredegar	EAS	41.6	52.4	53.7	12.1	55.1	Oren	Gwyrdd	↑
Ysgol Gorllewin Sir Fynwy	EAS	48.0	56.9	52.4	4.4	48.8	Oren	Oren	→
Ysgol Sant Cenydd	EAS	37.9	50.0	41.9	4.0	45.5	Coch	Melyn	↑
Ysgol Sant Julian	EAS	50.7	46.6	51.0	0.3	48.6	Oren	Coch	↓
Ysgol Sant Martin	EAS	50.3	52.3	64.2	13.9	65.2	Coch	Melyn	↑
Ysgol Gyfun Heolddu	EAS	35.9	48.9	44.3	8.4	40.4	Coch	Oren	↑
Ysgol Uwchradd Llanwern	EAS	40.8	45.7	44.5	3.7	26.1	Oren	Coch	↓
Ysgol Uwchradd Llysleri	EAS	40.2	41.3	53.7	13.5	44.6	Oren	Melyn	↑
Ysgol Gyfun Abersychan	EAS	49.2	48.7	41.2	-8.0	43.3	Oren	Coch	↓
Ysgol Gyfun Abertyleri (iii)	EAS	23.1	34.4	41.2	18.1	25.5	Coch	Coch	→
Cymuned Ddysgu Ebbw Fawr	EAS	53.0	54.3	42.8	-10.2	44.5	Oren	Oren	→
Ysgol Uwchradd y Coed Duon	EAS	48.8	59.8	57.9	9.1	51.1	Oren	Melyn	↑

Ysgol Uwchradd Cwmbrân (iv)	EAS	46.7	46.8	39.0	-7.7	43.1	Oren (2015)	Coch	↓
Ysgol Treffynnon	Gwe	43.6	37.6	50.0	6.4	39.3	Coch	Coch	→
Ysgol Bryn Alyn	Gwe	47.4	48.1	48.7	1.3	41.0	Melyn	Coch	↓
Ysgol Clywedog	Gwe	48.5	52.8	46.5	-2.0	39.3	Coch	Oren	↑
Ysgol Uwchradd Caergybi	Gwe	43.4	48.6	48.2	4.8	45.1	Oren	Oren	→
Ysgol Uwchradd Rhosnesni	Gwe	50.5	49.0	49.7	-0.8	35.3	Coch	Coch	→
Ysgol Uwchradd Pen-Y-Dre	CSW	33.9	39.1	52.6	18.7	32.6	Oren	Melyn	↑
Ysgol Gymunedol y Porth	CSW	47.2	47.5	51.9	4.7	36.0	Oren	Coch	↓
Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Illtyd	CSW	45.7	46.1	55.2	9.5	46.9	Coch	Melyn	↑
Ysgol Uwchradd Pontypridd	CSW	52.4	53.3	61.8	9.4	51.1	Oren	Melyn	↑
Coleg Cymunedol Tonypandy	CSW	30.5	49.2	51.9	21.4	44.9	Coch	Melyn	↑
Ysgol Tonyrefail	CSW	52.1	47.2	60.6	8.5	46.8	Oren	Melyn	↑
Ysgol Uwchradd Willows	CSW	49.7	46.9	52.8	3.1	39.2	Melyn	Melyn	→
Ysgol Uwchradd Afon Taf	CSW	51.2	48.2	58.1	6.9	41.7	Oren	Oren	→
Ysgol Gyfun y Barri	CSW	37.4	50.0	62.7	25.3	49.4	Coch	Melyn	↑
Ysgol Uwchradd Gatholig Esgob Hedley	CSW	60.4	64.0	60.7	0.3	48.4	Melyn	Gwyrdd	↑
Ysgol Uwchradd Cantonian	CSW	35.8	45.0	50.7	14.9	46.1	Oren	Melyn	↑

Coleg Cymunedol Y Dderwen	CSW	39.9	44.0	55.8	15.9	41.7	Coch	Melyn	↑
Ysgol Uwchradd y Dwyrain	CSW	22.4	14.9	25.9	3.5	29.9	Coch	Melyn	↑
Ysgol Uwchradd Glyn Derw (v)	CSW	25.6	23.9	28.8	3.2	28.8	Coch	Coch (v)	→
Coleg Cymunedol Michaelston (v)	CSW	21.5	25.2	24.7	3.2	15.9	Coch	Coch (v)	→
Ysgol Uwchradd Hawthorn	CSW	40.5	49.3	61.8	21.3	45.9	Oren	Melyn	↑
Cyfanswm (cyfartaledd cymedrig) (vi)		43.4	46.4	50.7	7.3	43.2			
Cymru gyfan		55.4	57.9	60.3	4.9	54.6			

Tabl 6: Cyfraddau cyflawni trothwy cynwysedig Lefel 2 mewn ysgolion Llwybrau Llwyddiant - Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim

Ysgol	Consortia	% o ddisgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim sy'n cyrraedd trothwy Lefel 2 cynhwysol (i)					Categori Cymorth Ysgol		
		2013/14	2014/15	2015/16 (ii)	Newid pwynt % 2013/14 - 2015/16	2016/17 (i) (ii)	2013/14 (lon 2015)	2016/17 (Chwef 2018)	
Ysgol Aberdaugleddau	ERW	33.3	27.5	41.4	8.1	19.2	Oren	Coch	↓
Ysgol Gyfun Treforys	ERW	15.0	22.9	44.8	29.8	18.2	Coch	Melyn	↑
Ysgol Pentrehafod	ERW	26.9	30.2	29.8	2.9	20.8	Melyn	Melyn	→
Ysgol Bro Dinefwr	ERW	35.7	45.0	66.7	31.0	30.0	Melyn	Gwyrdd	↑
Ysgol Uwchradd Bedwas	EAS	13.0	19.2	40.7	27.7	21.1	Oren	Coch	↓
Ysgol Gyfun Tredegar	EAS	27.3	38.0	41.4	14.1	39.3	Oren	Gwyrdd	↑
Ysgol Gorllewin Sir Fynwy	EAS	32.3	22.7	30.8	-1.5	19.0	Oren	Oren	→

Ysgol Sant Cenydd	EAS	17.4	19.5	25.7	8.3	8.8	Coch	Melyn	↑
Ysgol Sant Julian	EAS	18.0	18.6	21.6	3.6	32.6	Oren	Coch	↓
Ysgol Sant Martin	EAS	25.0	6.9	34.8	9.8	29.6	Coch	Melyn	↑
Ysgol Gyfun Heolddu	EAS	25.0	29.4	25.6	0.6	32.0	Coch	Oren	↑
Ysgol Uwchradd	EAS	26.8	28.9	39.1	12.3	17.8	Oren	Coch	↓
Llanwern									
Ysgol Uwchradd	EAS	25.5	31.7	35.6	10.1	28.1	Oren	Melyn	↑
Llysleri									
Ysgol Gyfun Abersychan	EAS	24.1	35.1	16.7	-7.4	33.3	Oren	Coch	↓
Ysgol Gyfun Abertyleri (iii)	EAS	8.5	15.8	28.9	20.4	15.4	Coch	Coch	→
Cymuned Ddysgu Ebbw Fawr	EAS	28.0	30.8	25.0	-3.0	20.0	Oren	Oren	→
Ysgol Uwchradd y Coed Duon	EAS	25.0	36.4	28.6	3.6	12.0	Oren	Melyn	↑
Ysgol Uwchradd Cwmbrân (iv)	EAS	27.9	29.6	14.5	-13.4	27.7	Oren (2015)	Coch	↓
Ysgol Treffynnon	Gwe	33.3	16.7	22.2	-11.1	7.7	Coch	Coch	→
Ysgol Bryn Alyn	Gwe	40.0	22.2	20.7	-19.3	13.3	Melyn	Coch	↓
Ysgol Clywedog	Gwe	20.5	26.7	22.2	1.7	17.4	Coch	Oren	↑
Ysgol Uwchradd Caergybi	Gwe	48.0	40.6	25.0	-23.0	35.3	Oren	Oren	→
Ysgol Uwchradd Rhosnesni	Gwe	15.8	25.6	14.3	-1.5	15.4	Coch	Coch	→
Ysgol Uwchradd Pen-Y-Dre	CSW	8.3	24.4	28.6	20.3	17.1	Oren	Melyn	↑
Ysgol Gymunedol y Porth	CSW	27.9	30.3	33.3	5.4	27.5	Oren	Coch	↓
Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Illtyd	CSW	44.0	27.9	50.0	6.0	29.7	Coch	Melyn	↑

Ysgol Uwchradd Pontypridd	CSW	30.3	11.5	29.0	-1.3	26.5	Oren	Melyn	↑
Coleg Cymunedol Tonypandy	CSW	5.9	24.1	27.3	21.4	32.0	Coch	Melyn	↑
Ysgol Tonyrefail	CSW	23.7	18.8	35.5	11.8	27.0	Oren	Melyn	↑
Ysgol Uwchradd Willows	CSW	37.7	32.3	44.7	7.0	26.3	Melyn	Melyn	→
Ysgol Uwchradd Afon Taf	CSW	24.2	16.1	46.4	22.2	24.0	Oren	Oren	→
Ysgol Gyfun y Barri	CSW	18.9	22.6	46.9	28.0	19.4	Coch	Melyn	↑
Ysgol Uwchradd Gatholig Esgob Hedley	CSW	40.9	54.2	36.4	-4.5	20.0	Melyn	Gwyrdd	↑
Ysgol Uwchradd Cantonian	CSW	14.3	30.0	40.0	25.7	40.0	Oren	Melyn	↑
Coleg Cymunedol Y Dderwen	CSW	12.8	34.0	40.4	27.6	27.7	Coch	Melyn	↑
Ysgol Uwchradd y Dwyrain	CSW	9.7	10.8	16.2	6.5	22.8	Coch	Melyn	↑
Ysgol Uwchradd Glyn Derw (v)	CSW	18.6	14.7	24.0	5.4	17.9	Coch	Coch (v)	→
Coleg Cymunedol Michaelston (v)	CSW	8.6	14.7	15.8	7.2	11.9	Coch	Coch (v)	→
Ysgol Uwchradd Hawthorn	CSW	16.1	29.3	41.0	24.9	23.8	Oren	Melyn	↑
Cyfanswm (cyfartaledd cymedrig) (vi)		24.0	26.0	32.1	8.1	23.3			
Cymru gyfan		27.8	31.6	35.6	7.8	28.6			

Ffynhonnell a Nodiadau ar gyfer Tablau 3 a 4

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru, [gwefan Fy Ysgol Leol](#). Cyfrifiadau gan Wasanaeth Ymchwil y Cynulliad. Categoriâu Cefnogi Ysgolion o [Wefan Llywodraeth Cymru](#).

Nodiadau:

i) i) Trothwy Lefel 2 = 5 TGAU neu fwy, graddau A*-C neu gymhwyster galwedigaethol cyfatebol. Trothwy cynwysedig Lefel 2 = 5 TGAU neu fwy, graddau A*-C gan gynnwys Mathemateg ac Iaith Gymraeg/Saesneg, neu gymhwyster galwedigaethol cyfatebol. Mae'r newidiadau i'r mesurau yn golygu na ellir cymharu data 2017 yn uniongyrchol â data'r blynyddoedd blaenorol. Gweler tudalen 1 ac adran Nodiadau **datganiad ystadegol Rhagfyr 2017, blog y Prif Ystadegydd a datganiad i'r wasg** dyddiedig 6 Rhagfyr, oll gan Lywodraeth Cymru.

ii) Mae data 2016/17 a 2015/16 yn seiliedig ar y garfan o ddisgyblion ym Mlwyddyn 11. Mae data blynyddoedd blaenorol yn seiliedig ar ddisgyblion 15 oed ar ddechrau'r flwyddyn academaidd.

iii) Daeth Ysgol Gyfun Abertyleri yn Gymuned Ddysgu Abertyleri ym mis Medi 2016 ar ôl iddi gael ei chyfuno â nifer o ysgolion cynradd a symud i ystod oedran 3-16. Cafodd ei chategoreiddio fel Coch yn 2014/15 a 2015/16.

(iv) Ffurfiwyd Ysgol Uwchradd Cwmbrân ym mis Medi 2015 ar ôl cyfuno ysgolion Llantarnam a Fairwater. Roedd categori Llantarnam yn Goch yn 2013/14, tra bod Fairwater yn Felyn.

(v) Cyfunodd Ysgol Uwchradd Glyn Derw a Choleg Gymunedol Llanfihangel i ffurfio Ysgol Uwchradd Gymunedol Gorllewin Caerdydd ym mis Medi 2017. Categori cymorth yr ysgol newydd yw Coch.

(vi) Cyfartaledd cyfansymiau ysgolion yw hwn yn hytrach na chyfartaledd pob disgybl unigol ym mhob ysgol.

Tystiolaeth rhanddeiliaid

265. Dywedodd y NAHT fod y rhaglen Her Ysgolion Cymru yn ymddangos fel pe bai'n cyflwyno darlun amrywiol. Dywedodd ei bod yn ymddangos fel pe bai'n ddibynnol iawn ar yr ysgol arweiniol a'i hymrwymiad a'i gallu i gysylltu ag ysgolion partneriaeth.¹³⁹ Er bod y Gymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau yn credu bod arian ar gyfer y Grant Datblygu Disgyblion yn cael ei ddefnyddio'n dda, mae'n ofni nad oedd prosiect Her Ysgolion Challenge Cymru yn cynrychioli defnydd cystal o arian ym mhob achos, gan ychwanegu:

"It would be wrong to write it off as a failure, because there is clear evidence of significant improvement and positive outcomes in some schools. However, it is also clear that in other cases, the level of duplication, contradictory advice and lack of coordination caused issues and did not represent value for money."¹⁴⁰

266. Fodd bynnag, dywedodd aelod o'r Gymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau, Ravi Pawar, wrth y Pwyllgor y canlynol am ei ysgol ei hun, sef Ysgol Gyfun y Coed Duon:

¹³⁹ Tystiolaeth ysgrifenedig, TF 19 – [Cymdeithas Genedlaethol Prifathrawon Cymru](#)

¹⁴⁰ Tystiolaeth ysgrifenedig, TF 13 – [Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau \(Cymru\)](#)

“[Schools Challenge Cymru] made a great deal of difference to lots of things within the school in terms of the way in which we approach teaching and learning, and the way in which we link collaboratively with other schools. It made a difference also to the ultimate outcomes of the children in the measures that were identified as the key measures.”¹⁴¹

267. Ymwelodd y Pwyllgor â thair ysgol a gymerodd ran yn Her Ysgolion Cymru: Ysgol Uwchradd y Dwyrain yng Nghaerdydd; Ysgol Uwchradd Bedwas yng Nghaerffili; ac Ysgol Clywedog yn Wrecsam. Mae'r adrannau tystiolaeth rhanddeiliaid ym mhenodau 10 i 12 yr adroddiad hwn yn trafod yr ymweliadau hynny. Dyma a nododd yr ysgolion:

- Dywedodd pennaeth ysgol Uwchradd y Dwyrain¹⁴² wrth y Pwyllgor ei fod wedi cydnabod yr angen i ailennyn hyder rhieni, darpar rieni a'r gymuned leol. Felly, defnyddiodd yr ysgol gyllid Her Ysgolion Cymru ar gyfer rhai ymyriadau Blwyddyn 11 i wella cyfradd cyrhaeddiad trothwy cynwysedig Lefel 2 a chau'r bwlch rhwng disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a disgyblion nad ydynt yn gymwys. Dangosodd Cynllun Her ysgol Uwchradd y Dwyrain, y darparwyd copi ohono i Aelodau'r Pwyllgor, bod modd cymryd “cam cyflym ymlaen” o ran cefnogi disgyblion i gyflawni cymwysterau galwedigaethol Lefel 1 a Lefel 2. Dywedodd Ysgol Uwchradd y Dwyrain ei bod hefyd wedi gallu sicrhau gostyngiad amlwg yn nifer y gwaharddiadau tymor byr. O ganlyniad, symudodd Ysgol Uwchradd y Dwyrain o'r categori coch i'r categori melyn erbyn 2017. Gwnaeth cymryd rhan yn Her Ysgolion Cymru hefyd helpu'r ysgol i symud allan o Fesurau Arbennig.
- Defnyddiodd Ysgol Uwchradd Bedwas gyllid Her Ysgolion Cymru i ariannu llythrennedd, rhifedd a lles a llwyddodd i leihau nifer y gwaharddiadau hefyd. Ariannodd y rhaglen hefyd fuddsoddiad cyfalaf mewn TG, a datblygiad proffesiynol ychwanegol i'r holl staff. Dywedodd Ysgol Uwchradd Bedwas fod cyllid a chymorth Her Ysgolion Cymru wedi

¹⁴¹ Tystiolaeth lafar, Cofnod y Trafodion [paragraff 352], **8 Mawrth 2018**.

¹⁴² Sefydlwyd Ysgol Uwchradd y Dwyrain yn Nwyrain Caerdydd ym mis Medi 2014 yn dilyn cau Ysgol Uwchradd Tredelerch ac Ysgol Uwchradd Llanrhymni. Yn hanesyddol, roedd gan y ddwy ysgol hyn lefelau cyrhaeddiad is na'r cyfartaledd, yn ogystal â lefelau is na'r cyfartaledd o ddisgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol. Arolygwyd yr ysgol newydd, sef Ysgol Uwchradd y Dwyrain, gan Estyn ym mis Rhagfyr 2014 a'i rhoi o dan Fesurau Arbennig. Codwyd y Mesurau Arbennig oddi ar Ysgol Uwchradd y Dwyrain ym mis Tachwedd 2017 ar ôl i arolygiad monitro Estyn ym mis Tachwedd 2017 ganfod bod yr ysgol wedi gwneud cynnydd cadarn.

ei helpu i symud ymlaen o gael ei monitro gan Estyn yn 2014, a bod ei chyrhaeddiad wedi gwella. Fodd bynnag, dywedodd hefyd fod y ffaith bod y rhaglen wedi dod i ben wedi cael effaith negyddol ar yr ysgol.

- Roedd Ysgol Clywedog dan fesurau arbennig pan ddechreuodd Her Ysgolion Cymru a dywedodd yr ysgol fod y rhaglen wedi ei helpu i symud ymlaen o fesurau arbennig. Gwnaeth Ysgol Clywedog sylwadau ar sefyllfa dwy ysgol arall yn Wrecsam, sef Ysgol Bryn Alyn ac Ysgol Uwchradd Rhosnesni. Dywedodd fod y cyllid ychwanegol wedi dod ar yr adeg iawn i ddwy o'r tair ysgol hyn a welodd welliant ac a ddaeth allan o fesurau arbennig. Nid oedd un o'r ysgolion wedi llwyddo i symud allan o fesurau arbennig er gwaetha'r cyllid a'r cymorth ychwanegol, ond llwyddodd ysgol arall yn yr ardal i ddod allan o fesurau arbennig er nad oedd yn rhan o Her Ysgolion Cymru.
- Roedd pedwaredd ysgol y clywodd y Pwyllgor ganddi, sef Ysgol Gyfun y Barri, yn teimlo bod y rhaglen wedi bod yn bositif iawn ac yn gyfrwng i wneud gwelliannau cyflym.

268. Roedd y consortia rhanbarthol (ac eithrio CSW) yn ymddangos yn amheus o lwyddiant Her Ysgolion Cymru. Trafodir hyn ym mhennod 12 ar y berthynas rhwng y rhaglen a'r consortia.

269. Yr Athro Mel Ainscow yw'r person y rhoddodd Llywodraeth Cymru y gorchwyl iddo yn 2014 o arwain Her Ysgolion Cymru. Mewn papur trafod dyddiedig Mawrth 2017, *Schools Challenge Cymru: what are the lessons?*, crynhodd yr Athro Ainscow ganlyniadau dwy flynedd gyntaf y rhaglen:

"In a relatively short time, the forty [39 as two of them merged] schools have all, to varying degrees, made significant progress. In some cases, the gains in terms of examination results have been remarkable."¹⁴³

270. Dyfynnodd yr Athro Ainscow un pennaeth ysgol a oedd yn cymryd rhan yn y rhaglen yn dweud:

"The Schools Challenge Cymru programme has had a more profoundly positive impact on our school's standards than any other national or regional programme in which the school has participated over the last decade."¹⁴⁴

¹⁴³ Tystiolaeth ysgrifenedig, TF.09 – yr Athro Mel Ainscow, tudalen 1

¹⁴⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig, TF.09 – yr Athro Mel Ainscow, tudalen 1

271. Nododd SQW Consulting yn ei adroddiad gwerthuso:

“Er bod ysgolion Llwybrau Llwyddiant ar y cyfan yn perfformio’n is na chyfartaledd Cymru mewn pynciau craidd, gwnaeth pob un o’r ysgolion LILL gynydd academiaidd yn y ddwy flynedd ers cyflwyno HYC.”¹⁴⁵

272. Gofynnodd y Pwyllgor i SQW beth oedd sail y datganiad hwn, o ystyried nad oedd pob un o’r ysgolion wedi gwella eu cyrhaeddiad yn erbyn nifer o fesurau. Er enghraifft, fel y gwelir o Dabl 3 yn yr adroddiad hwn, mewn 10 o blith y 39 ysgol gwelwyd gostyngiad yng nghyfradd cyrhaeddiad trothwy cynwysedig Lefel 2 rhwng 2013/14 a 2015/16.

273. Eglurodd Dr Marian Morris o SQW fod ysgolion yn cael eu grwpio at ddibenion dadansoddiad ystadegol ac roedd canfyddiadau’r gwerthusiad yn seiliedig ar gyfeiriad rhagamcanol pob grŵp o ysgolion:

“Each of these schools needed to be judged from where it was starting, and the context in which it was starting. Our analysis actually grouped the schools because, again, trying to do anything statistically significant with one school is not possible. (...)”

274. Basically, the forecasting model was saying, ‘For all schools, this is what we’d expect. For these schools, what trajectory, based on their current cohort and the history of the previous cohorts, would we expect?’ And what we were finding was, in most cases, attainment was on a par with, or slightly above, that which would be expected by that trajectory”.¹⁴⁶ Pan ofynnodd y Pwyllgor gwestiwn tebyg i’r Athro Mel Ainscow, cyfeiriodd at ddehongliad ehangach o welliant na newidiadau tymor byr mewn cyrhaeddiad, a oedd yn cwmpasu newidiadau mewn arweinyddiaeth, ymarfer a llywodraethu.

Safbwynt Ysgrifennydd y Cabinet

275. Pan ofynnodd y Pwyllgor iddi ym mis Tachwedd 2016 am effaith y rhaglen ar gyrhaeddiad, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet:

“Variable—some schools have indeed made improvements and that is very much to be welcomed. But, unfortunately, for some schools that have taken part in the programme, the improvements were either not there at all or static, which is disappointing, and we will need to renew

¹⁴⁵ SQW Consulting, Asesu cyfraniad Her Ysgolion Cymru i ganlyniadau a gyflawnwyd gan ysgolion Llwybrau Llwyddiant Gorffennaf 2017, paragraff 9

¹⁴⁶ Tystiolaeth lafar, Cofnod y Trafodion [paragraff 26], 8 Mawrth 2018

our efforts about what we can do with those individual schools to drive forward improvements that we would like to see.”¹⁴⁷

276. Yn ei llythyr dyddiedig 9 Mawrth 2017 yn rhoi gwybodaeth y gofynnwyd amdani gan y Pwyllgor, nododd Ysgrifennydd y Cabinet:

“Dangosodd y dadansoddiad data bod yr holl ysgolion PtS wedi gwneud cynnydd ers gweithredu SCC ac, mewn rhai achosion, mae’r cynnydd wedi bod yn gyflymach (a hyd yn oed yn fwy) nag a ragwelwyd, o ystyried eu proffil disgyblion oedd yn cynnwys nifer uchel o ddisgyblion eFSM. (...)

Fodd bynnag, er bod llwyddiannau yn SCC, roeddwn yn pryderu bod yna amrywiadau sylweddol rhwng yr ysgolion sy’n perfformio orau a’r rhai sy’n perfformio waethaf. (...)

Rwy’n cydnabod bod perfformiad wedi amrywio o fewn y rhaglen ac nid oes un ateb perffaith i sicrhau llwyddiant.”

277. Yn ei thystiolaeth lafar, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet:

“I think we have to recognise that the 39 schools that were part of the programme were in very, very different places. So, I think one of the reasons why some schools did well was because their needs were not so complex, not so deep-seated and a certain level of intervention was enough to get them moving forward. Some schools had very, very different needs.

I think, talking to those involved in the programme, as always, we had some support advisers, challenge advisers working with those schools as part of the programme who were really, really excellent and really good, and were the right fit for the school and really drove the school onwards. We had other people employed in the programme who, perhaps, were less effective at driving change within those individual schools.

So, what we have is a mixed bag of performance, again reflecting the very different challenges that those schools were facing, which led them to be chosen for the programme in the first place.”¹⁴⁸

¹⁴⁷ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion, 10 Tachwedd 2016

¹⁴⁸ Tystiolaeth lafar, Cofnod y Trafodion [paragraffau 134-136], 22 Mawrth 2018

278. Pan ofynnwyd iddi pam yr oedd ei chasgliadau am lwyddiant y rhaglen yn wahanol i rai'r Athro Mel Ainscow, dywedodd Kirsty Williams AC:

"Can I say that I have never described the programme as a failure? (...)

I think, to be fair, there are some people who think the scheme was absolutely fantastic. I've had feedback from people who didn't think the scheme was helpful at all—in fact, they felt it was a hindrance. I'm very much of the view that the scheme worked really well for some schools in some areas and had less impact in some areas. There is a mixed picture."¹⁴⁹

Barn ac argymhellion y Pwyllgor

279. Mae'r Pwyllgor o'r farn bod dau brif ffactor wedi dylanwadu ar lefel cynnydd yr ysgolion Llwybrau Llwyddiant o ganlyniad i Her Ysgolion Cymru, sef: yn gyntaf, i ba raddau yr ymgysylltodd y consortïwm rhanbarthol perthnasol â'r rhaglen, a drafodir gennym yn adran 12.1 o'r adroddiad hwn, ac yn ail, a wnaed newidiadau i uwch-dîm arwain yr ysgol.

280. Cred y Pwyllgor fod cynnydd sylweddol nifer o ysgolion Llwybrau Llwyddiant yn dangos addewid a photensial rhaglen gwella ysgolion wedi'i thargedu, gan sy'n canolbwyntio ar ysgolion penodol sy'n tanberfformio, megis Her Ysgolion Cymru. Mae'r Pwyllgor yn pryderu y gallai rhai o'r ysgolion a wnaeth gynnydd lithro'n ôl nawr bod y cymorth a ddarparwyd drwy'r rhaglen wedi dod i ben.

Argymhelliad 26. Dylai Llywodraeth Cymru a'r consortia rhanbarthol fonitro canlyniadau addysgol disgyblion yn yr ysgolion a gymerodd ran yn Her Ysgolion Cymru a chymryd camau i liniaru unrhyw bosibilrwydd o golli momentwm yn yr ysgolion hynny a wnaeth gynnydd.

¹⁴⁹ Tystiolaeth lafar, Cofnod y Trafodion [paragraffau 190 a 194], 22 Mawrth 2018,

11. Dirwyn Her Ysgolion Cymru i ben a dysgu gwersi o'r rhaglen

11.1. Dirwyn y rhaglen i ben

Y cefndir

281. Parhaodd Her Ysgolion Cymru am dair blwyddyn ariannol (2014-15, 2015-16 a 2016-17) a thair blwyddyn academiaidd (2014/15, 2015/16 a 2016/17).

282. Yn hydref 2016, dywedodd Llywodraeth Cymru na fyddai cyllid i Her Ysgolion Cymru yn parhau y tu hwnt i'r flwyddyn ariannol 2016-17.¹⁵⁰ Gwelwyd hyn naill ai fel cadarnhad y byddai'r rhaglen cyfnod penodol yn dod i ben neu gyhoeddiad ei bod yn dod i ben cyn cwblhau'r gwerthusiad o'r rhaglen.

283. Hysbysodd Ysgrifennydd y Cabinet y Pwyllgor y byddai'r gyllideb flynyddol gwerth £15 miliwn yn dychwelyd i gronfeydd wrth gefn Llywodraeth Cymru o 2017-18 ac na fyddai'n cael ei hailddefnyddio o fewn y Gyllideb Addysg (fel y trafodwyd ym mhennod 13).¹⁵¹

284. Ym mis Ionawr 2017, cyhoeddodd Kirsty Williams AC £200,000 o gyllid ychwanegol i gynorthwyo gyda'r trefniadau pontio a galluogi gweithgareddau o dan y rhaglen i barhau tan ddiwedd y flwyddyn academiaidd 2016/17. Darparwyd £1.5 miliwn arall i'r consortia rhanbarthol yn 2017-18 i dargedu ysgolion (nid o reidrwydd, ysgolion Llwybrau Llwyddiant) yn y categorïau Coch ac Oren i adeiladu ar wersi a ddysgwyd gan Her Ysgolion Cymru.

Tystiolaeth rhanddeiliaid

285. Roedd peth o'r dystiolaeth a gafodd y Pwyllgor yn dangos dealltwriaeth a gwerthfawrogiad gan ysgolion na fyddai cyllid a chymorth Her Ysgolion Cymru yn parhau am gyfnod amhenodol. Er enghraifft, dywedodd Ravi Pawar, pennaeth Ysgol Gyfun y Coed Duon, eu bod yn gwybod o'r cychwyn mai rhaglen dwy flynedd¹⁵² oedd hon a dywedodd Ysgol Gyfun y Barri ei bod wedi bod yn cynllunio ar gyfer yr adeg pan fyddai'r rhaglen yn dod i ben a sut i barhau â rhai o'r

¹⁵⁰ Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, papur Llywodraeth Cymru i'r Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg ar Gyllideb Ddrafft 2017-18 – Prif Grŵp Gwariant (MEG) Addysg, Tachwedd 2016

¹⁵¹ Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, Llythyr at y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 30 Tachwedd 2016

¹⁵² Tystiolaeth lafar, Cofnod y Trafodion [paragraff 356], 8 Mawrth 2018

gweithgareddau yn y dyfodol. Fodd bynnag, dywedodd yr un ysgol fod y cyllid wedi dod i ben yn sydyn heb lawer o rybudd.

286. Awgrymodd tystiolaeth a gasglwyd drwy waith ymgysylltu'r Cynulliad fod rhai ysgolion yn tybio y byddai'r cyllid yn parhau, a dylanwadodd hyn ar y ffordd y gwariwyd yr arian. O ganlyniad, dywedodd un ysgol Llwybrau Llwyddiant a gymerodd ran yng ngwaith ymgysylltu'r Pwyllgor nad oedd unrhyw strategaethau ymadael ac eglurodd nad oedd modd parhau â'r gweithgareddau. Roedd teimlad ymhlith grwpiau ffocws y byddai perfformiad ysgolion Llwybrau Llwyddiant yn gwaethygu ar ôl i'r rhaglen ddod i ben.¹⁵³

287. Dyna farn Ysgol Uwchradd Bedwas hefyd a ddywedodd wrth y Pwyllgor fod ei gwaith ar les disgyblion wedi cael ei effeithio'n sylweddol ar ôl colli cyllid Her Ysgolion Cymru, oherwydd diffyg staff cymorth i weithio'n rhagweithiol gyda'r disgyblion. Gwnaethant egluro bod dirwyn y rhaglen i ben wedi cael effaith negyddol gyffredinol ar yr ysgol ac nad oedd fawr ddim cymorth o ran sut i roi strategaethau ymadael ar waith ac ymdopi â cholli'r cyllid ychwanegol.

288. Yn ogystal â phroblemau mewn rhai ysgolion a achoswyd yn sgil dirwyn y rhaglen i ben, clywodd y Pwyllgor fod dwysder y rhaglen wedi pylu yn ei thrydedd flwyddyn, sef y flwyddyn olaf. Dywedodd yr Athro Mel Ainscow, Hyrwyddwr Her Ysgolion Cymru, Llywodraeth Cymru wrth y Pwyllgor fod gweithgareddau yn y drydedd flwyddyn wedi pylu'n raddol pan ddaeth yn amlwg bod y rhaglen yn cael ei rhoi i'r naill ochr:

"It clearly was evident that once we had a new [Cabinet] Secretary, the work we were doing was certainly not at the centre of the agenda. From the new Secretary's appointment the first time I actually met her was in December of 2016. So it seemed to me that one reason it slipped off the agenda was that there was a change of regime."¹⁵⁴

289. Awgrymodd Ysgol Uwchradd y Dwyrain fod newid sylweddol amlwg o fewn Llywodraeth Cymru o ran agweddau a blaenoriaethau'n ymwneud â Her Ysgolion Cymru, yn y Cynulliad hwn (o fis Mai 2016 ymlaen) o gymharu â'r tymor blaenorol (2011 - 2016). Dadleuodd Ysgol Uwchradd Bedwas fod y maes gwella ysgolion wedi dioddef ers blyneddau lawer yn sgil diffyg parhad mewn arweinyddiaeth wleidyddol, cyfarwyddyd a pholisi addysg, a bod diwygiadau a mentrau yn parhau am gyfnod rhy fyr.

¹⁵³ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Crynodeb o drafodaethau'r grwpiau ffocws, tudalen 8

¹⁵⁴ Tystiolaeth lafar, Cofnod y Trafodion [paragraff 470], 22 Mawrth 2018

290. Yn gyffredinol, roedd rhanddeiliaid yn teimlo bod angen mwy na thair blynedd er mwyn i raglen Her Ysgolion Cymru gael effaith barhaus, ystyrlon. Er enghraifft, parhaodd Her Llundain tua wyth mlynedd. Dywedodd Dr Marian Morris o SQW Consulting wrth y Pwyllgor nad oedd rhaglen Her Ysgolion Cymru wedi bod ar waith am gyfnod digon hir i greu newid diwylliannol. Pan ofynnwyd iddi am ba hyd y dylai rhaglen o'r fath barhau, dywedodd Dr Morris:

"I think nearer five years, rather than three, to be honest. I've done quite a lot of work in the Republic of Ireland and they talk about 10-year planning cycles. And if they're putting something in place, after five years they'll review what's going on, and they will either continue or discontinue elements of it. They just don't think that two or three years is sufficient and I think in this case it was based, in a sense, on two-year's worth of data"¹⁵⁵

Safbwynt Ysgrifennydd y Cabinet

291. Pan gadarnhawyd yng nghyllideb ddrafft 2017-18 fod Her Ysgolion Cymru yn dod i ben, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet wrth y Pwyllgor:

"This should not be a surprise to any school. The programme, when it was set up, was set up as a time-limited programme. It was made very clear by my predecessor that that was for two years, and then my predecessor made another year of funding available."¹⁵⁶

292. Roedd Kirsty Williams AC wedi dweud wrth y Pwyllgor sawl mis yn gynharach, ym mis Gorffennaf 2016, er bod ymrwymiad ariannol Llywodraeth Cymru i'r rhaglen yn ymrwymiad am gyfnod penodol, y byddai'n aros i weld gwerthusiad SQW cyn gwneud penderfyniad am ei dyfodol:

"We've asked for independent research to be done to look at the impact of the Schools Challenge programme system. Once that evaluation has been received and looked at, then I'll be making a decision and an announcement on the future of the programme."¹⁵⁷

293. Fodd bynnag, cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet y byddai Her Ysgolion Cymru yn cael ei dirwyn i ben ym mis Tachwedd 2016, saith mis cyn cyhoeddi adroddiad gwerthuso terfynol SQW ym mis Gorffennaf 2017.

¹⁵⁵ Tystiolaeth lafar, Cofnod y Trafodion [paragraff 100], 28 Chwefror 2018

¹⁵⁶ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 56], 10 Tachwedd 2016

¹⁵⁷ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Cofnod y Trafodion [paragraff 111], 13 Gorffennaf 2016

294. Pan ofynnwyd iddi ynglŷn â sylwadau'r Athro Ainscow bod y rhaglen wedi pylu yn ystod y drydedd flwyddyn (blwyddyn ariannol 2016-17 / blwyddyn academiaidd 2016/17), dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet:

"I wouldn't characterise it as that. I think there certainly was a transition phase when we knew that the programme was moving and schools were moving into a different level of support, but I certainly wouldn't describe it as a fading out—not at all."¹⁵⁸

295. Ychwanegodd Cyfarwyddwr Cyfarwyddiaeth Addysg Llywodraeth Cymru:

"I can see where the perception would come if a programme director like Mel was managing the programme right to the end of the three years exactly the same, and it falls off—not a cliff, but it falls off, then the readiness for schools and the readiness in the system to hand over—so part of the shift of focus was that working as a Government with the programme in those schools to working with the programme, those schools and the region. So, I think, inevitably, one party might see it as a decrease in terms of emphasis on their work, but it was necessary for the transition."¹⁵⁹

296. Mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi pwysleisio ei bod am i wersi gael eu dysgu o Her Ysgolion Cymru a'u rhoi ar waith yn gyffredinol. Ei safbwynt, a ddaeth i'r amlwg yn ystod yr ymchwiliad, oedd bod Her Ysgolion Cymru wedi cyflawn ei diben, o leiaf am ychydig flynyddoedd tra roedd y consortia rhanbarthol yn eu babandod, ac erbyn hyn roedd yn bryd i'r consortia gymryd drosodd fel rhan o'u cylch gwaith ar gyfer gwella ysgolion ar draws pob ysgol yn eu rhanbarthau.¹⁶⁰ Trafodir hyn ymhellach ym mhennod 13.

Barn ac argymhellion y Pwyllgor

297. Etifeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, Kirsty Williams AC, rhaglen Her Ysgolion Cymru, a sefydlwyd gan ei rhagflaenydd yn y Pedwerydd Cynulliad. Gwnaeth tystiolaeth yr Athro Mel Ainscow, hyrwyddwr Her Ysgolion Cymru, Llywodraeth Cymru, argraff ddofn ar y Pwyllgor gan iddo ddweud wrthym ei bod yn amlwg nad oedd y rhaglen wrth wraidd agenda Ysgrifennydd newydd y Cabinet a bod y rhaglen wedi "pylu" yn ei thrydedd flwyddyn.

¹⁵⁸ Tystiolaeth lafar, Cofnod y Trafodion [paragraff 166], 22 Mawrth 2018

¹⁵⁹ Tystiolaeth lafar, Cofnod y Trafodion [paragraff 167], 22 Mawrth 2018

¹⁶⁰ Ibid a Llythyr at y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 9 Mawrth 2018

298. Er i'r Cynulliad nodi safbwynt Ysgrifennydd y Cabinet mai rhaglen am gyfnod penodol oedd hon o ran yr arian a ymrwymwyd iddi, credwn y byddai cyfle i barhau â hi pe bai Ysgrifennydd y Cabinet wedi teimlo'n gryf y dylid gwneud hynny. Fodd bynnag, gallai hyn fod wedi golygu dod o hyd i'r arian o gyllideb ei Hadran ei hun pe na allai ennyn cefnogaeth Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid i barhau â'r rhaglen.

299. Gwnaed y cyhoeddiad yng nghylch pennu cyllideb 2017-18, yn hydref 2016, na fyddai Her Ysgolion Cymru yn parhau y tu hwnt i 2016/17 cyn i SQW Consulting gwblhau'r gwerthusiad a gomisiynwyd gan Lywodraeth, na chafodd ei gyhoeddi tan fis Gorffennaf 2017. Cred y Pwyllgor fod y penderfyniad i ddirwyn Her Ysgolion Cymru i ben wedi cael ei wneud yn rhy gynnar gan nad oedd yn seiliedig ar adroddiad gwerthuso SQW.

300. Nododd y Pwyllgor fod y rhan fwyaf o'r dystiolaeth a roddwyd gan randdeiliaid, gan gynnwys SQW, yn dweud bod angen i raglen ymyrraeth ysgolion tebyg i Her Ysgolion Cymru barhau am fwy â'n thair blynedd. Er enghraifft, parhaodd Her Llundain am oddeutu wyth mlynedd.

Argymhelliad 27. Dylai unrhyw raglen wella ysgolion yn y dyfodol redeg am gyfnod digonol o amser i'w alluogi i gael effaith barhaol, hirdymor, am fwy na thair blynedd fel arfer. Ni ddylai Llywodraeth Cymru ddirwyn rhaglen fel Her Ysgolion Cymru i ben, heblaw bod amgylchiadau eithriadol, cyn cael gwybod canlyniadau unrhyw werthusiad a gomisiynwyd ganddi.

301. Yn nes ymlaen yn yr adroddiad hwn, mae'r Pwyllgor wedi rhoi ei farn ac wedi gwneud argymhellion sy'n ymwneud â symud y gyllideb flynyddol gwerth £15 miliwn i gronfeydd wrth gefn Llywodraeth Cymru, yn hytrach na'i defnyddio at ddibenion eraill o fewn y Gyllideb Addysg, fel y gallai Llywodraeth Cymru fod wedi ei wneud pe na bai'n credu y byddai parhau â Her Ysgolion Cymru yn cynnig gwerth am arian. Mae'r Pwyllgor yn arbennig o bryderus ynglŷn â beth y mae hyn yn ei olygu i nod Llywodraeth Cymru o gyflawni ei hymrwymiad i wario £100 miliwn yn y Cynulliad hwn ar godi safonau ysgolion. Mae **Argymhelliad 31** ym Mhennod 13 yn ymdrin â'n pryderon ar y mater hwn.

11. 2. Dysgu gwersi o'r rhaglen a'u cymhwyso i wella ysgolion yn fwy cyffredinol

Y Cefndir

302. Ym mis Mawrth 2017, cyflwynodd yr Athro Mel Ainscow bapur i Lywodraeth Cymru, *Schools Challenge Cymru: what are the lessons?*, ac fe'i cyflwynodd hefyd i'r Pwyllgor fel tystiolaeth ysgrifenedig ar gyfer yr ymchwiliad hwn.

303. Mae papur yr Athro Ainscow yn cynnwys chwech o wersi rhyng-gysylltiedig i Lywodraeth Cymru sy'n deillio o Her Ysgolion Cymru, a gynhyrchwyd drwy drafodaethau a gafodd gydag arweinwyr ac ymgynghorwyr ysgolion sy'n rhan o'r rhaglen. Ysgrifennodd yr Athro Ainscow:

“Together, these lessons provide a basis for a more effective strategy for strengthening the national approach to school improvement, particularly in relation to schools facing challenging circumstances.”¹⁶¹

304. Isod ceir crynodeb o chwech o wersi cydgysylltiedig yr Athro Ainscow:

- Gwers 1: Dechreuwch drwy ddadansoddi'r cyd-destun: Er bod ysgolion yn aml yn wynebu heriau tebyg, mae pob ysgol yn wahanol. Mae'n bwysig dadansoddi diwylliant, gallu a hyder ysgol - gan ddechrau gyda data cyrhaeddiad ond gyda mwy o brocio manwl, fel arsylwadau ystafell ddosbarth a thrafodaethau gyda myfyrwyr, staff a llywodraethwyr. Weithiau, uwch arweinwyr yr ysgol fydd y broblem, ac yn yr achos hwn efallai y bydd angen i hyn ei hun newid. (Disodlwyd oddeutu draean o benaethiaid ysgolion Llwybrau Llwyddiant.)
- Gwers 2: Ysgogi arweinwyr o fewn yr ysgol: Roedd llawer o waith Cynghorwyr Her, Her Ysgolion Cymru yn canolbwyntio ar weithio gydag uwch staff i feithrin hyder a chryfhau eu sgiliau arwain. Hefyd, anogwyd staff eraill, cymharol ddibrofiad â'r potensial i arwain ymdrechion gwella i gamu ymlaen i'r rôl.
- Gwers 3: Hyrwyddo diwylliant o ddysgu ymhlith myfyrwyr a staff: Arweiniodd cynnydd mewn ysgolion Llwybrau Llwyddiant at ddisgwyliadau a dyheadau uwch, gan sefydlu'r ysgol fel “sefydliad dysgu”, h.y. grŵp o bobl yn cydweithio i wella eu galluedd i greu

¹⁶¹ Tystiolaeth ysgrifenedig, TF.09 – Yr Athro Mel Ainscow, tudalen 2

canlyniadau y maen nhw i gyd wedi ymrwymo iddynt ac yn teimlo eu bod yn berchen arnynt.

- Gwers 4: Cysylltu â chymorth allanol perthnasol: Mae ysgolion sy'n wynebu amgylchiadau heriol yn dueddol o fod yn ynysig ac yn fewnblyg. Felly, rhoddodd Her Ysgolion Cymru gryn bwyslais ar gysylltu ysgolion Llwybrau Llwyddiant ag ysgolion eraill. Er enghraifft, roedd partneriaethau'n cynnwys rhaglenni datblygu proffesiynol ar y cyd.
- Gwers 5: Dod o hyd i ffyrdd o gyflymu'r gwaith: Roedd symud ymlaen ar fyrder yn elfen ganolog o fewn Her Ysgolion Cymru, yn bennaf oherwydd canfyddiad bod y cynnydd cyffredinol o fewn system addysg Cymru wedi bod yn gymharol araf dros lawer o flynyddoedd. Tynnodd un o'r Cynghorwyr Her sylw at y ffaith bod y cronfeydd sylweddol sydd ar gael, ynghyd â "dylanwad gweinidogol", yn caniatáu i benderfyniadau gael eu gwneud yn gyflym a rhoi cynlluniau a datblygiadau arloesol ar waith yn gyflym.
- Gwers 6: Gwella delwedd yr ysgol yn ei chymuned ac yn ehangach: Nododd rhaglen Her Ysgolion Cymru fod angen gwneud cynnydd cyflym a hyrwyddo hyn yn y gymuned leol, er mwyn goresgyn cylch dieflig o gyrhaeddiad gwael, delwedd wael ac anhawster o ran denu disgyblion. Mae cynnydd cadarnhaol wedi'i ddangos i greu ymdeimlad o fomentwm ar gyfer y rhaglen.

305. Mae Ysgrifennydd y Cabinet wedi dweud ar sawl achlysur ers iddi gyhoeddi y bydd Her Ysgolion Cymru yn cael ei dirwyn i ben y byddai Llywodraeth Cymru yn dysgu gwersi o'r rhaglen ac yn cymhwyso'r rhain i wella ysgolion yn fwy cyffredinol.

Tystiolaeth rhanddeiliaid

306. Penodwyd yr Athro Mel Ainscow gan Lywodraeth Cymru yn 2014 i arwain y gwaith o weithredu Her Ysgolion Cymru ac i roi cyngor ar y broses hon. Yn ôl tystiolaeth yr Athro Mel Ainscow, mae'n ymddangos i Lywodraeth Cymru ddod â'r contract rhyngddynt i ben. Dywedodd yr Athro Ainscow wrth y Pwyllgor nad oedd wedi cael dim cyswllt o gwbl â neb o Lywodraeth Cymru ers mis Mawrth 2017.¹⁶² Dywedodd ei fod wedi ei siomi ei bod yn ymddangos, ar ôl iddo gyflwyno ei bapur ar y chwe gwers rhyng-gysylltiedig o'r rhaglen, nad oedd neb yn credu ei bod yn werth holi ei farn.¹⁶³ Ychwanegodd yr Athro Ainscow:

¹⁶² Tystiolaeth lafar, Cofnd y Trafodion [paragraff 494], 8 Mawrth 2018

¹⁶³ Tystiolaeth lafar, Cofnd y Trafodion [paragraff 495], 8 Mawrth 2018

“At the time when we were closing down gradually, all the rhetoric I was getting, including from the [Cabinet Secretary] ... was that they would be learning the lessons. Now, whether that’s happened, I’m not in a position to say.”¹⁶⁴

307. Dywedodd pob un o’r consortia rhanbarthol eu bod wedi cymryd elfennau Her Ysgolion Cymru yr oeddent yn teimlo eu bod yn gweithio’n dda a’u hymgorffori yn eu harferion eu hunain. Y Byrddau Gwella Carlam oedd yr agwedd y cyfeiriodd pob consortiwm yn benodol ati ac roedd pob consortiwm yn gytûn yn hyn o beth.

Ymateb Ysgrifennydd y Cabinet

308. Cyflwynodd Ysgrifennydd y Cabinet ddarlun gwahanol i’r Athro Ainscow pan roddodd dystiolaeth lafar ar 22 Mawrth 2018. Dywedodd Kirsty Williams AC wrth y Pwyllgor:

“I don’t think anything should be read into when I met the individual concerned, because officials were meeting the individual concerned. (...)

I took the time out not just to meet the figurehead of the programme, but actually to meet the people who were doing the work in the individual schools.”¹⁶⁵

309. Pan gafodd ei holi ymhellach pam, o ystyried ei dymuniad i ddysgu gwersi o Her Ysgolion Cymru, nad oedd wedi ymgysylltu â’r sawl a oedd yn gyfrifol am redeg y rhaglen, dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet:

“I’ve had that conversation with Mr Ainscow. (...)

We’ve spoken to a wide variety of people to get their insight into the lessons learned, what was valuable and what was not valuable. (...)

What I’m saying to you – and I’m absolutely confident – is that we have learnt the lessons, we are taking that work and the good practice forward. (...)

So, the lessons, I am confident have been learnt.”¹⁶⁶

¹⁶⁴ Tystiolaeth lafar, Cofnod y Trafodion [paragraff 495], 8 Mawrth 2018.

¹⁶⁵ Tystiolaeth lafar, Cofnod y Trafodion [paragraffau 143 a 173], 22 Mawrth 2018

¹⁶⁶ Ibid, [paragraffau 175 a 188]

310. Dywedodd Cyfarwyddwr Cyfarwyddiaeth Addysg Llywodraeth Cymru, a oedd gydag Ysgrifennydd y Cabinet yng nghyfarfod y Pwyllgor, ei fod ef a'r Cyfarwyddwr Cyffredinol Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus wedi cael cyfarfodydd a thrafodaethau gyda'r Athro Ainscow ers mis Mawrth 2017.¹⁶⁷ Fodd bynnag, mewn llythyr dilynol at y Pwyllgor dyddiedig 11 Ebrill 2018, cadarnhaodd Ysgrifennydd y Cabinet y cynhaliwyd y cyfarfod y cyfeiriwyd ato ym mis Mawrth 2017 a chyn i'r Athro Ainscow gyflwyno ei bapur ar wersi a ddysgwyd gan Her Ysgolion Cymru.

311. Roedd llythyr Ysgrifennydd y Cabinet hefyd yn dweud bod ei swyddogion a'r Athro Ainscow wedi gohebu dros yr e-bost ym mis Mehefin 2017 ynghylch gwerthusiad SQW a bod digwyddiad dathlu i nodi diwedd y rhaglen wedi'i drefnu ym mis Gorffennaf 2017, a fynychwyd gan yr Athro Ainscow a nifer o uwch swyddogion.¹⁶⁸

312. Mewn llythyr arall gan Ysgrifennydd y Cabinet, ategodd ei barn nad oedd unrhyw wrthdaro rhwng ei thystiolaeth lafar ar 22 Mawrth a'i llythyr dyddiedig 11 Ebrill 2018 a'i bod yn "fodlon ein bod wedi cymryd camau i sicrhau bod profiad rhaglen Her Ysgolion Cymru yn cael ei ddefnyddio yng ngweithgarwch y consortia addysg rhanbarthol i wella ysgolion".¹⁶⁹

313. Nododd llythyr Ysgrifennydd y Cabinet i'r Pwyllgor cyn ei thystiolaeth lafar (dyddiedig 9 Mawrth 2017) mai nod yr £1.5 miliwn a ddyrannodd ym mis Ionawr 2017 oedd "adeiladu ar y dysgu o Her Ysgolion Cymru a chyflawni gwaith ychwanegol wedi'i dargedu i gyflymu gwelliant mewn ysgolion, yn benodol, mewn ysgolion uwchradd a nodwyd gan y consortia fel rhai â'r angen mwyaf am gefnogaeth". Dywedodd Kirsty Williams AC y cytunwyd ar "set gyffredin o egwyddorion arweiniol" gyda'r consortia "yn seiliedig ar yr hyn a ddysgwyd o SCC", yn cynnwys:

- ffocws ar ddulliau cynaliadwy o wella arweinyddiaeth, addysgu a dysgu;
- sefydlu Bwrdd Gwella Carlam effeithiol (neu ddull cyfatebol);
- yr angen i adolygu dull pob ysgol o ddefnyddio data a hunanarfarnu at ddibenion gwella;

¹⁶⁷ Tystiolaeth lafar, Cofnod y Trafodion [paragraffau 176 a 179], 22 Mawrth 2018

¹⁶⁸ Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, Llythyr at y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 11 Ebrill 2018

¹⁶⁹ Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, Llythyr at y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 18 Mai 2018

- darparu cefnogaeth a her effeithiol gan Gyngorydd Her â chymwysterau addas a hanes profedig.¹⁷⁰

Barn ac argymhellion y Pwyllgor

314. Mae'r Pwyllgor wedi'i siomi nad yw Ysgrifennydd y Cabinet na'i swyddogion wedi ymgysylltu'n fwy rhagweithiol â'r Athro Mel Ainscow ynghylch sut i ddysgu gwersi o Her Ysgolion Cymru a chymhwyso'r rhain i wella ysgolion yn fwy cyffredinol. Mae hyn yn gryn syndod i'r Pwyllgor ac yn anarferol o ystyried bod Llywodraeth Cymru wedi buddsoddi tua £40 miliwn yn y rhaglen dros dair blynedd a bod Ysgrifennydd y Cabinet wedi datgan droeon bod Llywodraeth Cymru yn dysgu gwersi o'r rhaglen ac yn defnyddio'r rhain i lywio dulliau gwella ysgolion o fewn y consortia rhanbarthol. Yn sgil hyn, byddai'r Pwyllgor yn cwestiynu a yw Llywodraeth Cymru wedi gwneud digon o ymdrech i ymgysylltu â'r rhai sy'n ymwneud â chyflwyno Her Ysgolion Cymru, yn enwedig yr Athro Mel Ainscow ac i ba raddau y mae gwersi ystyrion yn cael eu dysgu o'r rhaglen.

Argymhelliad 28. Dylai Llywodraeth Cymru, ar y cyd â'r consortia rhanbarthol, ymgysylltu â'r bobl allweddol sy'n ymwneud â chyflwyno Her Ysgolion Cymru, gan gynnwys yr Athro Mel Ainscow i drafod y gwersi y gellid eu dysgu o'r rhaglen a mentrau eraill i wella ysgolion, ac yna cymhwyso hyn yn fwy cyffredinol ar draws yr holl ysgolion y mae angen eu gwella.

¹⁷⁰ Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, Llythyr at y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 9 Mawrth 2018

12. Rôl consortia rhanbarthol ac awdurdodau lleol o ran ysgogi gwelliannau mewn ysgolion (gan ddatblygu gwaddol Her Ysgolion Cymru)

12.1. Y berthynas rhwng Her Ysgolion Cymru a chonsortia rhanbarthol

Y Cefndir

315. Crëwyd y consortia rhanbarthol addysg yn 2012 ar draws pedwar rhanbarth yng Nghymru.¹⁷¹ Nododd Llywodraeth Cymru eu pwrpas a'u rôl yn y ddogfen ganllaw “**Model Cenedlaethol ar gyfer gweithio'n rhanbarthol**” (Tachwedd 2015). Drwy'r consortia, mae awdurdodau lleol yn pennu eu gwasanaethau gwella ysgolion. Un o'r prif ffyrdd y mae'r consortia'n darparu cymorth i ysgolion yw drwy Gynghorwyr Her.

316. Lansiwyd Her Ysgolion Cymru tra oedd y consortia rhanbarthol yn dal i ymsefydlu. Er mai un o nodweddion allweddol y consortia yw eu Cynghorwyr Her, roedd gan Ysgolion Her Cymru Gynghorwyr Her hefyd yn gweithio'n uniongyrchol yn yr ysgolion Llwybrau Llwyddiant. Roedd y rhain yn gweithredu ar wahân i'r consortia fwy neu lai

Barn rhanddeiliaid

317. Dywedodd SQW Consulting wrth y Pwyllgor fod Cynghorwyr Her, Ysgolion Cymru wedi gweithio'n benodol gydag ysgolion Llwybrau Llwyddiant, a bod “Cynghorwyr Her” y consortia wedi'u “rhyddhau” i weithio gyda'r grŵp ehangach o ysgolion yn y rhanbarth. Meddai Dr Marian Morris:

“We didn't come across duplication because it was more or less that the Schools Challenge Cymru challenge adviser was specifically for those schools to enable the regional consortia to focus on other schools. So,

¹⁷¹ Mae'r consortia rhanbarthol wedi'u trefnu fel a ganlyn: ERW (De-orllewin a Chanolbarth Cymru): Powys, Ceredigion, Sir Benfro, Sir Gaerfyrddin, Abertawe, Castell-nedd Port Talbot; Consortiwm Canolbarth y De (CSW): Pen-y-bont ar Ogwr, Bro Morgannwg, Rhondda Cynon Taf, Merthyr Tydfil, Caerdydd; Gwasanaeth Cyflawni Addysg (EAS) (De-ddwyrain Cymru): Caerffili, Blaenau Gwent, Torfaen, Sir Fynwy, Casnewydd; GwE (Gogledd Cymru): Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint, Wrecsam.

there didn't seem to be any duplication of effort—not that we came across.”¹⁷²

318. Fodd bynnag, nododd y Gymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau mai'r prif reswm nad oedd y rhaglen yn arwain at welliannau cyson ym mhob ysgol sy'n cymryd rhan oedd diffyg cydlynad â rôl y consortia rhanbarthol a diffyg cydlynad rhwng y ddau ddull o wella ysgolion. Dywedodd Tim Pratt, Cyfarwyddwr Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Cymru, wrth y Pwyllgor:

“Our view is that whilst the intent of the project was admirable and had enormous potential, in implementation there were issues. The most significant of these was in the lack of coordination and resulting layering of further accountabilities on these schools. The fact that separate improvement boards were set up, and were not required to engage with the local consortia and local authorities led to significant duplication of effort and contradictory advice being given in some cases. If these had formed part of a coordinated approach, in our view, it would have been more likely to have resulted in more widespread success.”¹⁷³

319. Nododd tystiolaeth y consortia rhanbarthol nad oeddent yn ymwneud yn benodol â chyflwyno Her Ysgolion Cymru, yn enwedig yn y blynyddoedd cynnar ond bod y berthynas wedi datblygu wrth i amser fynd yn ei flaen Dywedodd Ed Pryce, Arweinydd Strategol a Pholisi Gwasanaeth EAS wrth y Pwyllgor:

“We didn't have challenge advisers in those schools to duplicate any work of Schools Challenge Cymru advisers. In the first year of the programme, work was quite separate, although over time we got to work more closely with the Schools Challenge Cymru challenge advisers so that they could understand the range of complementary services that EAS could offer into schools, such as literacy and numeracy support, and we felt, over the three years of the programme, that relationship built.”

320. O ran llwyddiant y rhaglen, roedd GwE yn debryn nad oedd y canlyniadau yn y pum ysgol Llwybrau Llwyddiant yng Ngogledd Cymru yr hyn y byddai rhywun wedi'i obeithio ac yn gyffredinol, roeddent yn siomedig. Fodd bynnag,

¹⁷² Tystiolaeth lafar, Cofnod y Trafodion [paragraff 73], 28 Chwefror 2018

¹⁷³ Tystiolaeth ysgrifenedig, TF 13 - Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau (Cymru)

pwysleisiodd ei fod yn dibynnu ar y sefyllfaoedd yr oedd ysgolion yn dechrau ohonynt a bod y pump yng Ngogledd Cymru yn wynebu taith welliant hirfaith.¹⁷⁴

321. Yn ôl GwE:

“Generally, the rate of improvement in the Schools Challenge Cymru schools has been poor considering the funding invested.”¹⁷⁵

322. Tynnodd ERW sylw at y ffaith mai dim ond pedwar o blith y 39 o ysgolion a oedd yn rhan o Her Ysgolion Cymru a oedd yn Ne-orllewin a Chanolbarth Cymru, y gyfran isaf o blith holl ysgolion y pedwar rhanbarth. Nododd, ar ôl ymdrechion aflwyddiannus i gynnwys ysgolion ychwanegol, ei fod yn sefydlu eu rhaglen ymyrraeth eu hunain gyda phedair ysgol arall yn y rhanbarth â nodweddion tebyg i ysgolion Llwybrau Llwyddiant. Defnyddiodd ERW strategaethau tebyg i Her Ysgolion Cymru, gan gynnwys Byrddau Gwella Carlam. Adroddodd fod yr ymyriadau hyn wedi arwain at ganlyniadau gwell na rhai'r pedair ysgol a oedd yn rhan o Her Ysgolion Cymru.¹⁷⁶

323. Dywedodd CSW wrth y Pwyllgor fod Her Ysgolion Cymru wedi arwain at fudd cadarnhaol i'n rhanbarth ac yn gyffredinol, roedd yn brofiad positif. Felly roedd yn siomedig pan ddaeth y rhaglen i ben.¹⁷⁷

324. Cytunodd yr Athro Ainscow fod cynnydd Her Ysgolion Cymru gydag ysgolion yng Nghanolbarth De Cymru wedi bod yn arbennig o gryf, a dywedodd fod hyn o ganlyniad i ymgysylltiad y consortiwm â'r rhaglen. Tynnodd sylw at y ffaith nad oedd hyn yn wir ym mhob rhanbarth:

“Clearly we needed to link with the system as a whole, and that’s where we got variation. We’ve got, for example, the four regional consortia. Now, the degree of co-operation with the four was varied. In the one [Central South] where we had the most co-operation—and very clearly it was there—all 16 secondary schools made very rapid progress. Now, in the areas where we had less progress—I’m not saying that’s the only cause for lack of rapid progress—certainly we didn’t have the same kind of levels of co-operation. I’m thinking, for example, in Wrexham [North Wales] and in Torfaen [South East].”¹⁷⁸

¹⁷⁴ Tystiolaeth lafar, Cofnod y Trafodion [paragraff 153], 8 Mawrth 2018.

¹⁷⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, TF 14 – GwE

¹⁷⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig, TF 20 – ERW

¹⁷⁷ Tystiolaeth lafar, Cofnod y Trafodion [paragraffau 118 a 129], 8 Mawrth 2018.

¹⁷⁸ Tystiolaeth lafar, Cofnod y Trafodion [paragraff 483]

325. Roedd natur wahanol y berthynas rhwng rhaglen Her Ysgolion Cymru a'r consortia rhanbarthol ar draws gwahanol rannau o Gymru yn amlwg o'r ymweliadau â'r ysgolion a gynhaliwyd gan y Pwyllgor. Roedd Ysgol Uwchradd y Dwyrain yn gadarnhaol ynglŷn â rôl y consortiwm Canolog y dywedodd ei fod yn rhoi rhwydd hynt i'r ysgol a Chynghorydd Her, Her Ysgolion Cymru i fwrw ymlaen â'r dasg o wella'r ysgol. Roedd Ysgol Uwchradd y Dwyrain yn ystyried hyn yn rhywbeth cadarnhaol. Roeddent yn ddiolchgar eu bod hwy a Chynghorydd Her, Her Ysgolion Cymru yn gymharol rydd o gyfarwyddyd y consortiwm a'r awdurdod lleol ac yn gallu gwneud pethau yn eu ffordd eu hunain.

326. Cyfeiriodd yr Athro Ainscow at ddiffyg awydd gan rai i fynd ar drywydd y rhaglen:

“We were creating a challenge as to what is possible in Wales. We were challenging everybody out there at every level of the system to think creatively: is there more we can do? There are no silver bullets. There are no easy answers. Moving schools forward, particularly challenging schools, is a very complex process. It's relatively easy to get quick gains, but sustainable change is much more of a challenge. It takes much longer, in that sense, really. I think, in creating a challenge, we created turbulence in the system, at all levels of the system, and I think some people found that turbulence too much and were happy to go back to the status quo.”¹⁷⁹

Safbwynt Ysgrifennydd y Cabinet

327. Amlygodd Ysgrifennydd y Cabinet sut roedd y consortia rhanbarthol eu hunain ymysg buddiolwyr rhaglen Her Ysgolion Cymru. Dangosodd y wybodaeth a ddarparwyd gan Ysgrifennydd y Cabinet fod £29 miliwn wedi'i ddyrannu i'r ysgolion Llwybrau Llwyddiant, tra y rhoddwyd £10 miliwn i'r consortia rhanbarthol i ddatblygu ei gapasiti gwella ysgolion:

“This was to share learning and build capacity and school improvement infrastructure to support all schools in the long term. This funding, therefore, supported improvements that were realised in the wider system, beyond the 39 Pathways to Success schools.”¹⁸⁰

¹⁷⁹ Tystiolaeth lafar, Cofnod y Trafodion, [paragraff 475]

¹⁸⁰ Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, Llythyr at y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 9 Mawrth 2018

328. Gofynnodd y Pwyllgor i Ysgrifennydd y Cabinet am effeithiolrwydd y berthynas rhwng rhaglen Her Ysgolion Cymru a'r graddau yr oedd hyn yn amrywio yn y gwahanol ranbarthau. Atebodd:

“So, in some cases, if we’re being absolutely honest, there could sometimes be tensions between the two, but in most cases, the relationship was very, very positive and there was continuous feedback between the work going on in the schools under the programme and the regional consortia challenge advisers. But I’m going to be blunt and honest with people—in some cases, it has been reported to me—it’s only anecdotal evidence; I haven’t got hard and fast evidence—that there sometimes was a conflict: ‘We’re a school challenge school so we don’t need to participate or listen to any advice that’s coming from the regional consortia.’ Or, a local education authority said to me, ‘We felt that we couldn’t get involved in that school anymore because it was part of a different programme.’ Those were isolated incidents, and, as I said, it’s only anecdotal feedback. In most cases, the relationship was a very positive one.”¹⁸¹

Barn ac argymhellion y Pwyllgor

329. Daw'r Pwyllgor i'r casgliad ym mhennod 10 bod cryfder y berthynas rhwng y consortia rhanbarthol â rhaglen Her Ysgolion Cymru a'i gynghorwyr yn ffactor sylweddol o ran lefel y cynnydd a wnaed gan ysgolion Llwybrau Llwyddiant.

330. Ymddengys fod tensiynau a diffyg synergedd anghynhyrchiol rhwng y rhai a oedd yn ymwneud â chyflwyno Her Ysgolion Cymru a'r consortia mewn rhai rhanbarthau. Mewn rhai achosion, ymddengys fod y consortia wedi gweld y rhaglen yn fygythiad cystadleuol ac nid oedd wedi ymroi iddi'n gyfan gwbl. Ar y llaw arall, mae'n bosibl bod rhai ysgolion wedi gweld cymryd rhan yn Her Ysgolion Cymru fel cyfle i ddianc rhag dylanwad a chyfarwyddyd eu hawdurdod lleol a/neu eu consortia rhanbarthol ac roedd hynny ynddo'i hun yn broblem. Y naill ffordd neu'r llall, roedd y ffaith bod y consortia yn dal yn eu babandod yn ystod blynyddoedd cynnar Her Ysgolion Cymru wedi cyfrannu at ddiffyg synergedd rhwng y rhaglen a'r consortiwm mewn rhai rhanbarthau.

331. Mae'r Pwyllgor o'r farn bod cynnydd yr ysgolion Llwybrau i Lwyddiant yn Her Ysgolion Cymru yn dibynnu i raddau helaeth ar gryfder y berthynas rhwng y rhai sy'n ymwneud â darparu'r rhaglen a'r consortiwm rhanbarthol. Mae'r rhan fwyaf o'r

¹⁸¹ Tystiolaeth lafar, Cofnod y Trafodion [paragraff 203], 22 Mawrth 2018

data cyrhaeddiad yn ategu hyn, er enghraifft gwnaed cynnydd gan ysgolion yng nghanolbarth De Cymru yn enwedig.

12. 2. Rôl consortia rhanbarthol ac awdurdodau lleol o ran ysgogi gwelliannau mewn ysgolion

Y cefndir

332. Cafwyd naratif cynyddol gan Lywodraeth Cymru a'r consortia rhanbarthol fod Her Ysgolion Cymru yn fath o ddatrysiad gwella ysgolion dros dro, tra bod y consortia rhanbarthol yn ymsefydlu ac yn aeddfedu i'r graddau lle y gallent gymryd cyfrifoldeb llawn dros wella ysgolion.

333. Pan arolygodd Estyn y consortia rhanbarthol yn 2016, roedd yn eithaf beirniadol o'r graddau yr oedd y consortia yn canolbwyntio ar grwpiau penodol o ddisgyblion ac yn olrhain canlyniadau.¹⁸² Canfu gwaith monitro dilynol gan Estyn yn hydref 2017 fod tri o'r consortia wedi gwneud cynnydd cryf o ran ymateb i'w argymhellion, ond bod y cynnydd cyffredinol a wnaed gan ERW (y De-orllewin a'r Canolbarth) wedi bod yn araf.

Barn rhanddeiliaid

334. Nododd tystiolaeth y consortia rhanbarthol eu bod yn awyddus i ymgymryd â'r cyfrifoldebau a oedd yn cael eu hysgwyddo gan Her Ysgolion Cymru yn flaenorol fel rhan o'u cylch gwaith rhanbarthol ar gyfer gwella ysgolion. Er enghraifft, dywedodd GwE wrth y Pwyllgor:

“Beth rydym ni wedi'i wneud yn GwE, yn sicr, nid jest o ran dyblygu, ond symud ymlaen a datblygu'r cynllun, yw cymryd nifer o gryfderon am y cynllun, yn enwedig yr AIBs... adeiladu ar rai o'r pethau a oedd yn hanfod â siwrne dechreuol yr ysgolion yma yn eu taith gwella, oherwydd dechrau'r daith oedd Ysgolion Her Cymru, onid yw? Felly, rydym ni'n hyderus ein bod ni'n gallu symud y cynllun yma yn ei flaen.”¹⁸³

335. Roedd yr Athro Mel Ainscow ei hun yn gweld y consortia rhanbarthol yn ymgymryd â'r prif rôl ar gyfer gwella ysgolion yn yr hirdymor, gyda Her Ysgolion Cymru wedi darparu'r ysgogiad a'r sylfaen ar gyfer bwrw ymlaen â hyn:

¹⁸² Estyn, Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru 2013-2014, t92

¹⁸³ Tystiolaeth lafar, Cofnod y Trafodion [paragraff 144], 8 Mawrth 2018.

“I didn’t envisage the programme would continue on the same basis, because we’d learnt a lot and we’d moved on, and I certainly wasn’t suggesting we needed the same kind of funding. (...)”

But I think we’d learnt enough after, whatever it was, two and a half years, to put forward a proposal for how this could be built upon. Indeed, I put forward various written strategies of things that would go on and they were much about moving the project into the four consortia, not continuing it as a national initiative. There would need to be some kind of national coordination, but I saw the consortia as the natural home for the evolution of this way of working.”¹⁸⁴

336. Dywedodd Syr Alasdair Macdonald fod Her Ysgolion Cymru wedi cyflwyno dull mwy hyblyg tuag at wella ysgolion y gellid ei fabwysiadu gan y consortia:

“I think the vision from the outset was, because the consortia were new, that this would move to the consortia. I think our concern was that we felt that some of the more general elements of the schools challenge were to do with the fact that it could be more fleet of foot. We could do things much faster, without, dare I say it, some of bureaucracy that would have been in the local authorities and the consortia, and what we were trying to do was to try to see if we could get a model into the consortia that would follow that pattern, as it were.”¹⁸⁵

337. Nododd Estyn fod rôl y consortia rhanbarthol o ran cefnogi’r gwaith o wella ysgolion ychydig yn wahanol i’r ymyrraeth bwrpasol, wedi’i theilwra a gafodd ysgolion drwy Her Ysgolion Cymru. Dywedodd Prif Arolygydd EM wrth y Pwyllgor:

“I don’t think what Welsh Government are doing now is the same as what they were trying to do in Schools Challenge Cymru, because I think what Schools Challenge Cymru did, and did well, I think, was identify that there are a small number of secondary schools that have particular challenges and they need over and above the normal local authority/regional consortia support, they need over and above that a certain quantum of support and resource. I think that’s specifically what Schools Challenge Cymru was trying to do, and that’s not quite the same as what the more universal provision of regional consortia is.”¹⁸⁶

¹⁸⁴ Tystiolaeth lafar, Cofnod y Trafodion [paragraff 563], 8 Mawrth 2018.

¹⁸⁵ Ibid, [paragraff 566]

¹⁸⁶ Tystiolaeth lafar, Cofnod y Trafodion [paragraff 140], 14 Mawrth 2018.

Safbwynt Ysgrifennydd y Cabinet

338. Amlinellodd Ysgrifennydd y Cabinet fod Her Ysgolion Cymru wedi cyflawni ei diben sef, i bob golwg, cefnogi rhai ysgolion penodol, gan ddatblygu capasiti'r consortia rhanbarthol ar adeg pan oeddent yn eu babandod i wella ysgolion wedi hynny. Dywedodd:

“Gweithiodd y Llywodraeth [Cymru], Cyngorwyr a Hyrwyddwyr SCC a chonsortia gyda’i gilydd i sicrhau gwelliant parhaus yn yr ysgolion a throsglwyddo cyfrifoldebau i’r consortia. (...)

Datblygwyd cynllun y rhaglen ar gyfer y drydedd flwyddyn yn y cyd-destun hwn, gyda’r gwaith cynllunio a gweithredu dilynol yn cael ei gynnal ar sawl lefel i hwyluso pontio llyfn a chefnogi gwelliant parhaus. Yn yr un modd, roedd y consortia yn cynllunio ar sail ailddechrau eu cefnogaeth i’r ysgolion hyn ar ôl i’r rhaglen gau hefyd. (...)

Wrth gau SCC, roeddwn yn hyderus bod y consortia mewn sefyllfa dda i fanteisio ar y gwersi o’r rhaglen hon a’u cymhwyso i’w gwaith eu hunain.”¹⁸⁷

339. Ymatebodd Ysgrifennydd y Cabinet i’r awgrym na fyddai consortia rhanbarthol mor abl nac mewn sefyllfa cystal i gynnig cymorth wedi’i deilwra i ysgolion unigol gan ddweud:

“What I would say is that those improvement boards are staying on, and our schools categorisation system is used to identify the level of support. Now, if you’re a red school, that gives you the entitlement to 25 days of support. That is more than you would have got under the Schools Challenge Cymru programme, which would’ve been 20 days. So, actually, moving to this system allows us to really focus in on those schools that need that intensive level of support.”¹⁸⁸

Barn ac argymhellion y Pwyllgor

340. Mae’r Pwyllgor yn nodi mai safbwynt Ysgrifennydd y Cabinet, i bob golwg, yw bod Her Ysgolion Cymru wedi cyflawni ei diben am gyfnod penodol, tra bod y consortia rhanbarthol yn dal yn eu babandod, ond bod y consortia nawr yn gallu

¹⁸⁷ Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, [Llythyr at y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 9 Mawrth 2018](#)

¹⁸⁸ Tystiolaeth lafar, Cofnod y Trafodion [paragraff 150], [22 Mawrth 2018](#)

cymryd yr awenau o ran targedu gwaith gwella ysgolion mewn ysgolion sy'n tanberfformio.

341. Fodd bynnag, fel y nododd Prif Arolygydd EM, darparodd Her Ysgolion Cymru rywbeth penodol wedi'i deilwra i ysgolion, sy'n wahanol i'r ddarpariaeth fwy cyffredinol gan consortia rhanbarthol. Ar y llaw arall, credai Ysgrifennydd y Cabinet y bydd y consortia yn gallu cynnig cymorth mwy cynhwysfawr.

342. Mae gan y Pwyllgor rai amheuon ynghylch a fydd y consortia yn gallu cynnig yr un lefel o ymatebolrwydd ac ymyriadau wedi'u teilwra'n benodol i'r ysgolion sydd eu hangen â Her Ysgolion Cymru. Mae hyn yn arbennig o wir, o ystyried pryderon cynnar sy'n codi o arolygiadau Estyn yn 2015/16 ynghylch perfformiad rhai consortia wrth ganolbwyntio ar gynnydd grwpiau penodol o ddisgyblion ac olrhain canlyniadau. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod gwaith monitro dilynol gan Estyn yn hydref 2017 wedi canfod bod tri o'r consortia wedi gwneud cynnydd cryf o ran ymateb i'w argymhellion, ond bod y cynnydd cyffredinol a wnaed gan ERW (y De-orllewin a'r Canolbarth) wedi bod yn araf.

Argymhelliad 29. Dylai Llywodraeth Cymru fonitro a gwerthuso'n fanwl sut y mae consortia rhanbarthol yn darparu her i ysgolion y mae angen eu gwella ac yn eu cynorthwyo, yn enwedig y rhai a gymerodd ran yn Her Ysgolion Cymru. Dylai hyn gynnwys gofyn i Estyn gynnwys hyn yn ei arolygiadau o'r consortia rhanbarthol a'i waith monitro.

13. Cyd-destun ehangach cyllidebau ysgolion a chyllid ar gyfer gwella ysgolion

13.1. Digonolrwydd cyllidebau ysgolion

Y cefndir

343. Cododd y cefndir o bwysau ar gyllidebau craidd ysgolion droeon wrth drafod cyllid addysg wedi'i dargedu gyda rhanddeiliaid. Daeth i'r amlwg hefyd fel thema gyson mewn ymchwiliadau blaenorol gan y Pwyllgor, gan gynnwys Dysgu ac Addysg Proffesiynol Athrawon, ac Iechyd Emosiynol a Meddyliol Plant a Phobl Ifanc.

344. Mae Llywodraeth Cymru wedi ceisio diogelu cyllidebau ysgolion yng nghyllideb 2018-19. Gwnaeth hyn drwy ail-flaenoriaethu cyllid llywodraeth leol drwy ddod â nifer o grantiau penodol i ben a darparu cyllid ychwanegol ar gyfer cyfrifiad cychwynnol y gyfran o Gyllid Allanol Cyfunol 2018-19 ar gyfer cyllidebau ysgolion o fewn y Setliad Llywodraeth Leol. Fodd bynnag, roedd hyn ond yn galluogi i gyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer llywodraeth leol at ddibenion cyllidebau ysgolion aros yr un fath â lefelau 2017-18. Rhwng 2017-18 a 2018-19, roedd cynnydd o £1.5 miliwn (0.1 y cant) o £1.554 biliwn i £1.556 biliwn.¹⁸⁹

Tystiolaeth rhanddeiliaid

345. Tynnodd undebau'r penaethiaid sylw at y pwysau ar gyllidebau ysgolion a'r risgiau yn sgil hynny y bydd yr arian y bwriedir ei dargedu at ddibenion penodol, megis y Grant Datblygu Disgyblion, yn cael ei ddefnyddio i roi cymhorthdal i gyllidebau craidd.

346. Dywedodd Tim Pratt o'r Gymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau, wrth y Pwyllgor:

“One of the issues is that, if the core funding was sufficient, the additional money that was targeted could then be more transparently used. This blurring is what is at issue. It is a real concern that, as a school leader, if I'm faced with £100,000 of potential deficit, and I get £80,000

¹⁸⁹ Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Gwasanaethau Cyhoeddus, Alun Davies AC, Llythyr at y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau, 13 Tachwedd 2017.

“

Mae'r PDG yn celu'r ffaith nad yw cyllideb ysgolion yn ddigonol.

—

Nid adnodd ychwanegol yw'r PDG bellach, ond cyllideb graidd ar newydd wedd.

—

Mae'r PDG yn llenwi bylchau yn y cyllidebau craidd ac ni all cyllid wedi'i dargedu fel hyn weithio oni bai bod digon o gyllid mewn meysydd eraill.

Focus Group Summary

”

in on the PDG, I might be tempted to look at ways of allocating that just to sustain what we're doing already.”¹⁹⁰

347. Yn ei dystiolaeth ysgrifenedig, adroddodd yr NAHT ar adborth gan benaethiaid sy'n dweud bod y grantiau (megis y Grant Datblygu Disgyblion a'r Grant Gwella Addysg) yn cuddio graddau'r diffyg cyllid. Pan ofynnwyd iddo mewn tystiolaeth lafar a oedd ffiniau'r Grant Datblygu Disgyblion yn cael eu cymylu i ryw raddau i guddio diffygion mewn cyllidebau craidd, dywedodd Rob Williams o'r NAHT:

“In reality, it is. That's the honest answer: in reality, it is. We know that, for example, schools are having to use PDG to sustain key staff members. That would still adhere to the guidance within the grant, because if they were removed, the disproportionate effect would be on those pupils who qualify for eFSM.”¹⁹¹

348. Pwysleisiodd undebau'r athrawon y pwysau ariannol ar ysgolion a daethant i'r casgliad, fel y dywedodd UCAC, mai “llenwi'r bylchau mae'r Grant yn ei wneud ar hyn o bryd, yn hytrach na chael ei ddefnyddio i ymestyn a darparu ymhellach” gan nad yw “sefyllfa gyllidebol [ysgolion] yn cynnig fawr o ddewis iddynt”.¹⁹²

349. Dadleuodd yr Undeb Addysg Genedlaethol fod angen clir am ddadl eang ar gyllid addysg yng Nghymru ac anogodd y Pwyllgor i ailystyried cyllid addysg fel pwnc ac edrych ar y mater cyfan yn ei gyd-destun.¹⁹³

350. Tynnodd NASUWT sylw at yr hyn a alwodd yn danfuddsoddi cyffredinol mewn addysg gan Lywodraethau olynol Cymru sydd, yn ei farn ef, wedi arwain at ddefnyddio'r Grant Datblygu Disgyblion er mwyn cadw lefelau staffio cyffredinol yn unig.¹⁹⁴

351. Nododd UCAC nad oes gan ysgolion ddigon o arian craidd i gynnal eu hymyriadau, a bod hyn yn “cael effaith negyddol ar y gallu i gynnig cefnogaeth ychwanegol i ddysgwyr bregus”:

“Yn sgil y wasgfa gyffredinol a chynyddol ar gyllidebau ysgolion, yr hyn mae aelodau UCAC yn eu hadrodd wrthym yw bod y Grant Datblygu Disgyblion yn cael ei ddefnyddio mwyfwy i dalu am staff ychwanegol -

¹⁹⁰ Tystiolaeth lafar, Cofnod y Trafodion [paragraff 282], 8 Mawrth 2018

¹⁹¹ Ibid, [paragraff 280]

¹⁹² Tystiolaeth ysgrifenedig, TF 06 – UCAC

¹⁹³ Tystiolaeth ysgrifenedig, TF 02 – National Education Union Cymru

¹⁹⁴ Tystiolaeth ysgrifenedig, TF 15 – NASUWT

cynorthwywyr dysgu, fel rheol - yn hytrach nag unrhyw ymyraethau mwy arbenigol eraill.”¹⁹⁵

352. Cafwyd sylwadau gan ymatebwyr eraill i alwad y Pwyllgor am dystiolaeth ysgrifenedig ar y berthynas rhwng y Grant Datblygu Disgyblion a chyllidebau craidd ysgolion. Er enghraifft, dywedodd Pobl & Gwaith:

“Pressures upon school budgets are likely to be adding to incentives to use additional funding to supplement core budgets and for example, pay for staff, rather than offering genuinely additional support.”¹⁹⁶

353. Un arall o'r negeseuon cryf yn sgil gwaith ymgysylltu'r Pwyllgor oedd y pwysau cyffredinol ar gyllidebau ysgolion a goblygiadau hynny i'r ffordd y mae ysgolion yn defnyddio ffrydiau ariannu y'u bwriedir at ddibenion penodol, er enghraifft y Grant Datblygu Disgyblion. Ym mhob un o'r grwpiau ffocws a gynhaliwyd gydag ysgolion a llywodraethwyr, soniodd y rhai a oedd yn cymryd rhan fod y Grant Datblygu Disgyblion yn cynnal cyllidebau ysgol ac yn atal dileu swyddi. Cafwyd nifer o sylwadau tebyg i'r rhai a ganlyn:

“Mae'r PDG yn celu'r ffaith nad yw cyllideb ysgolion yn ddigonol.”

“Nid adnodd ychwanegol yw'r PDG bellach, ond cyllideb graidd ar newydd wedd.”¹⁹⁷

354. Roedd pob grŵp ffocws yn cytuno mai dim ond pan fod digon o arian craidd ar gael y gall y math hwn o gyllid weithio. Siaradodd pawb a gymerodd ran am y tensiwn rhwng cyllidebau a'r ffaith bod mwy o bwysau ar y Grant Datblygu Disgyblion ers lleihau'r gyllideb graidd:

“Mae'r PDG yn llenwi bylchau yn y cyllidebau craidd ac ni all cyllid wedi'i dargedu fel hyn weithio oni bai bod digon o gyllid mewn meysydd eraill.”¹⁹⁸

¹⁹⁵ Tystiolaeth ysgrifenedig, TF.06 – UCAC

¹⁹⁶ Tystiolaeth ysgrifenedig, TF.10 – Pobl & Gwaith

¹⁹⁷ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Ymchwiliad i Cyllid wedi'i Dargedu i Wella Canlyniadau Addysgol – Crynodeb o drafodaethau'r grwpiau ffocws, tudalen 7

¹⁹⁸ Ibid

Safbwynt Ysgrifennydd y Cabinet

355. Pan gododd y Pwyllgor gydag Ysgrifennydd y Cabinet y ffaith bod yr hyblygrwydd yn y modd y mae ysgolion yn defnyddio'r Grant Datblygu Disgyblion yn cael ei lywio gan y pwysau ar arian craidd, atebodd:

“No, I don't think it's being driven by cuts to core funding. (...)

We're very clear about the usage that this money can be spent on in terms of individuals or universal application within schools and that forms an important part of the checks and balances that we have in our system.”¹⁹⁹

356. Gan sôn yn fwy cyffredinol am arian ar gyfer cyllidebau ysgolion, yn ystod y gwaith o graffu ar y gyllideb ddrafft tynnodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg sylw at y ffaith bod gwariant llywodraeth leol ar ysgolion wedi cynyddu o £2.123 biliwn yn 2016-17 i £2.142 biliwn yn 2017-18.²⁰⁰ Dywedodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid yn ystod cylch y gyllideb ddrafft fod gan Lywodraeth Cymru gyllidebau rheng flaen gwarchodedig ar gyfer ysgolion.²⁰¹

Barn ac argymhellion y Pwyllgor

357. Cyfeiriwyd droeon at y pwysau sydd ar gyllidebau ysgolion yn ystod yr ymchwiliad hwn. Awgrymodd y dystiolaeth a gyflwynwyd i'r Pwyllgor fod ysgolion yn defnyddio'r Grant Datblygu Disgyblion i ategu'r gyllideb graidd a ddarperir, sy'n annigonol yn eu barn hwy. Nodwyd ein cefnogaeth ym mhennod 3 i'r egwyddor o gyllid wedi'i dargedu, ond mae'r Pwyllgor o'r farn na all yr egwyddor hon lwyddo oni bai bod cyllidebau craidd ysgolion yn cael eu hariannu'n ddigonol.

358. Felly, mae'r ymchwiliad hwn i Gyllid wedi'i Dargedu wedi atgyfnerthu'r angen i ystyried y mater ehangach o gyllido ysgolion ymhellach, neu fel arall bydd effaith y Grant Datblygu Disgyblion yn gyfyngedig oherwydd efallai y bydd ysgolion yn dueddol o'i ddefnyddio fel cymhorthdal i ategu eu cyllidebau craidd. Mae'r Pwyllgor eisoes wedi edrych ar y Grant Gwella Addysg mewn ymchwiliad

¹⁹⁹ Tystiolaeth lafar, Cofnod y Trafodion [paragraffau 39 a 42], 22 Mawrth 2018

²⁰⁰ Llywodraeth Cymru, Ymateb i adroddiad y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg: Craffu ar gyllideb ddrafft, Llywodraeth Cymru ar gyfer 2018-19, Ionawr 2018

²⁰¹ Llywodraeth Cymru, Cyllideb Ddrafft 2018-19 – Cyllideb Newydd i Gymru, 3 Hydref 2017, paragraffau 4.49-4.50 a Datganiad llafar gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol, Mark Drakeford AC, 3 Hydref 2017
Cynigion amlinellol

cynharach²⁰² ac mae bellach wedi edrych ar brif ffynhonnell arall o gyllid ychwanegol wedi'i dargedu ar gyfer ysgolion o'r MEG Addysg, sef y Grant Datblygu Disgyblion.

359. Cred y Pwyllgor ei bod hi'n bryd ystyried a chraffu'n fanylach ar gyllid ysgolion. Codod y Pwyllgor y mater o gyllidebau craidd ysgolion yn ystod ei waith craffu ar gyllideb 2018-19 Llywodraeth Cymru.²⁰³ Roedd hyn yn ymwneud yn benodol â'r tryloywder ynghylch y newidiadau rhwng 2017-18 a 2018-19 a pholisi datganedig Llywodraeth Cymru o ddiogelu cyllidebau ysgolion.

360. Er bod cyllid ar gyfer cyllidebau craidd ysgolion wedi'i gynnwys yn y MEG Llywodraeth Leol ac felly y tu allan i brif ffocws ein proses graffu ar gyllideb flynyddol, mae'r Pwyllgor yn bwriadu cynnal archwiliad manylach a dyfnach o gyllid ysgolion a'r effaith a gaiff ar bolisiau ac amcanion addysg Llywodraeth Cymru.

Argymhelliad 30. Dylai Llywodraeth Cymru barhau i adolygu pa mor ddigonol yw cyllidebau ysgolion ac ystyried sut mae hyn yn effeithio ar ystyriaeth ysgolion o gyllid wedi'i dargedu, megis y Grant Datblygu Disgyblion, a'r defnydd ohono.

13. 2. Colli cyllideb Her Ysgolion Cymru o'r MEG Addysg

Y cefndir

361. Penderfynodd Llywodraeth Cymru yn gynnar yn 2014 ddefnyddio'r arian, a gododd o swm canlyniadol Barnett yn sgil penderfyniad Llywodraeth y DU yn hydref 2013 i gyflwyno prydau am ddim i bob disgybl sy'n fabanod yn Lloegr, ar gyfer gwella ysgolion.²⁰⁴ Defnyddiwyd y cyllid hwn ar gyfer Her Ysgolion Cymru.²⁰⁵ Dyrannwyd cyllideb flynyddol o £15 miliwn i'r rhaglen.

362. Pan gyhoeddwyd y cadarnhad yn hydref 2016 na fyddai Her Ysgolion Cymru yn parhau y tu hwnt i'w drydedd flwyddyn ariannol, sef 2016-17, dychwelodd y £15 miliwn i gronfeydd wrth gefn canolog Llywodraeth Cymru. Felly ni chafodd ei ddefnyddio at ddiben arall o fewn y Prif Grŵp Gwariant Addysg (MEG).

²⁰² Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Grant gwella addysg: Plant Sipsiwn, Roma a Theithwyr a phlant o leiafrifoedd ethnig 2017

²⁰³ Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, Craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2018-19, Rhagfyr 2017

²⁰⁴ Llywodraeth Cymru, Datganiadau'r Cabinet: Y Gweinidog Cyllid, Jane Hutt, Dyraniadau sy'n deillio o Ddatganiad yr Hydref 2013, 27 Ionawr 2014;

²⁰⁵ Llywodraeth Cymru, y Gweinidog dros Addysg a Sgiliau, Huw Lewis, Her Ysgolion Cymru, 10 Chwefror 2014.

363. Mae Rhaglen Lywodraethu Llywodraeth Cymru ar gyfer y Cynulliad hwn yn cynnwys ymrwymiad i wario £100 miliwn ychwanegol drwy gydol y pum mlynedd ar godi safonau'r ysgol. Penderfynodd Llywodraeth Cymru sianelu'r £100 miliwn ychwanegol hwn drwy raglenni a pholisïau penodol yn y MEG Addysg, yn hytrach na thrwy gyllid ar gyfer llywodraeth leol a chyllidebau craidd ysgolion (fel ei dull o ddiogelu cyllidebau ysgolion yn y Pedwerydd Cynulliad).

364. Fel rhan o'r £100 miliwn a addawyd yn ystod y Cynulliad hwn, dyrannodd Llywodraeth Cymru £20 miliwn i'r Llinell Gwariant yn y Gyllideb (BEL) ar Godi Safonau Ysgolion yn 2017-18, gan ddyrannu £25 miliwn arall yn 2018-19 a swm dangosol o £25 miliwn ar gyfer 2019-20.²⁰⁶

365. Fodd bynnag, ddechrau 2017-18, tynnwyd £15 miliwn o'r BEL Her Ysgolion Cymru a'i drosglwyddo i gronfeydd wrth gefn. Gellir dadlau, felly, bod angen ystyried hyn wrth gymharu gwariant ar godi safonau ysgolion rhwng y gyllideb ddiwethaf a bennwyd yn y Cynulliad blaenorol (2016-17) a'r cyllidebau a ddyrennir yn y Cynulliad hwn.

Safbwynt Ysgrifennydd y Cabinet

366. Cadarnhaodd Ysgrifennydd y Cabinet yn ystod y gwaith craffu ar y gyllideb ddrafft ym mis Tachwedd 2016, yn sgil y ffaith bod Her Ysgolion Cymru yn cael ei dirwyn i ben, y byddai cyllideb flynyddol £15 miliwn y rhaglen yn cael ei throsglwyddo o'r MEG Addysg i gronfeydd wrth gefn canolog:

“As a result of the programme being centrally funded from Reserves, there was a requirement to transfer the funding back to Reserves in 2017-18.”²⁰⁷

367. Yn ei thystiolaeth ar gyfer yr ymchwiliad hwn, ni roddodd Kirsty Williams AC fawr ddim arwydd bod unrhyw bosibilrwydd y byddai'r arian wedi cael ei gadw o fewn y gyllideb addysg,:

“We are constantly having discussions with the [Cabinet Secretary] for Finance around support for the education budget. The [Cabinet

²⁰⁶ Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, Kirsty Williams, Papur tystiolaeth ar Gyllideb Ddrafft 2018-19 – Prif Grŵp Gwariant (MEG) Addysg, Tachwedd 2017, Atodiad B

²⁰⁷ Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, Kirsty Williams, Papur tystiolaeth ar y Gyllideb Ddrafft 2017-18 – Prif Grŵp Gwariant (MEG) Addysg, Tachwedd 2016f

Secretary] for Finance was quite clear that it was a time-limited programme.”²⁰⁸

368. Fodd bynnag, sicrhaodd Llywodraeth Cymru fod cyllid trosiannol o £200,000 ar gael i ysgolion Llwybrau Llwyddiant barhau â gweithgareddau tan ddiwedd y flwyddyn academaidd 2016/17 ac £1.5 miliwn ar gyfer y consortia rhanbarthol i adeiladu ar y gwersi o Her Ysgolion Cymru yn 2017-18.²⁰⁹

Barn ac argymhellion y Pwyllgor

369. P'un a yw'n dderbyniol bod Her Ysgolion Cymru wedi'i bwriadu i fod yn rhaglen tymor penodol o'r cychwyn ai peidio, p'un a ddylai fod wedi parhau y tu hwnt i dair blynedd, neu p'un a oedd yn cynrychioli gwerth am arian, mae'n amlwg bod dirwyn y rhaglen i ben wedi arwain at golli ei chyllideb flynyddol gwerth £15 miliwn o'r MEG Addysg.

370. Nid yw'n glir a ddigwyddodd hynny am na wnaed achos dros gadw'r cyllid o'r MEG Addysg, neu os cafodd achos ei wneud ond nad oedd hynny'n cyd-fynd â blaenoriaethau Llywodraeth Cymru.

371. Mae natur datganoli yn golygu na ddylai cyllid ychwanegol i Gymru sy'n deillio o swm canlyniadol Barnett gael ei wario o reidrwydd ar yr un maes polisi yma ag a wneir yn San Steffan. Fodd bynnag, mae'r Pwyllgor o'r farn ei bod yn bwysig cofio bod Llywodraeth Cymru wedi penderfynu ar ddechrau 2014 defnyddio'r arian a gododd yn sgil cyflwyno prydau ysgol am ddim i ddisgyblion sy'n fabanod yn Lloegr, at ddibenion addysg yma yng Nghymru hefyd; yn benodol ar gyfer gwella ysgolion. Mae'r arian hwn bellach wedi'i ddargyfeirio o addysg.

372. Mae hyn hefyd yn bwrw amheuaeth dros allu Llywodraeth Cymru i gyflawni'r ymrwymiad yn ei Rhaglen Lywodraethu i wario £100 miliwn ychwanegol ar godi safonau ysgolion yn nhymor y Cynulliad hwn. Os bydd Llywodraeth Cymru, ar gyfartaledd, yn gwario £20 miliwn ychwanegol y flwyddyn ar godi safonau ysgolion, mae angen ystyried hyn yng ngoleuni'r ffaith ei bod yn dyrannu £15 miliwn yn llai y flwyddyn ar gyfer ei rhaglen gwella ysgolion, Her Ysgolion Cymru.

²⁰⁸ Tystiolaeth lafar, cofnod y Trafodion [paragraff 157], 22 Mawrth 2018

²⁰⁹ Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, Datganiad Ysgrifenedig - Cyllid ychwanegol i helpu gyda throsglwyddo'n ôl o Her Ysgolion Cymru, 11 Ionawr 2017; Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg, Llythyr at y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg, 22 Mehefin 2017.

Argymhelliad 31. Dylai Llywodraeth Cymru ddarparu, ar sail unigol a chyfunol, restr o'r llinellau gwariant yn y gyllideb (BELs) o fewn y MEC Addysg sy'n cyllido codi safonau ysgolion yn bennaf, ar gyfer 2016-17, 2017-18 a 2018-19, yn ogystal ag ymrwymo i wneud hynny ar gyfer gweddill tymor y Cynulliad hwn.

Atodiad A: Rhestr o dystiolaeth lafar

Rhoddodd y dystion a ganlyn dystiolaeth lafar i'r Pwyllgor ar y dyddiadau a nodir isod. Gellir gweld trawsgriifiadau o'r sesiynau dystiolaeth lafar ar dudalen we y Pwyllgor.

Dyddiad	Enw a Sefydliad
28 Chwefror 2018	Dr Marian Morris, SQW Consulting Yr Athro Christopher Taylor, WISERD Robert Smith, Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Ymchwil Addysgol
8 Mawrth 2018	Andrew Williams a Debbie Lewis, Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De Betsan O'Connor a Cressy Morgan, Ein Rhanbarth ar Waith Paul Matthews-Jones a Sharon Williams, GwE Ed Pryce a Kath Bevan, Gwasanaeth Cyrhaeddiad Addysg ar gyfer De Ddwyrain Cymru Rob Williams a Damon McGarvie, Cymdeithas Genedlaethol y Prifathrawon Cymru Tim Pratt a Ravi Pawar, Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau Neil Foden a Hannah O'Neil, Undeb Addysg Genedlaethol Cymru Rex Phillips, NASUWT Elaine Edwards, UCAC Yr Athro Mel Ainscow, Athro Emeritws Addysg a Chyd-gyfarwyddwr y Canolfan Cydraddoldeb mewn Addysg, Prifysgol Manceinion Syr Alasdair Macdonald, Cyngorydd Llywodraeth Cymru ar Addysg

14 Mawrth 2018	Meilyr Rowlands, Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru, Estyn Simon Brown, Cyfarwyddwr Strategol; Estyn Claire Morgan, Cyfarwyddwr Strategol, Estyn
22 Mawrth 2018	Kirsty Williams AC, Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg Steve Davies, Cyfarwyddwr y Gyfarwyddiaeth Addysg, Llywodraeth Cymru Ruth Conway, Dirprwy Gyfarwyddwr yr Is-adran Cymorth i Ddysgwyr, Llywodraeth Cymru

Atodiad B: Tystiolaeth ysgrifenedig

Rhoddodd y bobl a'r sefydliadau a ganlyn dystiolaeth ysgrifenedig i'r ymchwiliad. Gellir gweld yr holl ymatebion i'r ymgynghoriad ar wefan y Pwyllgor.

Organisation	Ref
Adoption UK	TF 01
National Education Union Cymru	TF 02
Undeb Prifysgolion a Cholegau	TF 03
Teach First Cymru	TF 04
Y Lleng Brydeinig Frenhinol	TF 05
Undeb Cenedlaethol Cymru (UCAC)	TF 06
Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth	TF 07
Mudiad Meithrin	TF 08
Yr Athro Mel Ainscow	TF 09
Pobl & Gwaith	TF 10
Estyn	TF 11
Gwasanaeth Cyflawni Addysg i Dde Ddwyrain Cymru	TF 12
Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau	TF 13
GwE	TF 14
NASUWT	TF 15
Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC)	TF 16
Cyngor Abertawe	TF 17
Tîm Cymorth Lleiafrifoedd Ethnig & Ieuenctid Cymru	TF 18
Cymdeithas Genedlaethol Prifathrawon Cymru	TF 19
Ein Rhanbarth ar Waith (ERW)	TF 20
Llywodraeth Cymru	TF 21

